Wel, rydym ni'n edrych i weld—. Wel, mae'r metro eisoes wedi cychwyn o ran cam 1. Rydym ni'n bwriadu gweld cam arall yn dechrau yn 2017. Y drafferth yw nad yw llawer o'r pwerau sydd eu hangen i roi'r metro ar waith wedi'u datganoli, yn enwedig o ran rheilffyrdd ysgafn ac yn enwedig o ran bysiau. Felly, nid yw'r ystod lawn o bwerau gennym y byddem yn dymuno eu cael, ond, serch hynny, nid oes unrhyw reswm i amau y bydd unrhyw un yn awyddus i atal y metro rhag cael ei gyflwyno. Y cam nesaf i ni fydd edrych ar bob un o'r rheilffyrdd unigol, gan benderfynu beth yw'r dull gorau o deithio, ac yna ystyried sut y gellir ailagor y gorsafoedd hynny. Mae Gorsaf Heol y Crwys yn dal i fod yno, wrth gwrs. Mae'r adeilad yn dal i fod yno, er mae'n anodd gwybod pa un a yw'n dal i fod yn bosibl ei ddefnyddio fel gorsaf. Ond yr holl bwynt yw nad yw rhan ddwyreiniol Caerdydd wedi'i gwasanaethu'n dda gan y rhwydwaith rheilffyrdd. Sut y gellir datrys hynny? Sut ydym ni'n gwneud yn siŵr, os bydd ystadau newydd yn cael eu hadeiladu o gwmpas y de, eu bod wedi'u cysylltu drwy'r rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus? Mae'r rhain i gyd yn rhan o'n hystyriaethau, nid yn unig o ran creu'r system metro nawr, ond o ran gwneud yn siŵr ei bod yn cael ei diogelu ar gyfer y dyfodol wrth ystyried y blynnyddoedd i ddod.

Economi Dinas-ranbarth Abertawe

14:12

Mike Hedges [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

8. A wnaiffy Prif Weinidog ddatganiad am sut y mae economi dinas-ranbarth Abertawe yn cael ei wella?
OAQ(4)2526(FM)

The Swansea City Region Economy
[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

8. Will the First Minister make a statement on how the Swansea city region's economy is being improved?
OAQ(4)2526(FM)

14:13

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes. We're working to support jobs and growth in every part of Wales. The Swansea bay city region board is making good progress in identifying key proposals and projects.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Gwnaf. Rydym ni'n gweithio i gefnogi swyddi a thwf ym mhob rhan o Gymru. Mae bwrdd dinas-ranbarth Bae Abertawe yn gwneud cynnydd da o ran nodi cynigion a phrosiectau allweddol.

14:13

Mike Hedges [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, First Minister, for that answer. What role do you see for the very successful and growing universities in the area to help further develop the local economy?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Diolch yn fawr, Brif Weinidog, am yr ateb yna. Pa swyddogaeth ydych chi'n ei rhagweld ar gyfer y prifysgolion llywiddiannus iawn sy'n tyfu yn yr ardal i helpu i ddatblygu'r economi leol ymhellach?

14:13

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The universities have been astonishingly successful. Two weeks ago, I was at the opening of the new engineering campus on Fabian Way—a remarkable investment by the university. It wouldn't have happened without European money either, and I think that's something that we need to emphasise and, of course, the support we gave as a Government. It's had the effect of drawing some of the best academics in as well, and it will also draw in the best students. And, of course, we have the University of Wales Trinity Saint David proposal for a new campus on the SA1 site. That, again, is a highly ambitious and complementary development and it shows that the investment is going into Swansea to strengthen not just the city's academic community but the city's economy in the future.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Mae'r prifysgolion wedi bod yn rhyfeddol o lwyddiannus. Bythefnos yn ôl, roeddwn i yn agoriad y campws peirianneg newydd ar Fabian Way—buddsoddiad rhyfeddol gan y brifysgol. Ni fyddai wedi digwydd heb arian Ewropeaidd ychwaith, ac rwy'n credu bod hynny'n rhywbeth y mae angen i ni ei bwysleisio ac, wrth gwrs, y gefnogaeth a roddwyd gennym ni fel Llywodraeth. Mae wedi cael yr effaith o ddenu rhai o'r academyddion gorau hefyd, a bydd hefyd yn denu'r myfyrwyr gorau. Ac, wrth gwrs, mae gennym ni gynnig Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant ar gyfer campws newydd ar y safle SA1. Mae hwnnw, unwaith eto, yn ddatblygiad hynod uchelgeisiol ac ategol ac mae'n dangos bod y buddsoddiad yn mynd i Abertawe i gryfhau nid yn unig cymuned academaidd y ddinas, ond economi'r ddinas yn y dyfodol.

14:14

Altaf Hussain [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, I am sure you would agree for the full benefits of economic growth to be felt across the whole Swansea, the Welsh Government should do all in its power to help local employers make the most of local skills within the workforce. Will the First Minister, therefore, back calls to scrap the age restriction on the Jobs Growth Wales scheme so that all members of the community in Swansea have the chance to benefit from—

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Brif Weinidog, rwy'n siŵr y byddech chi'n cytuno y dylai Llywodraeth Cymru wneud popeth o fewn ei gallu i helpu cyflogwyr lleol i fanteisio i'r eithaf ar sgiliau lleol yn y gweithlu i sicrhau manteision llawn twf economaidd ar draws Abertawe gyfan. A wnaiff y Prif Weinidog, felly, gefnogi galwadau i gael gwared ar y cyfngiad oedran ar gynllun Twf Swyddi Cymru fel bod gan bob aelod o'r gymuned yn Abertawe y cyfle i elwa ar—

14:14

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Order. You must relate it to Swansea quickly. Now, come on.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:14

Altaf Hussain [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Continues.]—growth in the local economy and do not end up being, in effect, excluded from the market for many skilled jobs simply because the current scheme deems them too old?

[Yn parhau.]—dwl yn yr economi leol ac nad ydnt, yn y pen draw yn cael eu heithrio i bob pwrpas o'r farchnad ar gyfer llawer o swyddi medrus dim ond oherwydd bod y cynllun presennol yn barnu eu bod yn rhy hen?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:14

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, they say that imitation is the sincerest form of flattery. We've listened to four years of the Tories criticising Jobs Growth Wales, saying that it's useless, it doesn't work and so forth, and now they're taking it on board. We work with employers to make sure that they understand the skills and experience that older people—not older people, but older workers—can bring, but we also know that young people, especially given the fact that they're being hammered by the UK Government at the moment, do need an extra leg up—they do need that extra support—and that's what Jobs Growth Wales is designed to do—to give them that experience, not just in terms of skills, but of the work environment, at a time when everything else that my generation took for granted and, indeed, the Prime Minister's generation took for granted, is being removed from them. We will stand by our young people as we've always stood by older people as well.

Wel, maen nhw'n dweud mai efelychu yw'r ffurf fwyaf didyll ar weniaith. Rydym ni wedi gwrando ar bedair blynedd o'r Torïaid yn beirniadu Twf Swyddi Cymru, gan ddweud ei fod yn ddiwerth, nad yw'n gweithio ac yn y blaen, a nawr maen nhw'n ei fabwysiadu. Rydym ni'n gweithio gyda chyflogwyr i wneud yn siŵr eu bod yn deall y sgiliau a'r profiad y gall pobl hŷn—nid pobl hŷn ond gweithwyr hŷn—eu cynnig, ond gwyddom hefyd bod pobl ifanc, yn enwedig o ystyried y ffaith eu bod yn cael eu taro'n galed gan Lywodraeth y DU ar hyn o bryd, angen hwb ychwanegol—mae angen y gefnogaeth ychwanegol honno arnyn nhw—a dyna'r hyn y mae Twf Swyddi Cymru wedi'i gynllunio i'w wneud—i roi'r profiad hwnnw iddyn nhw, nid yn unig o ran sgiliau, ond o'r amgylchedd gwaith, ar adeg pan fo popeth arall yr oedd fy nghenhedlaeth i'n ei gymryd yn ganiataol ac, yn wir, yr oedd cenhedlaeth Prif Weinidog y DU yn ei gymryd yn ganiataol, yn cael ei gymryd oddi arnynt. Byddwn yn sefyll gyda'n pobl ifanc fel yr ydym ni wedi sefyll gyda phobl hŷn erioed hefyd.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:15

David Rees [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, you've already indicated that the opening of the new second campus at Swansea University—the science and innovation campus in Fabian Way—is a mechanism by which we can look forward to new opportunities, particularly in the research and development that's being offered there. What discussions has the Welsh Government had with the university to attract businesses into research and development, so that we can actually develop the high-end engineering skills that we need in our economy?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:16

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

I am aware that the engineering campus is in the Member's constituency; he should have said that at the beginning—he keeps on reminding me of that. But, I know that officials do work with universities and the local authority in Swansea to develop and support inward investment leads and new R&D businesses. Two examples: the Welsh Centre for Coating and Printing, we supported that—a world-leading research and development centre for advanced manufacture by printing; and, of course, the Sustainable Product Engineering Centre for Innovation in Functional Coatings project, the academic and industrial consortium led by Swansea University with Tata Steel, NSG Pilkington and BASF as strategic partners, and, of course, we support SPECIFIC as well.

Brif Weinidog, rydych chi eisoes wedi nodi bod agor yr ail gampws newydd ym Mhrifysgol Abertawe—y campws gwyddoniaeth ac arloesedd yn Fabian Way—yn ddull y gallwn ei ddefnyddio i edrych ymlaen at gyfleoedd newydd, yn enwedig o ran y gwaith ymchwil a datblygu sy'n cael ei gynnig yno. Pa drafodaethau mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael gyda'r brifysgol i ddenu busnesau i faes ymchwil a datblygu, fel y gallwn wir ddatblygu'r sgiliau peirianneg blaenllaw sydd eu hangen arnom yn ein heonomi?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:16

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Brif Weinidog, mae ardal fenter Aberdaugleddau yn rhan o ddinas-ranbarth Abertawe, a'r unig ardal fenter sydd gennych chi yng Nghymru lle mae'n rhaid talu toll i fynd o un ran o'r ardal fenter i ran arall—75c bob ffordd dros bont Cleddau. Wrth i chi edrych ar brif-fforddio pont Cleddau a chymryd honno fel rhan o'r ffyrdd trunk cenedlaethol, a ydych chi am ddiddymu'r toll yna?

Rwy'n ymwybodol bod y campws peirianneg yn etholaeth yr Aelod; dylai fod wedi dweud hynny ar y cychwyn—mae'n fy atgoffa i o hynny o hyd. Ond, gwn fod swyddogion yn gweithio gyda phrifysgolion a'r awdurdod lleol yn Abertawe i ddatblygu a chefnogi cyfleoedd mewnfuddsoddi a busnesau ymchwil a datblygu newydd. Dyma ddwy enghraifft: Canolfan Argraffu a Chaenu Cymru, cefnogwyd honno gennym—canolfan ymchwil a datblygu ar gyfer gweithgynhyrchu uwch trwy argraffu sydd ymhliith goreun y byd; ac, wrth gwrs, prosiect y Ganolfan Beirianneg Cynnyrch Cynaliadwy ar gyfer Haenau Diwydiannol Gweithredol Arloesol, y consortiwm academaidd a diwydiannol a arweinir gan Brifysgol Abertawe gyda Tata Steel, NSG Pilkington a BASF fel partneriaid strategol, ac, wrth gwrs, rydym ni'n cefnogi SPECIFIC hefyd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:17

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Cwestiwn diddorol ac, wrth gwrs, toll sydd wedi bod yna ers blynnyddoedd mawr. Mae hwn yn rhywbeth y byddwn yn ei ystyried, wrth gwrs, os taw dyna yw cyfeiriad yr hewl ynglŷn ag a ddylai fod yn hewl trunk neu beidio. Bydd yn rhaid ystyried beth yw costau'r bont ei hun ynglŷn â sicrhau dyfodol y bont a wedyn, wrth gwrs, byddwn yn cymryd penderfyniad.

First Minister, the Milford Haven enterprise zone is part of the Swansea bay city region. It's the only zone in Wales where you have to pay a toll to go from one part of the enterprise zone to another, at 75p each way over the Cleddau bridge. As you look at the trunking of the Cleddau bridge, are you actually going to abolish those tolls?

14:17

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, one of the threats to the Swansea bay region is the current state of the British steel industry and, obviously, there are a lot of concerns about Tata, which is, so far, weathering the storm. Can I ask what work your Government is doing with the UK Government in terms of trying to mitigate some of the costs that are threatening the future of that particular plant?

That's an interesting question and, of course, it's a toll that's been there for many years. It would be something that we would consider if that is the direction of the road, whether it should be a trunk road or not. We'd have to consider the costs of the bridge itself as regards maintaining the bridge and then, of course, we will take a decision.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Brif Weinidog, un o'r bygythiadau i ranbarth Bae Abertawe yw cyflwr presennol diwydiant dur Prydain ac, yn amlwg, ceir llawer o bryderon am Tata, sydd, hyd yn hyn, yn ymdopi. A gaf i ofyn pa waith y mae eich Llywodraeth yn ei wneud gyda Llywodraeth y DU o ran ceisio lliniaru rhai o'r costau sy'n bygwth dyfodol y ffatri benodol honno?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:17

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Much has been done. The Minister has written to UK Ministers no fewer than five times this year alone. We've continued to press the UK Government for full implementation of the energy-intensive industries compensation package as soon as possible. High energy costs are brutal as far as the steel industry is concerned, and they are a serious matter. We've raised them time and time again with the UK Government to make sure that British high-energy manufacturers do not face the penalty of high-energy costs, which is what they're facing at the moment. I can say that the Minister attended a steel summit on 16 October in Rotherham. We are working with the UK Government's work groups looking at things like public procurement: why isn't British steel being used in British projects in that way? We'll be holding a steel meeting ourselves on 5 November. That will be chaired by the Minister and then we will look to continue with the discussions from then on. I understand as well there is a Competitiveness Council meeting in Brussels on Monday, and the Welsh Government will be represented at that.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Mae llawer wedi ei wneud. Mae'r Gweinidog wedi ysgrifennu at Weinidogion y DU ddim llai na phum gwaith eleni yn unig. Rydym ni wedi parhau i bwys o ar Lywodraeth y DU am weithrediad llawn y pecyn iawndal diwydiannau ynni-ddwys cyn gynted â phosibl. Mae costau ynni uchel yn greulon cyn belled ag y mae'r diwydiant dur yn y cwestiwn, ac maen nhw'n fater difrifol. Rydym ni wedi eu codi nhw dro ar ôl tro gyda Llywodraeth y DU er mwyn sicrhau nad yw cynhyrchwyr ynni uchel Prydain yn wynebu'r gosb o gostau ynni uchel, sef yr hyn y maen nhw'n ei wynebu ar hyn o bryd. Gallaf ddweud bod y Gweinidog yn bresennol mewn uwchgynhadledd dur ar 16 Hydref yn Rotherham. Rydym ni'n gweithio gyda gweithgorau Llywodraeth y DU i ystyried pethau fel caffael cyhoeddus: pam nad yw dur Prydain yn cael ei ddefnyddio mewn prosiectau ym Mhrydain yn y ffordd honno? Byddwn yn cynnal cyfarfod dur ein hunain ar 5 Tachwedd. Bydd hwnnw'n cael ei gadeirio gan y Gweinidog, ac yna byddwn yn ceisio parhau â'r trafodaethau o hynny ymlaen. Rwy'n deall hefyd bod cyfarfod Cyngor Cystadleurwydd yn cael ei gynnll ym Mrwsel ddydd Llun, a bydd Llywodraeth Cymru yn cael ei chynrychioli yn hwnnw.

14:19

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)*Thank you, First Minister.*
[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:19

2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes**Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Item 2 is the business statement and announcement, and I call on the Minister for Finance and Government Business, Jane Hutt.

2. Business Statement and Announcement
Y [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:19

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)*Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business*

Thank you, Deputy Presiding Officer. There've been two changes to report to the business statement for this week's business: a motion to suspend Standing Orders will be moved by the First Minister to allow the scheduling of a debate on the draft Wales Bill, and a statement by the Deputy Minister for Farming and Food on the TB eradication programme has been postponed to allow time for the above debate, and will be rescheduled in due course. Business for the next three weeks is as shown on the business statement and announcement that can be found among agenda papers available to Members electronically.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Mae dau newid i'w hadrodd i'r datganiad busnes ar gyfer busnes yr wythnos hon: Bydd cynnig i atal Rheolau Sefydlog yn cael ei gynnig gan y Prif Weinidog i ganiatáu amserlennu dadl ynglŷn â Bil Cymru drafft, ac mae datganiad gan y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd ar y rhaglen i ddileu TB wedi ei ohirio er mwyn caniatáu amser ar gyfer y ddadl uchod, a bydd yn cael ei ail-drefnu maes o law. Mae'r busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel y'i dangosir ar y datganiad a chyhoeddiad busnes y gellir ei weld ymhliith papurau'r agenda sydd ar gael i'r Aelodau yn electronig.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:19

Suzi Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I wonder if the Government would consider holding a debate in Government time on the Welsh museum sector. We've obviously heard of concerns regarding the jobs in the national museum sector, but also there's been an excellent report commissioned by the Government on local museum provision, and I think it's worth an airing here in the Chamber. So, if time could be found on a Government day to discuss that, I think that would be very helpful.

Weinidog, tybed a fyddai'r Llywodraeth yn ystyried cynnal dadl yn ystod amser y Llywodraeth ar y sector amgueddfeydd yng Nghymru. Rydym yn amlwg wedi clywed am bryderon yngylch y swyddi yn y sector amgueddfeydd cenedlaethol, ond comisiynwyd adroddiad ardderchog gan y Llywodraeth hefyd ar ddarpariaeth amgueddfeydd lleol, ac rwyf yn credu bod gwerth mewn rhoi sylw i hwnnw yma yn y Siambra. Felly, pe gellid dod o hyd i amser yn ystod un o ddiwrnodau'r Llywodraeth i drafod hynny, rwyf yn meddwl y byddai hynny'n ddefnyddiol iawn.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:20

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes. Clearly, there are opportunities to raise questions, as you said, Suzy Davies, to the Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism, and not only to raise questions to the Minister, but also to take the opportunity to proclaim the successes of the Welsh museum sector, and I'm sure that this will continue.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Ie. Yn amlwg, mae cyfleoedd i godi cwestiynau, fel y dywedasoch, Suzy Davies, i'r Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth, ac nid yn unig i godi cwestiynau i'r Gweinidog, ond hefyd i fanteisio ar y cyfle i gyhoeddi llwyddiannau y sector amgueddfeydd yng Nghymry, ac rwyf yn siŵr y bydd hyn yn parhau.

14:20

Jocelyn Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I wonder if you would arrange for a statement on the recent news that puffins are now classified as 'at risk of global extinction'. I'm sure you'd want some protection for the breeding pairs that live on our coast—I'm sure that would be of interest to us all—and we'd like to know exactly what the Welsh Government is doing to protect our colonies.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Weinidog, tybed a fyddch yn trefnu i gael datganiad am y newyddion diweddar bod palod bellach wedi eu dynodi fel bod 'ar drengi yn fyd-eang'. Rwyf yn siŵr y byddech am gael rhywfaint o ddiogelwch i'r parau sy'n bridio ac yn byw ar ein harfordir—rwyf yn siŵr y byddai hynny o ddiddordeb i ni i gyd—a byddem yn hoffi gwybod yn union beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i ddiogelu ein nythfeydd.

14:20

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think that is an important opportunity for the Minister for Natural Resources to make a statement, to give an update on our powers and position in relation to the importance of the protection in terms of that threatened extinction.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Credaf fod hynny yn gyfle pwysig i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol wneud datganiad, er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ein pwerau a'n sefyllfa mewn cyswllt â phwysigrwydd y gwarchod o ran y perygl hwnnw i'r adar ddiflannu.

14:21

David Rees [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I've previously called for a debate from the Welsh Government on the steel industry. We've seen it many times about the issues facing Tata Steel and the steel industry here in Wales, and we've heard, today, the First Minister himself indicating that, in fact, the Minister for Economy, Science and Transport is actually organising a summit to discuss steel here in Wales. I very much welcome and support that approach, but I think it's time we had a debate so that we can actually discuss the issues and how we, in Wales, can help the steel industry. Would it be possible for the Government to do that in Government time, so we can all have an opportunity to raise the issues? Because, the UK Government is clearly failing the steel industry at this point in time. In fact, I understand that Sajid Javid has been to Europe only once since he's been in post, and that was last week. He's done nothing to help steel. Perhaps it's time we did something here in Wales.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Weinidog, rwyf wedi galw o'r blaen am ddadl gan Lywodraeth Cymru ar y diwydiant dur. Rydym ni wedi ei gweld sawl gwaith am y materion sy'n wynebu Tata Steel a'r diwydiant dur yma yng Nghymru, ac fe glywsom ni, heddiw, y Prif Weinidog ei hun yn nodi, mewn gwirionedd, bod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth mewn gwirionedd yn trefnu uwchgynhadledd i drafod dur yma yng Nghymru. Rwyf yn croesawu ac yn cefnogi'r dull hwnnw yn fawr iawn, ond rwyf yn credu ei bod yn bryd i ni gael dadl fel y gallwn drafod y materion mewn gwirionedd a sut y gallwn ni, yng Nghymru, helpu'r diwydiant dur. A fyddai'n bosibl i'r Llywodraeth wneud hynny yn ystod amser y Llywodraeth, er mwyn i bob un ohonom gael y cyfle i godi'r materion? Oherwydd, mae Llywodraeth y DU yn amlwg yn siomi'r diwydiant dur ar hyn o bryd. Yn wir, rwyf ar ddeall mai dim ond unwaith y mae Sajid Javid wedi bod yn Ewrop ers iddo fod yn ei swydd, a'r wythnos diwethaf oedd hynny. Nid yw wedi gwneud unrhyw beth i helpu'r diwydiant dur. Efallai ei bod yn bryd inni wneud rhywbeth yma yng Nghymru.

14:21

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for Aberavon for that question. As the First Minister said earlier on, there will be a summit, which will be chaired—on Thursday, 5 November—by the Minister for Economy, Science and Transport. That will, of course, involve all those in the steel sector in Wales, and she will bring back the outcome of that in a statement to the Assembly.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Diolch i'r Aelod dros Aberafan am y cwestiwn yna. Fel y dywedodd y Prif Weinidog yn gynharach, bydd uwchgynhadledd, a fydd yn cael ei gadeirio—ddydd Iau 5 Tachwedd—gan Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth. Bydd hynny, wrth gwrs, yn cynnwys pawb yn y sector dur yng Nghymru, a bydd hi yn dod â chanlyniad hynny yn ôl mewn datganiad i'r Cynulliad.

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I wonder whether your Government would be prepared to bring forward a statement on adoption services. Whilst, often, the political debate around adoption focuses on the need for more families to come forward and the speed at which adoptions can be carried out, there are a number of families in my constituency who have struggled to obtain post-adoption support for them and their children, and sometimes the families can find themselves in quite an acute crisis with the prospect of the adoption even breaking down in the worst-case scenario, which would be devastating for both the adults and children involved. I'd be grateful if an opportunity could be afforded to test how the new structures around adoption are working in Wales, and whether there can be further improvements.

Secondly, a statement on the latest attempts by Welsh Government to recruit and retain GPs. The difficulties in this area hit home in my own constituency last week with the Dulais valley being unable to recruit and retain replacement GPs for those that are leaving the practice, meaning that the surgery in Coelbren—a branch surgery—has had to see a significant cut in the appointments that are available. Coelbren is a vibrant community, but it is certainly a community that is not blessed with good transport links to other places and local people depend on that surgery. An update on the latest attempts to recruit and retain GPs would be very welcome for the people in Coelbren to hear about the prospects of being able to retain their services.

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Kirsty Williams for those questions. Certainly, on the importance of adoption services and, indeed, as you say, post-adoption, I know the Minister will want to update Members. He has questions tomorrow, but I know he'll want to update Members on the importance and the way in which we have pioneered, of course, the services in Wales in terms of adoption.

Also, your second point in terms of the recruitment of GPs, of course, there are more doctors, nurses, midwives, paramedics and dental staff working in the Welsh NHS today than there were 10 years ago. Clearly, there are areas where, indeed, we have to focus on the recruitment campaign, particularly in relation to GPs. Between 2013 and 2014, new GPs joined the profession in Wales—137, in fact, joined the profession and that's 6.8 per cent of the 2014 workforce—but, clearly, this is a focus in terms of those difficult areas where, in fact, also, there might be new solutions in terms of the primary healthcare workforce.

Weinidog, tybed a fyddai eich Llywodraeth yn fodlon cyflwyno datganiad am wasanaethau mabwysiadu. Er bod y ddadl wleidyddol ynghylch mabwysiadu yn aml yn canolbwytio ar yr angen i fwy o deuluoedd dddod ymlaen a pha mor gyflym y gellir mabwysiadu, mae nifer o deuluoedd yn fy etholaeth i sydd wedi cael trafferthion wrth geisio cael cymorth ôl-fabwysiadu iddynt hwy a'u plant, ac weithiau mae'r teuluoedd yn canfod eu hunain mewn trafferth enbyd gyda'r posibilrwydd hyd yn oed bod y mabwysiadu yn methu'n llwyr yn y sefyllfa waethaf, a fyddai'n drychinezus i'r oedolion a'r plant dan sylw. Byddwn yn ddiolchgar pe byddai modd inni brofi sut y mae'r strwythurau newydd mewn cyswllt â mabwysiadu yn gweithio yng Nghymru, a pha un a ellir cael gwelliant pellach.

Yn ail, datganiad ar ymdrechion diweddaraf Llywodraeth Cymru i recriwtio a chadw meddygon teulu. Gwelwyd yr anawsterau yn y maes hwn yn fy etholaeth i yr wythnos diwethaf pan fethodd cwm Dulais â recriwtio a chadw meddygon teulu newydd yn lle'r rhai sy'n gadael y practis, sy'n golygu bod y feddygfa yn Coelbren—meddygfa gangen—wedi gorfol cael toriad sylweddol yn nifer yr apwyntiadau sydd ar gael. Mae Coelbren yn gymuned fywiog, ond mae'n sicr nad yw'n gymuned sydd wedi ei bendithio â chysylltiadau trafnidiaeth da i leoedd eraill ac mae pobl leol yn dibynnu ar y feddygfa honno. Byddai diweddarriad ar yr ymdrechion diweddaraf i recriwtio a chadw meddygon teulu yn cael ei groesawu'n fawr iawn er mwyn i drigolion Coelbren glywed am y rhagolygon o ran cael cadw eu gwasanaethau.

Diolch i Kirsty Williams am y cwestiynau yna. Yn sicr, o ran pwysigrwydd gwasanaethau mabwysiadu ac, yn wir, fel y dywedwch, ôl-fabwysiadu, gwn y bydd y Gweinidog yn awyddus i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau. Mae ganddo gwestiynau yfory, ond rwyf yn gwybod y bydd yn awyddus i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ynglŷn â phwysigrwydd, a'r ffordd yr ydym ni wedi arloesi, wrth gwrs, o ran y gwasanaethau mabwysiadu yng Nghymru.

Hefyd, eich ail bwynt o ran recriwtio meddygon teulu, wrth gwrs, mae mwy o feddygon, nyrssys, bydwragedd, parafeddygon a staff deintyddol yn gweithio yn y GIG yng Nghymru heddiw nag yr oedd 10 mlynedd yn ôl. Mae'r rhain, yn amlwg, yn feisydd lle, yn wir, mae'n rhaid i ni ganolbwytio ar yr ymgrych recriwtio, yn enwedig o ran meddygon teulu. Rhwng 2013 a 2014, ymunodd meddygon teulu newydd â'r proffesiwn yng Nghymru—ymunodd 137, mewn gwirionedd, â'r proffesiwn, ac mae hynny'n 6.8 y cant o'r gweithlu yn 2014—ond, yn amlwg, mae hwn yn bwyslais o ran y meysydd anodd hynny lle, mewn gwirionedd, hefyd, efallai bod atebion newydd o ran y gweithlu gofal iechyd sylfaenol.

Mark Isherwood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'm going to call for two statements. The first one is on post-polio syndrome. On Post-polio Syndrome Day, 22 October, I hosted an event here for the British Polio Fellowship to raise awareness of post-polio syndrome. Of the estimated 120,000 people who had polio across Britain, some 12,000 are believed to live in Wales and there are many more who never knew they had it. Wales was chosen specifically this year to host the UK event in the hope that it will spread news throughout Wales and reach members and non-members alike to help people who have post-polio syndrome who feel isolated and alone. Clearly, the Welsh Government can play an important part in reaching out to those people and raising public awareness.

Rwyf am alw am ddu ddatganiad. Mae'r un cyntaf yn ymwned â syndrom ôl-polio. Ar Ddiwrnod Syndrom ôl-polio, 22 Hydref, cynhaliai ddigwyddiad yma ar gyfer Cymrodoriaeth Bolio Prydain i godi ymwybyddiaeth o syndrom ôl-polio. O'r 120,000 o bobl amcangyfrifedig sydd wedi cael polio ledled Prydain, credir bod rhw 12,000 yn byw yng Nghymru ac mae llawer mwy nad oeddent erioed yn gwybod eu bod yn dioddef polio. Dewiswyd Cymru yn benodol eleni i gynnal digwyddiad y DU gan obeithio y bydd hynny'n lledaenu'r gair ledled Cymru a chyrraedd aelodau a rhai nad ydynt yn aelodau fel ei gilydd i helpu pobl sydd â syndrom ôl-polio sy'n teimlo'n ynsig ac yn unig. Yn amlwg, gall Llywodraeth Cymru chwarae rhan bwysig drwy estyn allan at y bobl hynny a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd.

Secondly and finally, could I call for a statement on roadworks at the Penmaenbach and Conwy tunnels on the A55 in north Wales? As you may have heard, the mayor of Penmaenmawr has called a summit meeting of mayors affected by what he describes as the 'traffic mayhem' caused.

'This situation is now getting intolerable...with long tailbacks in both directions and heavy traffic using small roads like the Sychnant Pass, which were never designed for such volumes.'

And on he goes. He said:

'The worst aspect of the whole business is the total lack of communication between the Welsh Government's agents and officers with local communities. Last week I spoke to Government officers who promised to get back to me—they never did.'

I call for a statement accordingly.

Yn ail ac yn olaf, a gaf i alw am ddatganiad am y gwaith ffordd yn nhwneli Penmaenbach a Chonwy ar yr A55 yn y gogledd? Fel efallai eich bod wedi clywed, mae maer Penmaenmawr wedi galw am gyfarfod uwchgyňhadledd o'r meiri yr effeithir arnynt gan yr hyn y mae'n ei ddisgrifio fel y 'anhreñf traffig a achoswyd.

Mae'r sefyllfa hon yn mynd yn annioddefol erbyn hyn ... gyda thagfeydd hir i'r ddua gyfeiriad a thraffig trwm ar ffyrdd bach fel Bwlch Sychnant, na chawsant erioed eu cynllunio ar gyfer niferoedd o'r fath.

Ac mae'n mynd ymlaen. Meddai:

Yr agwedd waethaf ar yr holl fusnes yw'r diffyg cyfathrebu llwyr rhwng asiantau a swyddogion Llywodraeth Cymru â chymunedau lleol. Yr wythnos diwethaf siaradais â swyddogion y Llywodraeth a addawodd y byddent yn dod yn ôl ataf—ni wnaethant o gwbl.

Galwaf am ddatganiad yn unol â hynny.

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, on your first question, Mark Isherwood, I do thank the Member for drawing attention to post-polio syndrome. Obviously, the health Minister will and has acknowledged that, and the importance of the fact that you did host that event and draw attention to this.

On your second point in terms of the A55 Penmaenmawr tunnel disruption, of course it's clear that the A55 wasn't designed for the future traffic levels that we see when it was built. Now we are investing—and I know you don't dispute the significant amounts of money that we are investing in the A55, and that is to improve safety, journey times and resilience—of course that inevitably causes some disruption, which we do attempt to minimise as much as possible, remembering that workers are on site 24 hours a day, seven days a week to ensure it can be completed as quickly as possible.

Wel, ynglŷn â'ch cwestiwn cyntaf, Mark Isherwood, rwyf yn diolch i'r Aelod am dynnu sylw at syndrom ôl-polio. Yn amlwg, bydd y Gweinidog lechyd yn, ac mae wedi cydnabod hynny, a phwysigrwydd y ffaith eich bod chi wedi cynnal y digwyddiad hwnnw a thynnu sylw at hyn.

O ran eich ail bwynt yn ymwned â'r tarfu yn y twnnel ar yr A55 ym Mhenmaenmawr, wrth gwrs mae'n amlwg nas cynlluniwyd yr A55, pan gafodd ei hadeiladu, ar gyfer lefelau traffig y dyfodol yr ydym ni'n eu gweld. Rydym ni nawr yn buddsoddi—ac rwyf yn gwybod nad ydych yn gwadur'r symiau sylweddol o arian yr ydym yn eu buddsoddi yn yr A55, ac mae hynny er mwyn gwella diogelwch, amser teithio a chydnerthedd—mae'n anochel wrth gwrs y bydd hynny'n achosi peth tarfu, ac rydym yn ceisio lleihau hynny cymaint ag sy'n bosib, gan gofio bod gweithwyr ar y safle 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos i sicrhau y gellir cwblhau'r gwaith cyn gynted â phosibl.

Alun Ffred Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

A gaf i ategu sylwadau Mark Isherwood? Mae pawb—

May I endorse Mark Isherwood's comments? Everyone—

14:27

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:27

Alun Ffred Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

A gaf i ategu sylwadau Mark Isherwood a gofyn am ddatganiad ar sefyllfa'r A55? Mae pawb yn deall bod unrhyw waith cynnal a chadw yn mynd i greu anawsterau, ond mae pwysigrwydd y ffordd yma o ran teithio i waith—. Mae gennych eich swyddfeydd eich hunain yn Llandudno ac rydych wedi gorfodi llawer iawn o weithwyr i fynd yno, ond mae'r trefniadau presennol yn golygu bod y diwrnod gwaith yn mynd yn un rhyfeddol o hir, ac felly mi fyddai cael gwell dealtwriaeth o beth ydy'r amserlen ac a oes modd strwythuro'r gwaith yn well er mwyn hwyluso'r daith i bobl sy'n teithio i'r gwaith, yn cael ei werthfawrogi'n fawr iawn.

Yr ail fater buaswn i'n hoffi datganiad arno gan y Llywodraeth ydy'r 'discretionary assistance fund'. Oherwydd y cytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a chwmniau fel Argos, mae cymdeithasau tai lleol yn methu cyfeirio cleientiaid at nwyddau safonol sydd ar werth gan grwpiau cymunedol—dodrefn wedi eu hailgylchu, er enghraifft—lle byddai'r arian yn cylchdroi yn y gymuned leol. Mae'n holol groes i strategaeth y Llywodraeth ar ailgylchu, wrth gwrs, ac y mae'n enghraifft o'r Llywodraeth yn dweud un peth ac yn gwneud peth holol wahanol. Felly, buasai datganiad ar y gronfa arbennig yma yn dderbynol iawn.

14:29

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

As I've said, in terms of the disruption on the A55, of course, when the work is completed, it will ensure that the efficiency and effectiveness of that investment will, of course, bear fruit in terms of journey times. As I've said, we are seeking to minimise the disruption in terms of those. If there is anything to update, of course, I will seek to do so.

On your second question on the discretionary assistance fund, I think it would be helpful if you wrote to the Minister to identify any particular problem in terms of the implementation of that. Of course, we are supporting the discretionary assistance fund, which was devolved to us, to ensure that we can use that fund to mitigate against poverty.

Thank you.

May I endorse Mark Isherwood's comments and ask for a statement on the situation on the A55? Everyone understands that any maintenance work is going to create difficulties, but the importance of this route in terms of travel to work—. You have your own offices in Llandudno and you forced many workers to go there, but the current arrangements mean that the working day is exceptionally long for many people, and therefore having a better understanding of the timetable for this work and whether the work can be structured more effectively in order to enable those people to travel to work easier, would be much appreciated.

The second issue I'd like a statement on from Government is the discretionary assistance fund. Because of the agreement between the Welsh Government and companies such as Argos, local housing associations can't refer clients to standard goods on sale from community groups—recycled furniture, for example—where the money would circulate in the local economy. This is quite contrary to the Government's strategy on recycling, of course, and it's an example of the Government saying one thing and doing something entirely different. Therefore, a statement on that particular fund would be most beneficial.

Fel y dywedais, o ran y tarfu ar yr A55, wrth gwrs, pan fydd y gwaith wedi'i gwblhau, bydd yn sicrhau bod effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y buddsoddiad hwnnw, wrth gwrs, yn dwyn ffrwyth o ran amseroedd teithio. Fel yr wyf wedi ei ddweud, rydym ni yn ceisio lleihau'r tarfu o ran y rheini. Os oes unrhyw beth i'w ddiweddu, wrth gwrs, byddaf yn ceisio gwneud hynny.

O ran eich ail gwestiwn ar y gronfa cymorth dewisol, rwyf yn credu y byddai'n ddefnyddiol pe byddech chi'n ysgrifennu at y Gweinidog i nodi unrhyw broblem benodol o ran gweithredu honno. Wrth gwrs, rydym ni'n cefnogi'r gronfa cymorth dewisol, a gafodd ei datganoli i ni, er mwyn sicrhau y gallwn ddefnyddio'r gronfa honno i liniaru yn erbyn tlodi.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:30

Eluned Parrott [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I very much welcome the statement earlier by the Minister for health on mental health waiting times and the clarification from the First Minister that that will include access to talking therapies. However, for many years, there has been a significant shortage of trained counselling professionals within the Welsh health service, and I don't necessarily understand how this is likely to be met. I wonder if we could request from the Minister for health a written statement, perhaps, identifying how we're going to find access to those counselling professionals and what additional training is being provided by the Welsh Government to train people, particularly with child mental health specialisms, to be able to offer talking therapies to children, as well as adults.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:30

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

It is very welcome, the support for the statement, the significant statement, made by the Minister for Health and Social Services today in terms of investment and speeding up waiting times for access to mental health services, and, of course, that will include access to counselling and talking therapies, the counselling services, as well. And, indeed, in terms of the responses that were made this afternoon by the First Minister, in particular to our investment and support for child and adolescent mental health services, that clearly, of course, includes that access to counselling services.

14:31

Llyr Gruffydd [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

A gaf ofyn i chi, Weinidog, i sicrhau amser ar gyfer datganiad gan y Gweinidog addysg ynglŷn â dyfodol yr iaith Gymraeg a chategoreiddio ieithyddol ysgolion? Rwyf wedi cael llawer o ohebiaeth gan rieni a llywodraethwyr yn siroedd Wrecsam, sir y Fflint a sir Ddinbych, ac mi ddyln i ddatgan budd fel rhiant a llywodraethwr ysgol sy'n cael ei heffeithio gan benderfyniad diweddar o safbwyt categori ieithyddol yr ysgol honno. Mae yna deimlad bod yna ddryswch ar lefel genedlaethol. Nid oes arweiniad clir yn dod oddi wrth y Llywodraeth, gyda rhai awdurdodau addysg yn gweld darpariaeth categori 2 yn addas i gwrdd ag anghenion, mewn gwirionedd, ysgolion categori 1, tra bod siroedd eraill yn gweithio'n rhagweithiol i annog ysgolion categori 2 i ddod yn ysgolion categori 1. Felly, mae yna ddryswch, mae yna ddiffyg arweiniad, ac mi fyddai datganiad clir gan y Gweinidog ynglŷn â bwriad a strategaeth y Llywodraeth yn y maes yma yn help mawr, rwy'n meddwl, i fynd i'r afael â'r consýrn sydd yna ar lawr gwlad.

14:32

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

There is no lack of leadership. Of course, the Minister for Education and Skills has his oral questions tomorrow and I'm sure, if you wish to raise questions with him to clarify the position—. But he has made it quite clear, in terms of his leadership, and in terms of understanding and ensuring that those linguistic categories are abided by, and accepted and understood.

Weinidog, rwyf yn croesawu'n fawr y datganiad yn gynharach gan y Gweinidog iechyd am yr amseroedd aros iechyd meddwl a'r eglurhad gan y Prif Weinidog y bydd hynny'n cynnwys gallu cael therapiâu siarad. Fodd bynnag, ers blynnyddoedd lawer, bu prinder sylweddol o weithwyr cwnsela hyfforddedig profesiynol yn y gwasanaeth iechyd yng Nghymru, ac nid wyt o reidrwydd yn deall sut y mae hyn yn debygol o gael ei fodloni. Tybed a gawn ni ofyn i'r Gweinidog iechyd am ddatganiad ysgrifenedig, o bosibl, sy'n nodi sut yr ydym yn mynd i gael gafaol ar y gweithwyr cwnsela profesiynol hynny a pha hyfforddiant ychwanegol fydd yn cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru i hyfforddi pobl, yn enwedig ar gyfer arbenigeddau iechyd meddwl plant, i allu cynnig therapiâu siarad i blant, yn ogystal ag i oedolion.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Mae i'w groesawu'n fawr iawn, y gefnogaeth i'r datganiad, y datganiad o bwys, a wnaed gan y Gweinidog iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol o ran buddsoddiad a chyflymu'r amseroedd aros ar gyfer mynediad at wasanaethau iechyd meddwl, ac, wrth gwrs, bydd hynny yn cynnwys mynediad at cwnsela a therapiâu siarad, a'r gwasanaethau cwnsela, hefyd. Ac, yn wir, o ran yr ymatebion a wnaed y prynhawn yma gan y Prif Weinidog, yn enwedig i'n buddsoddiad a'n cefnogaeth i wasanaethau iechyd meddwl i blant a phobl ifanc, sydd yn amlwg, wrth gwrs, yn cynnwys mynediad at wasanaethau cwnsela.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

May I ask you, Minister, to secure time for a statement from the education Minister on the future of the Welsh language and the linguistic categorisation of schools? I've received much correspondence from parents and governors in the counties of Wrexham, Flintshire and Denbighshire, and I should declare an interest as a school governor and parent affected by a recent decision in terms of the linguistic category of that particular school. There is a feeling that there is confusion at a national level. There's no clear guidance coming from Government, with some education authorities seeing category 2 provision as being appropriate to meet the needs of category 1 schools, if truth be told, while other counties work proactively to encourage category 2 schools to become category 1 schools. Therefore, there is some confusion, there's a lack of leadership, and a clear statement from the Minister on the Government's intentions and strategies in this area would be of great assistance, I think, in tackling the concern that exists on the ground.

Nid oes diffyg arweinyddiaeth. Wrth gwrs, mae gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau ei gwestiynau llafar yfory ac rwyf yn siŵr, os ydych am godi cwestiynau gydag ef i egluro'r sefyllfa—. Ond mae wedi ei wneud yn eithaf clir, o ran ei arweinyddiaeth, ac o ran deall a sicrhau bod y categoriâu ieithyddol hynny yn cael eu dilyn, eu derbyn a'u deall.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:33

Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Weinidog, a gaf i ofyn am ddatganiad yn amser y Llywodraeth gan y Gweinidog trafnidiaeth yngylch y gwasanaeth awyr rhwng y goledd a'r de, ar ôl cyhoeddiad yr wythnos diwethaf bod dystysgrif diogelwch wedi cael ei thynny yn ôl? Rydych yn ymwybodol o ymchwiliad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, a oedd yn dweud bod gennym ni bryderon yngylch y sefyllfa gytundebol rhwng y Llywodraeth a'r asiantaeth docynnau, sef yn union yr un sefyllfa a fydd yn bodoli rhwng y Llywodraeth a Links Air o hyn ymlaen. Felly, a gaf i ofyn am ddatganiad yngylch am faint bydd y sefyllfa yma rhwng Links Air a'r Llywodraeth yn bodoli, yn dilyn y cyhoeddiad yr wythnos diwethaf?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, may I ask for a statement in the Government's time from the Minister for transport regarding the air service between north and south Wales, following last week's announcement that the safety certificate had been withdrawn from that service? You'll be aware of the investigation by the Public Accounts Committee that stated that we have concerns about the contractual situation between the Government and the ticketing agency, which is exactly the same situation that will exist between the Government and Links Air going forward. So, may I ask for a statement on how long this situation between Links Air and the Government will exist, following last week's announcement?

14:33

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Clearly, the importance is that there is an air link, and that air link is being provided. And, clearly, that is important in terms of the service that we are supporting and that is, of course—. In terms of the outcome of the Links Air position, that will be clarified in due course.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Yn amlwg, mae'n bwysig cael cyswllt awyr, ac mae'r cyswllt awyr hwnnw yn cael ei ddarparu. Ac, yn amlwg, mae hynnyn'w bwysig o ran y gwasanaeth yr ydym yn ei gefnogi ac mae hynnyn, wrth gwrs—. O ran canlyniad y sefyllfa Links Air, bydd hynnyn'w cael ei egluro maes o law.

14:34

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Diolch yn fawr, Weinidog.

14:34

Cynnig i Atal Dros Dro Reol Sefydlog 11.16 er mwyn Caniatáu Cynnal Dadl ar yr Eitem Nesaf o Fusnes

There's now a motion to suspend Standing Order 11.16 to allow the next item of business to be debated and I call the First Minister to move the motion.

Cynnig NNDM5860 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 33.6:

Yn atal rhan honno o Reol Sefydlog 11.16 sy'n ei gwneud yn ofynnol bod y datganiad a'r cyhoeddiad wythnosol o dan Reol Sefydlog 11.11 yn darparu'r amserlen ar gyfer busnes yn y Cyfarfod Llawn yr wythnos ganlynol, er mwyn caniatáu i NNDM5861 gael ei ystyried yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth 3 Tachwedd 2015.

Cynigiwyd y cynnig.

Motion to Suspend Standing Order 11.16 to Allow the Next Item of Business to be Debated

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mae gennym nawr gynnig i atal Rheol Sefydlog 11.16 i ganiatáu dadl ar yr eitem nesaf o fusnes a galwaf ar y Prif Weinidog i gynnig y cynnig.

Motion NNDM5860 Jane Hutt

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 33.6:

Suspends that part of Standing Order 11.16 that requires the weekly statement and announcement under Standing Order 11.11 to constitute the timetable for business in Plenary for the following week, to allow NNDM5861 to be considered in Plenary on Tuesday 3 November 2015.

Motion moved.

14:34

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Move.

Cynnig.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:34

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have no speakers. Therefore, the proposal is to suspend Standing Orders. Does any Member object? The motion is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Nid oes gennyl unrhyw siaradwyr. Felly, y cynnig yw atal Rheolaus Sefydlog. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynaebu? Mae'r cynnig wedi ei derbyn felly yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:34

3. Dadl ar Fil Cymru Drafft

Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Item 3, then, is the debate on the draft Wales Bill, and I call the First Minister to move the motion.

Cynnig NNDM5861 Jane Hutt

Cefnogwyd gan Elin Jones, Aled Roberts.

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi cyhoeddi Bil Cymru drafft gan Lywodraeth y DU ar 20 Hydref 2015 ac yn anfodlon nad yw'r model cadw pwerau presennol yn bodloni argymhellion Rhan 2 Comisiwn Silk.

Cynigiwyd y cynnig.

3. The Draft Wales Bill

 [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Eitem 3, felly, yw'r ddadl ar Fil Cymru drafft, a galwaf ar y Prif Weinidog i gynnig y cynnig.

Motion NNDM5861 Jane Hutt

Supported by Elin Jones, Aled Roberts.

To propose the National Assembly of Wales:

Notes the publication of the draft Wales Bill by the UK Government on 20 October 2015 and regrets that the current model for reserved powers falls short of the recommendations of the Silk Commission Part 2.

Motion moved.

14:34

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Thank you, Dirprwy Lywydd, and I rise to propose this motion on what is the most important debate that we've had in Wales for some time. There are some who'll say that this is constitutional wonkery, it's of no relevance to ordinary people. But the reality is that what is being proposed in the Wales Bill goes straight to the heart of what this Assembly, as elected by the people of Wales, can do in the years to come.

Could I start by saying that I had a meeting with the Secretary of State yesterday? It was a constructive meeting. We talked at length about some of the difficulties involved. I have to say that he was more appraised of the difficulties and understood them more clearly, and now I look forward to seeing the difficulties that we've both identified being dealt with through the Bill process.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd, ac rwy'n codi i gynnig y cynnig hwn ar yr hyn yw'r ddadl bwysicaf yr ydym wedi'i chael yng Nghymru ers peth amser. Bydd rhai yn dweud mai lol cyfansoddiadol yw hyn, ac nad yw'n berthnasol i bobl gyffredin. Ond y gwir amdani yw bod yr hyn sy'n cael ei gynnig ym Mil Cymru yn mynd yn union at wraidd yr hyn y gall y Cynulliad hwn, fel y'i hetholwyd gan bobl Cymru, ei wneud yn y blynnyddoedd i ddod.

A gaf i ddechrau drwy ddweud fy mod wedi cael cyfarfod gyda'r Ysgrifennydd Gwladol ddoe? Roedd yn gyfarfod adeiladol. Buom yn siarad yn faith am rai o'r anawsterau sy'n gysylltiedig â'r Bil. Mae'n rhaid i mi ddweud ei fod yn gwybod mwy am yr anawsterau ac yn eu deall yn gliriach, ac yn awr rwy'n edrych ymlaen at weld yr anawsterau y mae'r ddau ohonom wedi'u nodi yn cael eu trin drwy broses y Bil.

At the heart of the difficulty with the Bill as it stands is the failure to create a separate jurisdiction. That leads to incredible complexity in the way in which the Bill is drafted. It leads to incredible restrictions in the latter part of the Bill, and it's not needed. As the Lord Chief Justice said last week, it's perfectly possible to create a separate jurisdiction without the need for a separate court and justice system—without the cost of it as well. It stands to reason, then, that it's perfectly possible for us to have a separate Welsh jurisdiction, but not have to construct the structure around it, in terms of administering justice. It has no cost, in effect, if it's done that way. It would make it far easier to draft the Wales Bill if that separate jurisdiction were established—as it is in Scotland and Northern Ireland, as it is in many other parts of the world, without any great difficulty. And so the first point I'd make is that, if it was simply a question of making sure that jurisdiction was established, the Wales Bill would be far easier to draft and the anomalies far easier to deal with.

There are three particular issues that I've raised before that trouble not just me, but civil society in Wales, about the Bill. First of all, of course, there is the issue of what is and what isn't devolved—the individual powers. There are some anomalies there: for example, the suggestion that, when it comes to ports, ports are devolved according to what their turnover is. We call that the Milford Haven treaty port objection, at that point. That is a disincentive for Welsh Government: in other words, the Welsh Government improves ports, sees their turnovers increase, then Welsh Government loses control over those ports. That makes no sense.

The community infrastructure levy is not devolved. It's a planning levy; why not devolve it? When it comes to opencast mining, the licensing of opencast mining remains at Whitehall, but land restoration sits with the Welsh Government. Well, thanks for that. That means that the mess is left for Welsh Government, and the licensing is kept in Whitehall. And there are other examples of individual issues regarding individual powers.

But the first substantive issue is on the issue of Minister of the Crown consents. Now, Minister of the Crown consents are a relic. They were never intended to be extended in the future; they only exist as a relic of what existed before 1999. As Members will be aware, we do have the power to modify Minister of the Crown powers where they are consequential and incidental to our legislation. That will be removed. It means, for example, that, with the Local Government Byelaws (Wales) Bill, the then Secretary of State refused his consent; it then ended up in the Supreme Court. That avenue will be closed off to this Assembly. If the consent was refused, that would be it. There would be no recourse to the Supreme Court, and we would not have had the local government byelaws Bill. Yes, we can look to judicially review each and every decision taken by a Minister, and that's something we would do in the future, if that was needed. But I hope that it doesn't come to that.

Y methiant i greu awdurdodaeth ar wahân sydd wrth wraidd yr anhawster â'r Bil fel y mae. Mae hynny'n arwain at gymhlethod anhygoel yn y ffordd y caiff y Bil ei ddrafftio. Mae'n arwain at gyfyngiadau anhygoel yn rhan olaf y Bil, ac nid yw'n angen rheidiol. Fel y dywedodd yr Arglwydd Brif Ustus yr wythnos diwethaf, mae'n hollo bosibl creu awdurdodaeth ar wahân heb yr angen am lys a system gyflawnder ar wahân—heb gost hynny hefyd. Felly, mae'n sefyl i reswm ei bod yn gwbl bosibl i ni gael awdurdodaeth ar wahân, ond peidio gorfol adeiladu'r strwythur o'i hamgylch, o ran gweinyddu cyflawnder. Nid oes unrhyw gost, i bob pwrpas, os caiff ei gwneud y ffordd honno. Byddai'n ei gwneud yn llawer haws i ddrafftio'r Bil Cymru pe byddai'r awdurdodaeth ar wahân honno'n cael ei sefydlu—fel y mae yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, fel y mae mewn rhannau eraill o'r byd, heb unrhyw anhawster mawr. Ac felly y pwyt yntaf y byddwn i'n ei wneud yw, os oedd yn symwl yn gwestiwn o wneud yn siŵr bod awdurdodaeth yn cael ei sefydlu, y byddai Bil Cymru yn llawer haws i'w ddrafftio a'r anghysonderau yn llawer haws ymddrin â nhw.

Mae tri mater penodol yr wyf eisoes wedi eu codi am y Bil sy'n poeni nid fi yn unig, ond y gymdeithas sifil yng Nghymru. Yn gyntaf oll, wrth gwrs, mae mater yr hyn sydd wedi'i ddatganoli a'r hyn nad yw wedi'i ddatganoli—y pwerau unigol. Mae rhai anomaleddau yno: er enghraift, yr awgrym yw, o ran porthladdoedd, bod porthladdoedd wedi'u datganoli yn unol â'r hyn yw eu trosiant. Rydym yn galw hwnnw'n wrthwynebiad porthladd cytundeb Aberdaugleddau, ar y pwyt hwnnw. Mae hynny'n ddatgymhelliaid i Llywodraeth Cymru: mewn geiriau eraill, mae Llywodraeth Cymru yn gwella porthladdoedd, yn gweld eu trosiant yn cynyddu, yna mae Llywodraeth Cymru yn colli rheolaeth dros y porthladdoedd hynny. Nid yw hynny'n gwneud unrhyw synnwyr.

Nid yw'r ardoll seilwaith cymunedol wedi'i datganoli. Mae'n ardoll gynllunio; pam ddim ei datganoli? Pan ddaw'n fater o gloddio glo brig, mae trwyddeddu cloddio glo brig yn parhau i fod yn Whitehall, ond Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am adfer tir. Wel, diolch am hynny. Mae hynny'n golygu bod y llanast yn cael ei adael i Llywodraeth Cymru, a thrwyddeddu yn cael ei gadw yn Whitehall. A cheir enghreifftiau eraill o faterion unigol ynghylch pwerau unigol.

Ond mae'r mater sylweddol cyntaf yn ymwneud â'r mater o gydsyniadau Gweinidogion y Goron. Nawr, mae cydsyniadau Gweinidogion y Goron yn greiriau. Ni chawsant eu bwriadu i gael eu hymestyn yn y dyfodol; maent ond yn bodoli fel crair o'r hyn oedd yn bodoli cyn 1999. Fel y gŵyr yr Aelodau, mae gennym y pŵer i addasu pwerau Gweinidogion y Goron lle maent yn ganlyniadol ac yn atodol i'n deddfwriaeth. Bydd hynny'n cael ei ddileu. Mae'n golygu, er enghraift, yn achos y Bil Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru), gwrthododd yr Ysgrifennydd Gwladol ar y pryd roi ei gydsyniad; yna diweddodd yn y Goruchaf Lys. Ni fydd y llwybr hwnnw ar agor i'r Cynulliad hwn. Os byddai'r cydsyniad yn cael ei wrthod, dyna ni. Ni fyddai unrhyw droi at y Goruchaf Lys, ac ni fyddem wedi cael y Bil is-ddeddfau llywodraeth leol. Gallwn, gallwn ystyried adolygu'n farnwrol bob penderfyniad a wneir gan Weinidog, ac mae hynny'n rhywbeth y byddem yn ei wneud yn y dyfodol, os byddai angen. Ond rwy'n gobeithio na ddaw i hynny.

There are three issues with regard to Minister of the Crown consents. Firstly, we will be prevented from modifying any function of a reserved authority. Well, maybe there's an argument about that, but the two other areas are troubling. The Assembly would not be able to modify any UK Minister or UK Government department function, even if it's within the Assembly's devolved competence. So, where there is a relic of the past that says you need Minister of the Crown consent, like the local government byelaws Bill, this Assembly would not be able to legislate because that Minister of the Crown consent would be needed. So, even an area where something is completely devolved, where there is that relic of the past, we would not be able to legislate. That can't possibly be right. Why on earth would that remain in there?

And, of course, it's possible for Minister of the Crown consents to be extended, effectively preventing this Assembly legislating on anything, potentially, freely, because Minister of the Crown consent would be needed for some, or all, of the particular Bill.

But it's also the case that seeking Minister of the Crown consents now takes an enormous amount of time. If we look at the Social Services and Well-being (Wales) Bill, we had to get consent from seven different Whitehall departments. We started discussions in February 2012; some consents still hadn't been received 16 months later. The delay meant we had to amend the Bill to ensure it was within competence, and introduction in January 2013. On the Environment (Wales) Bill, we first approached the Wales Office in November 2014. The Wales Office responded in March 2015 requesting further information, we provided that on 9 April, and we've had no response to that. Consents have still not yet been given.

On the Public Health (Wales) Bill, there's been extensive correspondence at official level on competence and consent issues. The Wales Office raised issues with us regarding that Bill and those issues were dealt with, but we still await a final decision as to whether consents will be made available. So, Whitehall works at a snail's pace. It takes months and months and months to get Minister of the Crown consents, and yet we have a proposal here that would mean those consents would not just remain but would be extended and would be extended in areas that this Assembly has within its competence. There is a need, then, to think again, very much so, when it comes to Minister of the Crown consents.

[Link to further information provided by the First Minister.](#)

Mae tri mater mewn perthynas â chydsyniadau Gweinidogion y Goron. Yn gyntaf, byddwn yn cael ein hatal rhag addasu unrhyw un o swyddogaethau awdurdod neilltuedig. Wel, effallai bod dadl yngylch hynny, ond mae'r dda faes arall yn peri pryder. Ni fyddai'r Cynulliad yn gallu addasu unrhyw swyddogaeth adran Gweinidog y DU neu Lywodraeth y DU, hyd yn oed os yw o fewn cymhwysedd datganoledig y Cynulliad. Felly, lle mae crair o'r gorffennol sy'n dweud bod angen cydsyniad Gweinidogion y Goron arnoch, megis y Bil is-ddeddfau llywodraeth leol, ni fyddai'r Cynulliad hwn yn gallu deddfu oherwydd byddai angen y cydsyniad Gweinidogion y Goron hwnnw. Felly, hyd yn oed mewn maes lle mae rhywbeth wedi cael ei ddatganoli yn gyfan gwbl, lle ceir y crair hwnnw o'r gorffennol, ni fyddem yn gallu deddfu. Ni all hynny fod yn iawn. Pam ar y ddaear y byddai hynny'n aros i mewn yno?

Ac, wrth gwrs, mae'n bosibl i gydsyniadau Gweinidogion y Goron gael eu hymestyn, gan atal y Cynulliad hwn i bob pwrrpas rhag deddfu ar unrhyw beth yn rhydd, o bosibl, oherwydd byddai angen cydsyniad Gweinidogion y Goron ar gyfer rhywfaint, neu'r cyfan, o'r Bil penodol.

Ond mae hefyd yn wir bod ceisio cydsyniadau Gweinidogion y Goron bellach yn cymryd llawer iawn o amser. Os edrychwn ar y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), roedd yn rhaid i ni gael cydsyniad gan saith o adrannau gwahanol yn Whitehall. Dechrewyd trafodaethau ym mis Chwefror 2012; roedd rhai cydsyniadau yn dal heb ddod i law 16 mis yn ddiweddarach. Roedd yr oedi yn golygu bod yn rhaid i ni newid y Bil er mwyn sicrhau ei fod o fewn cymhwysedd, a chyflwyno ym mis Ionawr 2013. O ran Bil yr Amgylchedd (Cymru), aethom yn gyntaf at Swyddfa Cymru ym mis Tachwedd 2014. Ymatebodd Swyddfa Cymru ym mis Mawrth 2015 yn gofyn am ragor o wybodaeth, darparwyd hynny gennym ar 9 Ebrill, ac rydym yn dal i aros am ymateb. Mae cydsyniadau yn dal heb gael eu rhoi.

O ran y Bil Iechyd Cyhoeddus (Cymru), bu gohebiaeth helaeth ar lefel swyddogol ar faterion cymhwysedd a chydsyniad. Cododd Swyddfa Cymru faterion gyda ni am y Bil ac ymdriniwyd â'r materion hynny, ond rydym yn dal i ddisgwyl penderfyniad terfynol yngylch a fydd cydsyniadau ar gael. Felly, mae Whitehall yn llusgo'i draed. Mae'n cymryd misoedd ar fisoeedd ar fisoeedd i gael cydsyniadau Gweinidog y Goron, ac eto mae gennym gynnig yma fyddai'n golygu bod y cydsyniadau hynny nid yn unig yn aros ond yn cael eu hymestyn ac yn cael eu hymestyn mewn meysydd sydd gan y Cynulliad hwn o fewn ei gymhwysedd. Mae angen meddwl eto, felly, yn enwedig pan ddaw at gydsyniadau Gweinidog y Goron.

[Linc i wybodaeth ychwanegol a ddarparwyd gan y Prif Weinidog](#)

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Then there's the issue of the necessity test. Wholly unexplained. It's an incredibly high bar that the Assembly would have to jump over if the Assembly wanted to modify the criminal or private law when it's legislating on devolved matters. In other words, it's all very well for us to pass a law, but we wouldn't be able to enforce it. So, we could introduce stamp duty, but, potentially, stamp duty could be optional in terms of paying it. I mean, it's senseless. I can't understand why the necessity test is there; it tightens up what already exists and what already exists has never caused a problem in terms of the creation of criminal or civil penalties. We would not be able to do that in the future as an Assembly, except in very narrowly defined circumstances. Again, there is no reason at all to have the necessity test there.

Yna mae mater y prawf angenrheidrwydd. Yn llwyr heb esboniad. Mae'n far anhygoel o uchel y byddai'n rhaid i'r Cynulliad neidio drosto pe byddai'r Cynulliad yn awyddus i newid y gyfraith droseddol neu breifat wrth ddeddfu ar faterion datganoledig. Mewn geiriau eraill, digon hawdd fyddai i ni basio deddf, ond ni fyddem yn gallu ei gorfodi. Felly, gallem gyflwyno treth stamp, ond, o bosibl, gallai treth stamp fod yn ddewisol o ran ei thalu. Hynny yw, nid yw'n gwneud synnwyr. Ni allaf ddeall pam mae'r prawf angenrheidrwydd yno; mae'n tynhau'r hyn sy'n bodoli eisoes ac nid yw'r hyn sy'n bodoli eisoes erioed wedi achosi problem o ran creu cosbau troseddol neu sifil. Ni fyddem yn gallu gwneud hynny yn y dyfodol fel Cynulliad, ac eithrio mewn amgylchiadau sydd wedi'u diffinio'n gyfyng iawn. Unwaith eto, nid oes rheswm o gwbl dros gael y prawf angenrheidrwydd yno.

14:41

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will the First Minister give way, please?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

A wnaiff y Prif Weinidog ildio, os gwelwch yn dda?

14:41

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Of course.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Wrth gwrs.

14:41

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Just on that point, could the First Minister confirm it's his view that, if the separate legal jurisdiction on which he began his remarks were to be established, that necessity test, by its very nature, just falls aside?

Dim ond ar y pwynt hwnnw, a allai'r Prif Weinidog gadarnhau mai ei farn ef yw, pe byddai'r awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân yn cael ei sefydlu - y gwnaeth ei sylwadau cyntaf arni - y byddai'r prawf angenrheidrwydd hwnnw, yn ôl ei natur, yn cael ei roi o'r neilltu?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:42

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Well, yes, it would. There is a similar test in Scotland. Of course, the breadth of the devolution settlement in Scotland is different. The necessity test sits there, and the other restrictions sit there, because of this obsession that you can't have too much of a divergence between Wales and England when it comes to the law. That's why it's there. Also, we have to bear in mind that this goes behind the result in 2011. In 2011, the people of Wales were asked whether they wished this Assembly to have primary powers in areas that were devolved. They weren't told, 'Well, are you happy for them to have the powers, but have a restriction on how they're enforced?' They weren't told that. This is what the necessity test does. That needs to be looked at again and it's something that the Secretary of State I think now understands.

Wel, ie, fe fyddai. Mae prawf tebyg yn yr Alban. Wrth gwrs, mae ehangder y setliad datganoli yn yr Alban yn wahanol. Mae'r prawf angenrheidrwydd yn rhan ohono, a'r cyfngiadau eraill yn rhan ohono, oherwydd yr obsesiwn hwn na allwch gael gormod o wahaniaeth rhwng Cymru a Lloegr o ran y gyfraith. Dyna pam ei fod yno. Hefyd, mae'n rhaid i ni gofio bod hyn yn mynd y tu ôl i'r canlyniad yn 2011. Yn 2011, gofynnwyd i bobl Cymru a oeddent yn dymuno i'r Cynulliad hwn gael pwerau sylfaenol mewn meysydd sydd wedi'u datganoli. Ni ddywedwyd wrthynt, 'Wel, a ydych yn fodlon iddynt gael y pwerau, ond bod cyfngiad ar sut y maent yn cael eu gorfodi?' Ni ddywedwyd hynny wrthynt. Dyma beth y mae'r prawf angenrheidrwydd yn ei wneud. Mae angen edrych eto ar hynny ac mae'n rhywbeth y mae'r Ysgrifennydd Gwladol, rwy'n meddwl, yn awr yn ei ddeall.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

So, there is a great deal of work to be done on the Bill. The easiest way would be to sort out the jurisdiction; that would simplify the Bill immensely. But we do need a Bill that's coherent, that's clear and, importantly, respects the 2011 result. What is the outcome otherwise? If the necessity test remains there, it is highly likely that every single Bill that passes through this Assembly will end up in the Supreme Court, because the necessity test will be challenged time and time again, probably by the Attorney General. That cannot be in the interests of the people of Wales, nor can it be in the interests of the UK Government. We're trying to get away from going to the Supreme Court, rather than introducing a system that makes it inevitable that there will be more and more referrals not just to the Supreme Court but potentially to the High Court as well, when it comes to judicially reviewing ministerial decisions.

So, what is the next step? The Secretary of State has indicated that he will work to make sure that the Bill is improved. I welcome that. My view is that jurisdiction is by far the easiest way of doing this and I cannot understand the objection to it. He has indicated to me that he does understand that there are issues that need to be resolved—the necessity test is a high bar; he understands that issue. We cannot have a situation where we see, in the next few years, the creation of a Welsh Parliament, but a Welsh Parliament that cannot enforce its own laws. That's not what the people of Wales wanted. I don't think it's what the Secretary of State wants either, and it's important now that not just the Governments but the two legislatures work together to make sure we have a settlement that will be robust, will be clear and that respects the devolution settlement we've had from 2011 and onwards.

Felly, mae llawer iawn o waith i'w wneud ar y Bil. Y ffordd hawsaf fyddai datrys yr awdurdodaeth; byddai hynny'n symleiddio'r Bil yn fawr iawn. Ond rydym angen Bil sy'n gydlynol, sy'n glir ac, yn bwysig iawn, sy'n parchu canlyniad 2011. Beth yw'r canlyniad fel arall? Os bydd y prawf angenrheirdwydd yn parhau i fod yno, mae'n debygol iawn y bydd pob un Bil sy'n mynd drwy'r Cynulliad hwn yn diweddu yn y pen draw yn y Goruchaf Lys, oherwydd bydd y prawf angenrheirdwydd yn cael ei herio dro ar ôl tro ar ôl tro, gan y Twrnai Cyffredinol yn ôl pob tebyg. Ni all hynny fod er budd pobl Cymru, ac ni all fod o fudd i Lywodraeth y DU. Rydym yn ceisio osgoi gorfod mynd i'r Goruchaf Lys, yn hytrach na chyflwyno system sy'n ei gwneud yn anochel y bydd mwy a mwy o atgyfeiriadau nid yn unig i'r Goruchaf Lys, ond o bosibl i'r Uchel Lys hefyd, pan ddaw yn fater adolygu penderfyniadau gweinidogol yn farnwrol.

Felly, beth yw'r cam nesaf? Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi nodi y bydd yn gweithio i sicrhau bod y Bil yn cael ei wella. Ryw'n croesawu hynny. Fy marn i yw mai awdurdodaeth yw'r ffordd hawsaf o dipyn i wneud hyn ac ni allaf ddeall y gwrthwynebiad iddi. Mae wedi dweud wrthyf ei fod yn deall bod materion sydd angen eu datrys —mae'r prawf angenrheirdwydd yn far uchel; mae'n deall y mater hwnnw. Ni allwn gael sefyllfa yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf lle rydym yn gweld creu Senedd i Gymru, ond Senedd i Gymru na all orfodi ei deddfau ei hun. Nid dyna beth oedd ar bobl Cymru ei eisiau. Nid wyf yn credu mai dyna'r hyn y mae'r Ysgrifennydd Gwladol ei eisiau chwaith, ac mae'n bwysig nawr bod nid yn unig y Llywodraethau, ond y ddwy ddeddfwrfa yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod gennym setliad a fydd yn gadarn, yn glir ac yn parchu'r setliad datganoli yr ydym wedi'i gael o 2011 ac ymlaen.

14:44

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I welcome the opportunity to contribute in this debate and, in particular, the more measured tones that the First Minister has used in the debate today, as opposed to the statement some two weeks ago.

I do think it is important that we rise to the challenge and we do make sure we make every effort to use this opportunity to strengthen the devolution settlement and make it a far clearer settlement, so that, exactly as the First Minister said, we don't spend our time back and forth in the Supreme Court arguing these cases, albeit that will happen from time to time; that's the nature of the system that we work in. I do think it is vital that, as I said in my response to the statement, we do continue to work, where we can, cross-party, because I do think that this Assembly speaks with a far louder voice where we can find agreement. I do believe that the assertion that the Secretary of State has given, both in his evidence to the Welsh affairs select committee and, obviously, as the First Minister highlighted, in his meeting yesterday—he is in listening mode to develop a Bill that, ultimately, will meet the needs and the expectations of not just this institution, but the people of Wales. It is quite right to point out that the referendum in 2011 was endorsed in every county the length and breadth of this country of ours, to give primary legislation powers to this institution. I fully accept that, and we on these benches fully accept that.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Ryw'n croesawu'r cyfle i gyfrannu at y ddadl hon ac, yn arbennig, y geiriau mwy pwyllog y mae'r Prif Weinidog wedi eu defnyddio yn y ddadl heddiw, yn hytrach na'r datganiad ryw bythefnos yn ôl.

Ryw'n meddwl ei bod yn bwysig ein bod yn ymateb i'r her a'n bod yn gwneud yn siŵr ein bod yn gwneud pob ymdrech i ddefnyddio'r cyfle hwn i gryfhau'r setliad datganoli a'i wneud yn setliad llawer cliriach, fel nad ydym, yn union fel y dywedodd y Prif Weinidog, yn treulio ein hamser yn ôl ac ymlaen yn y Goruchaf Lys yn dadlau'r achosion hyn, er y bydd hynny'n digwydd o bryd i'w gilydd; dyna natur y system yr ydym yn gweithio ynddi. Ryw'n meddwl ei bod yn hanfodol, fel y dywedais yn fy ymateb i'r datganiad, ein bod yn parhau i weithio, lle y gallwn, yn drawsbleidiol, gan fy mod yn meddwl bod y Cynulliad hwn yn siarad gyda llais llawer cryfach lle y gallwn gael cytundeb. Ryw'n credu bod yr haeriad y mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi'i roi, yn ei dystiolaeth i'r pwylgor dethol ar faterion Cymreig ac, yn amlwg, fel y pwysleisiodd y Prif Weinidog, yn ei gyfarfod ddoe—mae mewn modd gwrando ar ddatblygu Bil fydd, yn y pen draw, yn bodloni anghenion a disgwyliadau nid yn unig y sefydliad hwn, ond pobl Cymru. Mae'n holol iawn i nodi bod y refferendwm yn 2011 wedi cael ei gymeradwyo ym mhob sir ar hyd a lled ein gwlaid, er mwyn rhoi pwerau deddfwriaeth sylfaenol i'r sefydliad hwn. Ryw'n derbyn hynny'n llwyr, ac rydym ni ar y meinciau hyn yn derbyn hynny'n llwyr.

There's a lot of good in this Bill as well, a lot of areas that will be transferred around energy, for example, ports policy, speed limits, bus regulation, tax regulation, local government elections—even for this place to set its own electoral timetables and electoral responsibilities. Surely, that's an inevitable maturing of the democratic process, and it's always seemed a bit bizarre to me that we never had that responsibility in the first place, to be honest with you. But that is something that has to be welcomed, and instead of us constantly focusing on the negative, let's also reflect on what is positive in this draft Bill, because there is much that is positive in the draft Bill.

I do believe, as Jenny Randerson touched on when she commented on the opportunities that the Bill presents itself, when she was asked to comment on the process—and that is the key: we are at the draft stage with this Bill, I, along with my colleagues on this side, do have issues and concerns around the consenting process, because, ultimately, what we don't want to do is move backwards. What we want is clarity and coherence in the settlement that, obviously, the Prime Minister outlined in the St David's Day agreement. It'll serve no-one any good whatsoever if all we end up doing is muddying the waters and ending up with a dog's dinner of a Bill. The Secretary of State—

Mae llawer o bethau da yn y Bil hwn hefyd, mae llawer o feysydd a fydd yn cael eu trosglwyddo yn ymwned ag ynni, er enghraift, polisi porthladdoedd, cyfngiadau cyflymder, rheoleiddio bysiau, rheoliadau treth, etholiadau llywodraeth leol—hyd yn oed i'r lle hwn bennu ei amserlenni etholiadol a'i gyfrifoldebau etholiadol ei hun. Yn sicr, mae hynny'n dangos aeddfedrwydd anochel o'r broses ddemocrataidd, ac mae bob amser wedi ymddangos braidd yn rhyfedd i mi na chawsom ni'r cyfrifoldeb hwnnw yn y lle cyntaf, i fod yn onest gyda chi. Ond mae hynny'n rhywbeth y mae'n rhaid ei groesawu, ac yn hytrach na'n bod ni'n canolbwytio'n gyson ar y negyddol, gadewch i ni hefyd fyfyrion yr hyn sy'n gadarnhaol yn y Bil drafft hwn, oherwydd mae llawer sy'n gadarnhaol ynddo.

Rwy'n credu, fel y crybwylodd Jenny Randerson wrth iddi wneud sylwadau ar y cyfleoedd y mae'r Bil yn eu cyflwyno, pan ofynnwyd iddi roi sylwadau ar y broses—a dyna'r allwedd: rydym yn y cam drafft gyda'r Bil hwn. Mae gennyf i, ynghyd â'm cydweithwyr ar yr ochr hon, rai problemau a phryderon ynglych y broses gydsynio, oherwydd, yn y pen draw, yr hyn nad ydym am ei wneud yw symud tuag yn ôl. Yr hyn yr ydym am ei weld yw eglurder a chydlyniad yn y setliad y gwnaeth y Prif Weinidog, yn amlwg, ei amlinellu yn y cytundeb Dydd Gŵyl Dewi. Ni fydd o unrhyw werth o gwbl i neb os ma'i'r unig beth yr ydym yn ei wneud yn y pen draw yw cymhlethu pethau a diweddu gyda thraed moch o Fil. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol—

14:47

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will you give way on that point? I'm grateful to Andrew Davies for giving way. Just on this point—I welcome what he's just said regarding the settlement in 2011 and the need for clarity now—is he in a position now to reconsider his previous opposition to that separate legal jurisdiction, pitched, indeed, as the First Minister has said, as a way of bringing that clarity and then removing that consent process, or at least making it much more simple?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

A wnewch chi ildio ar y pwnt hwnnw? Rwy'n ddiochgar i Andrew Davies am ildio. Dim ond ar y pwnt hwn—croesawaf yr hyn y mae newydd ei ddweud ynglych y setliad yn 2011 a'r angen am eglurder yn awr—a yw mewn sefyllfa bellach i ailystyried ei wrthwynebiad blaenorol i'r awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân, a gyflwynwyd, yn wir, fel y dywedodd y Prif Weinidog, fel ffordd o ddod â'r eglurder hwnnw ac yna gael gwared ar y broses gydsynio, neu o leiaf ei gwneud yn llawer symach?

14:47

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I don't think I've ever expressed an outright opposition to a separate jurisdiction, and, in fact, I met several interested parties in this particular field only a week ago at an event in this building that I think the Deputy Presiding Officer was sponsoring, as such. I'm quite open-minded about it. I do believe that we do have a jurisdiction at the moment—the England-and-Wales jurisdiction—that is the envy of the world. I do think it is very robust, but I certainly am not closed to taking the argument forward and progressing the argument, but I will need some persuading, as will colleagues on this side of the Chamber, whether this is the right moment to do that or whether it is something to be considered at a later date and we evolve into that position. But I do take the point that the First Minister's touched on: that if you do move to the ground of a separate jurisdiction, then that might possibly help the clarity of the Bill and some of the uncertainties that the First Minister put over, and that, surely, is the discussion, is the debate and the progress that we should be trying to seek to make, in between the drafting and bringing the Bill forward and its stages through the legislative process.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Nid wyf yn credu fy mod i wedi mynegi gwrthwnebiad llwyr erioed i awdurdodaeth ar wahân, ac, yn wir, cwrddais â sawl parti sydd â diddordeb yn y maes arbennig hwn ddim ond wythnos yn ôl, mewn digwyddiad yn yr adeilad hwn y credaf a noddyd gan y Dirprwy Lywydd, fel y cyflyw. Mae gennyf feddwl eithaf agored am y peth. Rwy'n credu bod gennym awdurdodaeth ar hyn o bryd—awdurdodaeth Cymru a Lloegr—sy'n destun eiddigedd y byd. Rwy'n meddwl ei fod yn gadarn iawn, ond yn sicr nid wyf yn diystyru mynd â'r ddadl yn ei blaen a datblygu'r ddadl, ond bydd angen rhywfaint o berswadio arnaf, fel y bydd ar gydweithwyr ar yr ochr hon i'r Siambra, ai dyma'r foment gywir i wneud hynny neu a yw'r rhywbeth i'w ystyried yn nes ymlaen, a'n bod yn esblygu i'r sefyllfa honno. Ond rwy'n derbyn y pwnt y mae'r Prif Weinidog wedi'i wneud: os ydych yn symud i faes awdurdodaeth ar wahân, yna gallai hynny o bosibl helpu eglurder y Bil a rhywfaint o'r ansicrwydd y gwnaeth y Prif Weinidog ei gyfleo, a dyna, yn sicr, yw'r drafodaeth, y ddadl a'r cynnydd y dylem fod yn ceisio ei wneud, rhwng draffto a chyflwyno'r Bil a'i gamau drwy'r broses ddeddfwriaethol.

As I said, there is so much good in this Bill that we should be promoting, and making sure that people don't turn against the Bill itself. The Secretary of State has indicated, and the parliamentary time clearly shows, that this is the one opportunity within this Parliament to have a Wales Bill, and we should not lose that opportunity in taking matters forward. So, I do hope that the language becomes more consensual, and I do hope the language becomes more constructive, as we go forward, as I do think that we do have a great opportunity to develop a Bill that will strengthen the devolution settlement, strengthen this institution and strengthen democracy here in Wales.

14:49

Leanne Wood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

As I have stated in previous debates, delivering a reserved-powers model without a legal jurisdiction does seem complex and restrictive. There does seem to be a fair bit of agreement on that point, which is welcome. Now, the draft Wales Bill, far from simplifying our devolution process, complicates it further. It should be possible to have an honest and open debate about what kinds of decisions should be made at a UK level and what decisions should be taken at the national level. Inevitably, in that debate there would need to be compromise, but what has happened so far is an unfair compromise. The lowest possible common denominator has been set, and then it has been portrayed as a lasting solution. Now, this is a recipe for Wales to be left further behind the other devolved nations and therefore at an economic, social and political disadvantage. We cannot afford such a disadvantage.

Instead of the debate being open and honest, from the Secretary of State's side it has been filled with hyperbole and tactical positioning. Now, I have heard the Secretary of State blame the failure to get an agreed Bill on the opposition leaders at Westminster; I've seen him blame it on the influence of Plaid Cymru; I've seen him blame it on the prospect of Welsh independence. I've even seen it blamed on alleged nationalist lawyers and academics. The only person escaping this blame is the Secretary of State himself, which, perhaps, speaks volumes. At the same time as criticising a whole host of characters for disagreeing with the draft Bill, he's now asked us to stop talking about it and stop debating it, which seems very strange considering that the Bill is now beginning its journey through Westminster, where scrutiny will be constant and where amendments will be tabled. The idea that we should accept a second-rate or even third-rate Bill, combined with the threat that we won't get another, is problematic and is disrespectful to this country. This Bill, as it is currently drafted, means that the next Welsh Government, which of course I want to be a Plaid Cymru Government, will have to face judges as it seeks to implement its democratic mandate on behalf of people.

Fel y dywedais, mae cymaint o bethau da yn y Bil hwn y dylem fod yn eu hyrwyddo, a gwneud yn siŵr nad yw pobl yn troi yn erbyn y Bil ei hun. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi nodi, ac mae'r amser seneddol yn dangos yn glir, mai hwn yw'r un cyfle o fewn y Senedd hon i gael Bil Cymru, ac ni ddylem golli'r cyfle wrth fwrw ymlaen â'r materion. Felly, rwy'n gobeithio y bydd yr iaith yn dod yn fwy cydysniol, ac rwy'n gobeithio y bydd yr iaith yn dod yn fwy adeiladol, wrth inni symud ymlaen, gan fy mod yn credu bod gennym gyfle gwych i ddatblygu Bil a fydd yn cryfhau'r setliad datganoli, yn cryfhau'r sefydliad hwn ac yn cryfhau democraeth yma yng Nghymru.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Fel rwyf wedi datgan mewn dadleuon blaenorol, mae cyflwyno model cadw pwerau heb awdurdodaeth gyfreithiol yn ymddangos yn gymhleth ac yn gyfngol. Mae'n ymddangos bod cryn dipyn o gytundeb ar y pwynt hwnnw, ac mae hynny i'w groesawu. Nawr, mae'r Bil Cymru drafft, yn hytrach na symleiddio ein proses ddatganoli, yn ei chymhlethu ymhellach. Dylai fod yn bosibl cael dadl onest ac agored am y mathau o benderfyniadau y dylid eu gwneud ar lefel y DU a pha benderfyniadau y dylid eu gwneud ar y lefel genedlaethol. Yn anochel, yn y ddadl honno byddai angen cael cyfaddawd, ond mae beth sydd wedi digwydd hyd yn hyn yn gyfaddawd annheg. Mae'r lefel gyffredin isaf bosibl wedi cael ei sefydlu, ac yna mae wedi cael ei phortreadu fel ateb parhaol. Nawr, gall hyn arwain at Gymru yn cael ei gadael ymhell y tu ôl i'r cenhedloedd datganoledig eraill ac felly o dan anfantais economaidd, gymdeithasol a gwleidyddol. Ni allwn fforddio bod o dan anfantais o'r fath.

Yn lle bod y ddadl yn un agored a gonest, o ochr yr Ysgrifennydd Gwladol mae'n llawn gormodaiath a lleoli tactegol. Nawr, rwyf wedi clywed yr Ysgrifennydd Gwladol yn rhoi'r bai ar y methiant i gael Bil y cytunwyd arno ar arweinwyr y gwrthbleidiau yn San Steffan; rwyf wedi ei weld yn rhoi'r bai ar ddyylanwad Plaid Cymru; rwyf wedi ei weld yn rhoi'r bai ar y posibilrwydd o annibyniaeth i Gymru. Rwyf wedi ei weld hyd yn oed yn cael ei feio ar gyfreithwyr ac academyddion cenedlaetholgar honedig. Yr unig berson sy'n dianc rhag cael ei feio yw'r Ysgrifennydd Gwladol ei hun, sydd, efallai, yn dweud cyfrolau. Ar yr un pryd â beirniadu llu o gymeriadau am anghytuno gyda'r Bil drafft, mae bellach wedi gofyn i ni roi'r gorau i siarad am y peth ac i roi'r gorau i drafod hyn, sy'n ymddangos yn rhyfedd iawn o ystyried bod y Bil yn awr yn dechrau ar ei daith drwy San Steffan, lle bydd craffu arno'n gyson a lle caiff gwelliannau eu cyflwyno. Mae'r syniad y dylem dderbyn Bil eiradd neu hyd yn oed Fil o'r drydedd radd, ynghyd â'r bygythiad na fyddwn yn cael un arall, yn broblemus ac yn amharchus i'r wlad hon. Mae'r Bil hwn, fel y mae wedi cael ei ddrafftio ar hyn o bryd, yn golygu y bydd yn rhaid i Lwyodraeth nesaf Cymru, yr wyf wrth gwrs am iddi fod yn Llywodraeth Plaid Cymru, wynebu barnwyr wrth iddi geisio gweithredu ei mandad democraidd ar ran y bobl.

Now, if I can turn away from the Secretary of State to your Government, First Minister, and your party, there does need to be recognition on your side of the Chamber that you have not given a consistent view on these issues. Labour's position on devolution remains problematic. There are areas where your Labour Members of Parliament are on record as agreeing with the Conservative Assembly Members in this Chamber that certain aspects should not be devolved or should remain reserved. In particular, I'm thinking of police and justice, and teachers' pay and conditions. Of course, your Government has a different view to your party, but that isn't a strong position for Wales as a nation. It means that you've not been able to rely on members of your own party at Westminster to back your own Government's position. Plaid Cymru Members of Parliament have been prepared to co-operate constructively with pro-devolutionists of all parties to promote the Welsh national interest, and we are prepared to do that again. The UK Government is trying to fob Wales off. The message coming from Westminster doesn't feel like one of friendship. We're starting to see a shift in language and tone towards challenging Welsh civic society to accept a Bill that won't work.

As the leader of the Party of Wales, I again offer our view of a compromise for a way forward. We say: implement the cross-party agreement in full and deliver parity for Wales with other devolved nations. After all, we've yet to hear a justification as to why Wales should not expect or deserve full equality. Financially, let's work with the provisions of the Wales Act 2014 for tax devolution so that power can be matched with responsibility, but without a referendum. If it's good enough for English cities, why is it not good enough for Wales? The First Minister, in his opening statement, accepted the arguments for devolving income tax when he earlier mentioned the question of ports. Where is the incentive to invest and improve ports if you can't realise the benefits?

Beyond this position on tax without a referendum, we remain open to listening to civil society and to those lawyers and academics on their thoughts as to how we can further develop and extend Welsh democracy. We now need to try and amend this Bill for the benefit of Wales.

Nawr, os gallaf droi oddi wrth yr Ysgrifennydd Gwladol at eich Llywodraeth chi, Brif Weinidog, a'ch plaid chi, mae angen cydnabyddiaeth ar eich ochr chi o'r Siambra nad ydych wedi rhoi barn gyson ar y materion hyn. Mae safbwyt Llafur ar ddatganoli yn parhau i fod yn broblem. Mae meysydd lle mae eich Aelodau Seneddol Llafur wedi cael eu cofnodi eu bod yn cytuno gydag Aelodau Ceidwadol y Cynulliad yn y Siambra hon na ddylai rhai agweddu gael eu datganoli neu y dylent gael eu cadw o hyd. Yn benodol, rwy'n meddwl am yr heddlu a chyflawnder, a thâl ac amodau athrawon. Wrth gwrs, mae gan eich Llywodraeth safbwyt gwahanol i'ch plaid chi, ond nid yw hynny'n sefyllfa gref i Gymru fel cenedl. Mae'n golygu nad ydych wedi gallu dibynnu ar aelodau eich plaid eich hun yn San Steffan i gefnogi safbwyt eich Llywodraeth eich hun. Mae Aelodau Seneddol Plaid Cymru wedi bod yn barod i gydweithredu'n adeiladol â rhai o blaid datganoli o bob plaid i hyrwyddo budd cenedlaethol Cymru, ac rydym yn barod i wneud hynny eto. Mae Llywodraeth y DU yn ceisio cadw Cymru yn dawel. Nid yw'r neges sy'n dod o San Steffan yn teimlo fel neges o gyfeillgarwch. Rydym yn dechrau gweld newid yn yr iaith a'r dôn sy'n herio cymdeithas ddinesig yng Nghymru i dderbyn Bil na fydd yn gweithio.

Fel arweinydd Plaid Cymru, rwyf unwaith eto yn cynnig ein safbwyt ni o gyfaddawd ar gyfer y ffordd ymlaen. Rydym yn dweud: gweithredwch y cytundeb trawsbleidiol yn llawn a darparwch gydraddoldeb i Gymru â chenhedloedd datganoledig eraill. Wedi'r cyfan, rydym yn dal yn aros i glywed cyflawnhad o ran pam na ddylai Cymru ddisgwyl neu haeddu cydraddoldeb llawn. Yn ariannol, gadewch i ni weithio â darpariaethau Deddf Cymru 2014 ar gyfer datganoli treth fel y gellir paru pŵer â chyfrifoldeb, ond heb refferendwm. Os yw'n ddigon da i ddinasoedd Lloegr, pam nad yw'n ddigon da i Gymru? Roedd Prif Weinidog Cymru, yn ei ddatganiad agoriadol, yn derbyn y dadleuon dros ddatganoli treth incwm pan soniodd yn gynharach am fater porthladdoedd. Ble mae'r cymhelliaid i fuddsoddi a gwella porthladdoedd os nad ydych yn gallu gwireddu'r manteision?

Y tu hwnt i'r safbwyt hwn ar dreth heb refferendwm, rydym yn dal i fod yn barod i wrando ar syniadau cymdeithas sifil a'r cyfreithwyr a'r academyddion hynny ynghylch sut y gallwn ddatblygu ac ymestyn democratiaeth Cymru ymhellach. Mae angen i ni nawr geisio diwygio'r Bil hwn er budd Cymru.

It is clear to me, Deputy Presiding Officer, and my party that the status quo of Welsh devolution cannot stand. The fact that our devolved settlement is so unclear, that our laws regularly end up in the Supreme Court and that committees regularly second-guess what is and what isn't in competence is evidence enough of that. But, any steps forward in our devolution settlement have to be steps that deliver clarity for this institution, clarity for the people of Wales of what they can expect from this institution and workability. I do, however, fear that the draft Wales Bill, as currently in front of us, does not provide either of those things. In fact, not only does it not provide that clarity or workability, it actually risks, I believe, taking a step backwards, taking us back to a situation where the democratically elected Members of this Chamber, on behalf of the people of Wales, could have their actions thwarted by Westminster, Whitehall and the Supreme Court.

My party has long called and long supported calls for a reserved-powers model to ensure that workability and clarity for this Chamber and our constituents, but, as I said, this version of a reserved-powers model perhaps belies the fact that it wasn't as simple as some of us thought it may be and, as is currently presented, I believe it will prove to be unworkable and will create confusion.

The necessity tests are just the start of it. When we had the ministerial statement a fortnight ago, I asked the First Minister whether he could clarify the purpose and the breadth of those tests, and he, at that time, said that he couldn't. Well, after two weeks of studying this and two weeks of consulting, I don't think we're that much further down the line of understanding the true implications of those necessity tests. Necessity has a range of meanings, and there will be uncertainty about this until the first of what I suspect will be many Supreme Court rulings on this issue.

The reservations of private and criminal law are not the same as other reservations. These are not policy areas, but they are ways of making policy and enforcing policy, as the First Minister stated. If we can't do that in this Chamber, it begs the question: what are we for? This Bill risks a substantial rollback of Wales's power. At present, many of our silent subjects, such as employment, will become explicitly reserved. The prohibition on removing or modifying functions of Ministers of the Crown for functions that existed before 5 May 2011, unless doing so is incidental, would be extended to all newer functions and even future functions not yet in existence. I am absolutely clear on this principle—that any rowing back on the powers that we currently have and have exercised over the last four and a half years cannot and should not be tolerated by this institution or by the people we serve.

Mae gennyd bryderon hefyd am y rhestr a gadwyd, a chefnogaf yn fawr y sylwadau a wnaed gan Kirsty Williams bod gwir angen esboniad ynglych pam mae rhai o'r rhain yn cael eu cadw. Rwy'n falch iawn hefyd o weld yn yr ohebiaeth rhwng y Prif Weinidog a'r Ysgrifennydd Gwlaol Cymru faterion fel y rhai yr ydym wedi eu codi yn ein dadleuon ni, megis trwyddedu peiriannau betio ods sefydlog. Hynny yw, beth yw'r rhesymeg dros beidio datganoli? Cawsom gytundeb trawsbleidiol ar hyn—mae wedi cael ei ddatganoli yn yr Alban—felly mae angen mwy o wybodaeth a, gobeithio y caiff hynny ei wireddu.

Also, why should we not have clear fiscal powers relating to devolved responsibilities? It appeared in the first command paper; it's in the last Wales Act, but there is a whole bureaucratic process around that. It just makes absolute sense that the fiscal responsibilities that go with responsibilities should be there. That would enable us to look at things like levies to support tourism, public health in the fields of sugary drinks, fixed-odds gaming machines and also the sorts of issue raised in the failed Recovery of Medical Costs for Asbestos Diseases (Wales) Bill and many other areas as well.

The correspondence is quite revealing because what it does show is that there have been very significant efforts made back to March last year that were actually putting forward concerns about what the narrative should be around the Bill and the lack of any clear information coming from the UK Government and from the Welsh Office to enable us to actually understand that process. It may be that this is the problem. There was too little thought being given too early on by the Welsh Office to adopting a common narrative about what the objective of the legislation should be.

Can I just raise one further point, and that is the one John Griffiths raised about the constitutional convention? We hopefully will now be able to work to get this legislation right. Hopefully, we'll be able to develop a common narrative, and there will be very, very substantial reform, because, if there isn't, there are very, very many major constitutional implications of this legislation not being correct. And there is still one fundamental overarching constitutional issue, and that is the issue of a constitutional convention and sorting out the English arrangements.

Hefyd, pam na ddylem gael pwerau cyllidol clir sy'n ymneud â chyfrifoldebau datganoledig? Roedd yn ymddangos yn y papur gorchymyn cyntaf; mae yn y Ddeddf Cymru ddiwethaf, ond mae proses fiwrocataidd gyfan o gwmpas hynny. Mae'n gwneud synnwyr llwyr y dylai'r cyfrifoldebau cyllidol sy'n mynd gyda chyfrifoldebau fod yno. Byddai hynny'n ein galluogi i edrych ar bethau fel ardollau i gefnogi twristiaeth, iechyd y cyhoedd ym meysydd diodydd llawn siwgr, peiriannau hapchwareae ods sefydlog a hefyd y math o fater a godwyd yn y Bil Adfer Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru) a fethodd, a llawer o feisydd eraill hefyd.

Mae'r ohebiaeth yn eithaf dadennol oherwydd yr hyn mae'n ei wneud yw dangos bod ymdrechion sylweddol wedi bod yn ôl i fis Mawrth y llynedd, ac roedd y rheini mewn gwirionedd yn cyflwyno pryderon yngylch y naratif am y Bil a diffyg unrhyw wybodaeth glir gan Lywodraeth y DU a chan y Swyddfa Gymreig a fyddai'n ein galluogi ni i ddeall y broses honno mewn gwirionedd. Efallai fod hyn yn broblem. Ychydig iawn o feddwl oedd yn cael ei roi, a hynny'n rhy gynnar, gan y Swyddfa Gymreig i fabwsiadu naratif cyffredin am yr hyn y dylai amcan y ddeddfwriaeth fod.

A gaf i godi un pwynt arall, sef y pwynt a gododd John Griffiths am y confensiwn cyfansoddiadol? Rydym yn gobeithio y byddwn yn awr yn gallu gweithio i gael y ddeddfwriaeth hon yn iawn. Y gobaith yw y byddwn yn gallu datblygu naratif cyffredin, ac y bydd diwygio sylweddol iawn, iawn yn digwydd oherwydd, os nad oes, mae llawer iawn, iawn o oblygiadau cyfansoddiadol pwysig os nad yw'r ddeddfwriaeth hon yn iawn. Ac mae un mater cyfansoddiadol trofwaol sylfaenol o hyd, sef mater confensiwn cyfansoddiadol a rhoi trefn ar y trefniadau yn Lloegr.

15:24

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think, in debating these matters, we need to ensure that the Secretary of State is held to account for the objectives that he's set himself in this process. He has, on many different occasions, set himself up at the head of a cross-party consensus leading a new debate in Wales on the future of our governance. I'm yet to see anyone agree with that consensus. I'm yet to find anyone who's reached agreement with the Secretary of State on any of these matters. He seems to have a group of imaginary friends surrounding him and creating a fantasy version of a constitutional settlement that is absolutely unrecognisable to anybody to whom he seeks to describe it. I will say this to the Secretary of State: when he came here in June, I felt that he made a very good, a very generous and a very gracious speech to this place. He reached out to people who—. I think he felt that many of us were distrustful and suspicious, but he reached beyond that and he gave an undertaking to this place that he would lead a process that would lead to a lasting settlement.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Wrth drafod y materion hyn, rwy'n meddwl bod angen i ni sicrhau bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn cael ei ddal i gyfrif am yr amcanion y mae wedi'u gosod iddo'i hun yn y broses hon. Ar sawl achlysur gwahanol, mae wedi sefydlu ei hun yn arweinydd consensws trawsbleidiol ar drafodaeth newydd yng Nghymru ar ddyfodol ein llywodraethu. Rwyf eto i weld unrhyw un yn cytuno â'r consensws hwnnw. Rwyf eto i ganfod unrhyw un sydd wedi dod i gytundeb â'r Ysgrifennydd Gwladol ar unrhyw un o'r materion hyn. Ymddengys fod ganddo grŵp o ffrindiau dychmygol o'i amgylch sy'n creu fersiwn ffantasi o setliad cyfansoddiadol sy'n hollol anghyfarwydd i unrhyw un y mae'n ceisio ei ddisgrifio iddynt. Byddaf yn dweud hyn wrth yr Ysgrifennydd Gwladol: pan ddaeth yma ym mis Mehefin, roeddwn yn teimlo ei fod wedi gwneud arraith dda iawn, hael iawn a hynaws iawn i'r lle hwn. Llwyddodd i estyn allan at bobl sydd—. Rwy'n credu ei fod yn teimlo bod llawer ohonom yn ddrwgdybus ac amheus, ond estynnodd allan y tu hwnt i hynny a rhoddodd ymrwymiad i'r lle hwn y byddai'n arwain proses a fyddai'n arwain at setliad parhaol.

This, Secretary of State, is the opportunity for you to do exactly that. Leadership sometimes says and sometimes means demonstrating an understanding that you're not quite where you might wish to be. He said that the settlement would be clearer, stronger and fairer. It is difficult to see where any element of the draft Bill delivers either clarity, fairness or strength. It is difficult to see how this draft Bill will help the integrity of the United Kingdom and will help deliver a United Kingdom that can deliver for the people of Wales the services and governance that they themselves seek and have voted for time and time again. I think, in doing so, this Chamber does need to come together. I very much welcome the tone of remarks from the leader of the opposition this afternoon. It's always an uncomfortable experience to be speaking in a debate where your colleagues in Westminster are not—how shall I say—the focus of great acclamation, and I think the leader of the opposition got his tone right this afternoon. I hope that we will be able to continue in that vein in order to reach a consensus in this place, at least.

Dyma, Ysgrifennydd Gwladol, y cyfle i chi i wneud hynny'n union. Mae arweinyddiaeth weithiau yn dweud ac weithiau'n golygu dangos dealltwriaeth nad ydych yn union yn y fan rydych yn dymuno bod ynddo. Dywedodd y byddai'r setliad yn gliriach, yn gryfach ac yn decach. Mae'n anodd gweld lle mae unrhyw elfen o'r Bil drafft yn darparu naill ai eglurder, tegwch neu gryfder. Mae'n anodd gweld sut y bydd y Bil drafft hwn yn helpu uniondeb y Deyrnas Unedig ac yn helpu i sicrhau bod y Deyrnas Unedig yn gallu cyflawni'r gwasanaethau a'r llywodraethu ar gyfer pobl Cymru y maent hwy eu hunain yn eu ceisio ac wedi pleidleisio drostynt dro ar ôl tro. Drwy wneud hynny rwy'n credu bod angen i'r Siambwr hon ddod at ei gilydd. Croesawaf yn fawr naws y sylwadau gan arweinydd yr wrthblaid y prynhawn yma. Mae bob amser yn brofiad anghyfforddus siarad mewn dadl lle nad yw eich cydweithwyr yn San Steffan—sut y gallaf ddweud—yn frwd eu cymeradwyaeth, ac rwy'n credu bod arweinydd yr wrthblaid wedi cael y naws yn gywir y prynhawn yma. Rwy'n gobeithio y byddwn yn gallu parhau yn yr un modd er mwyn cyrraedd consensws, o leiaf yn y lle hwn.

15:26 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
I'd just like to put on the record it is always very dangerous when the Member for Blaenau Gwent praises the leader of the opposition; it doesn't always benefit my health.
[Laughter.]

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:26 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
I can assure you that it terrifies me as well, but we are where we are, as I've said on a number of occasions.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

If we are to reach a point of clarity, we cannot have over 200 exemptions to powers available to this place—200 exemptions with exemptions to those exemptions does not provide clarity. We cannot have a situation whereby a Minister of the Crown can veto the democratically agreed legislation of this place. That is not democracy. It simply isn't a democratic settlement that is recognisable anywhere in the Westminster parliamentary system. It is not something that we can agree with here. And what I would like to see the Secretary of State do in considering the deliberations this afternoon and at other times is this: I want him to focus on substance, not simply the spin of his speech, but the substance of what he is seeking to deliver. It appears to me that we are not going to reach a point where we can have a lasting settlement in Wales until we do have a legal jurisdiction that is distinct and that is Welsh. I do not believe that it is possible to have a lasting settlement without that.

Gallaf eich sicrhau ei fod yn fy nychdyn innau hefyd, ond rydym yn y sefyllfa yr ydym ynddi, fel rwyf wedi dweud ar sawl achlysur.

Os ydym am gyrraedd pwynt o eglurder, ni allwn gael dros 200 o eithriadau i'r pwerau sydd ar gael i'r lle hwn—nid yw 200 o eithriadau gydag eithriadau i'r eithriadau hynny yn darparu eglurder. Ni allwn gael sefyllfa lle y gall un o Weinidogion y Goron roi feto ar ddeddfwriaeth a gytunwyd yn ddemocratiaidd yn y lle hwn. Nid yw hynny'n ddemocratiaeth. Yn syml, nid yw'n setliad democraidd sy'n cael ei adnabod yn unrhyw le yn system seneddol San Steffan. Nid yw'n rhywbeth y gallwn gytuno ag ef yma. A dyma beth hoffwn i weld yr Ysgrifennydd Gwladol yn ei wneud wrth ystyried y trafodaethau y prynhawn yma ac ar adegau eraill: rwyf am iddo ganolbwytio ar sylwedd, nid dim ond sbin ei araih, ond sylwedd yr hyn y mae'n ceisio ei gyflwyno. Mae'n ymddangos i mi nad ydym yn mynd i gyrraedd pwynt lle gallwn gael setliad parhaol yng Nghymru hyd nes y bydd gennym awdurdodaeth gyfreithiol sy'n wahanol ac sy'n Gymreig. Nid wyf yn credu ei bod yn bosibl cael setliad parhaol heb hynny.

I've listened to many of the comments and contributions this afternoon and at other times, and I think it is time that we actually moved beyond a process and took the view that four Bills in 20 years is a failure. It's an absolute failure of our politics. It's not a failure of this place, but it's a failure of Westminster. Westminster must deliver for our country the governance of which we can be proud, and all parties in Westminster must recognise that four Bills in 20 years is not a success but a failure. What we must do is move beyond that failure. We must say today, from this Chamber, that we will not accept another 20 years of process, 20 years without clarity on this settlement and 20 years where the people of Wales are going to be dragged to courts, to judges and to lawyers to find out where the power over their lives rests. That is not fair to anyone in Wales. It's not fair to the people who sent us here and it's time for us here to say to Westminster, 'We need the tools to do the job; we need a settlement that really will stand the test of time.'

Rwyf wedi gwrando ar lawer o'r sylwadau a'r cyfraniadau'r prynhawn yma ac ar adegau eraill, ac rwyf yn meddwl ei bod yn bryd i ni mewn gwirionedd symud y tu hwnt i broses a chymryd y farn fod pedwar Bil mewn 20 mlynedd yn fethiant. Mae'n fethiant llwyr yn ein gwleidyddiaeth; nid methiant y lle hwn, ond methiant San Steffan. Mae'n rhaid i San Steffan gyflawni dros ein gwlad system lywodraethu y gallwn fod yn falch ohoni, a rhaid i bob plaid yn San Steffan gydnabod nad yw pedwar Bil mewn 20 mlynedd yn llwyddiant, ond yn fethiant. Beth sy'n rhaid i ni ei wneud yw symud y tu hwnt i'r methiant hwnnw. Mae'n rhaid i ni ddweud heddiw, o'r Siambra hon, na fyddwn yn derbyn 20 mlynedd arall o broses, 20 mlynedd heb eglurhad ar y setliad hwn ac 20 mlynedd lle mae pobl Cymru yn mynd i gael eu llusgo i lysoedd, at farnwyr ac at gyfreithwyr i ganfod ble mae'r pŵer dros eu bywydau yn gorwedd. Nid yw hynny'n deg i unrhyw un yng Nghymru. Nid yw'n deg i'r bobl a'n hanfonodd ni yma ac mae'n bryd i ni yma ddweud wrth San Steffan, 'Mae angen yr offer arnom i wneud y gwaith; mae angen i ni gael setliad a fydd mewn gwirionedd yn sefyll prawf amser.'

15:29 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The First Minister to reply to the debate.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Y Prif Weinidog i ymateb i'r ddadl.

15:29 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Dirprwy Lywydd. I thank all Members for their contributions this afternoon. It's clear to me that there's much work to be done on the Bill. It's also clear to me that there is an understanding in all parts of this Chamber that that work needs to be taken forward and needs to provide the clarity that the people of Wales require.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd. Diolch i'r holl Aelodau am eu cyfraniadau'r prynhawn yma. Mae'n amlwg i mi fod llawer o waith i'w wneud ar y Bil. Mae hefyd yn amlwg i mi fod dealltwriaeth ym mhob rhan o'r Siambra hon bod angen datblygu'r gwaith hwnnw ac mae angen darparu'r eglurder sydd ei angen ar bobl Cymru.

The first Part of the Bill does deliver, in the main, what was promised in terms of the extra powers for this place. I think it's worth noting that that is the case. But, the main objective of this Bill is to provide a basis for devolution that will last for some time. It won't do that without the jurisdiction point being addressed. We are bound to come back in a few years' time in order to reassess the issue of the jurisdiction. As I said, the situation exists at the moment anyway that all judges below High Court level all sit in Wales now anyway; they have to be specially trained to sit in Wales because the law has changed so much. So, in effect, that jurisdiction below High Court level already exists in a de facto way. This is not a major change in terms of the way the law is administered in Wales. The jurisdiction of England and Wales is not an attraction around the world; it's the justice system that provides the attractiveness in terms of the speed of justice, in terms of the objectivity of justice. The jurisdiction doesn't actually come into it, and there's no reason why Wales can't enjoy the same reputation with its jurisdiction because it would be sharing the same court system.

Ar y cyfan, mae rhan gyntaf y Bil yn cyflawni'r hyn a addawyd o safbwyt y pwerau ychwanegol ar gyfer y lle hwn. Rwy'n credu ei bod yn werth nodi bod hynny'n wir. Ond prif amcan y Bil hwn yw darparu sail ar gyfer datganoli fydd yn para am beth amser. Ni fydd yn gwneud hynny heb roi sylw i'r pwyt awdurdodaeth. Byddwn yn sicr o ddod yn ôl ymheng ychydig flynyddoedd er mwyn ailasesu mater yr awdurdodaeth. Fel y dywedais, ar hyn o bryd beth bynnag mae'r sefyllfa yn bodoli bod yr holl farnwyr o dan lefel yr Uchel Lys i gyd yn eistedd yng Nghymru bellach beth bynnag; mae'n rhaid iddynt gael eu hyfforddi'n arbennig i eistedd yng Nghymru oherwydd bod y gyfraith wedi newid cymaint. Felly, mewn gwirionedd, mae'r awdurdodaeth honno o dan lefel yr Uchel Lys yn bodoli eisoes mewn ffordd de facto. Nid yw hyn yn newid mawr o ran y ffordd y mae'r gyfraith yn cael ei gweinyddu yng Nghymru. Nid yw awdurdodaeth Cymru a Lloegr yn atyniadol i bob rhan o'r byd; y system cyflawnder sy'n atyniadol oherwydd cyflymder cyflawnder, o ran gwthrhychedd cyflawnder. Nid yw'r awdurdodaeth mewn gwirionedd yn rhan ohono, a does dim rheswm pam na all Cymru gael yr un enw da gyda'i hawdurdodaeth hi, gan y byddai'n rhannu'r un system llysoedd.

There are some anomalies in there. Why, for example, should it be that speed limits are devolved, but not road signs, or drink driving limits for that matter? Surely, with our system of bilingual road signs, road signs would be ripe for devolution in Wales. I think I'm right in saying that every time a road sign is produced bilingually, it has to be approved through a special process because it's not seen as a normal road sign, still, after all these years—

Mae rhai anghysonderau yno. Pam, er enghraifft, y dylai terfynau cyflymder fod wedi'u datganoli, ond nid arwyddion fflyrdd, neu derfynau yfed a gyrru o ran hynny? Yn sicr, gyda'n system o arwyddion fflyrdd dwyieithog, byddai arwyddion fflyrdd yn barod i gael eu datganoli yng Nghymru. Rwy'n meddwl fy mod yn iawn yn dweud bob tro y mae arwydd ffordd yn cael ei gynhyrchu'n ddwyieithog, mae'n rhaid iddo gael ei gymeradwyo drwy broses arbennig gan nad yw'n cael ei weld fel arwydd ffordd arferol o hyd, ar ôl yr holl flynyddoedd—

15:31 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

A wnewch gymryd ymyriad?

Will you take an intervention?

15:31 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Wrth gwrs.

Of course.

15:31 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

A ydy'r Ysgrifennydd Gwladol erbyn hyn yn derbyn bod yna ddryswn—hwyrach dryswn sydd yn anfwriadol? Achos mae o'n eithrio cydraddoldeb, er enghraifft, sydd yn creu cwestiynau a fydd gan y lle yma gyfrifoldeb dros yr iaith Gymraeg, neu os oes yna gydraddoldeb rhwng siaradwyr Cymraeg a siaradwyr sydd ddim yn siarad Cymraeg, hwyrach mai mater i San Steffan fyddai i ddeddfu ar yr iaith Gymraeg o hyn ymlaen.

Does the Secretary of State now accept that there is some confusion—perhaps confusion that was not deliberate? Because he has reserved equality, which raises questions as to whether this place would have responsibility for the Welsh language, for example, or if there is equality between Welsh speakers and non-Welsh speakers, perhaps it would be for Westminster to legislate on the Welsh language from now on.

15:32 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Rwyf wedi codi hwn gydag e. Mae e'n derbyn bod hynny'n anghywir; nid felly yw ei fwriad e, ac felly mae hwnnw'n un rhan y bydd yn rhaid delio ag e. Rhywbeth roeddwn i wedi pigo lan ar y dechrau oedd: a yw hwn yn meddwl y bydd cyfrifoldeb dros yr iaith Gymraeg yn cael ei drosglwyddo i San Steffan o bobl Cymru? Nid felly oedd ei fwriad e.

I've raised this with him. He accepts that that is not correct and that's not his intention, so that's one section that would have to be dealt with. Something that we picked up on from the outset is: does this mean that responsibility for the Welsh language should be transferred from the people of Wales to Westminster? Well, that wasn't his intention, certainly.

When it comes to some of the issues that have been mentioned by others, such as policing, there is no reason why policing can't be devolved. It's wrapped up with the idea of police and crime commissioners and the idea that we might abolish PCCs. That's not a good reason as to why that decision should not be devolved to the people of Wales, but that's what it's wrapped up in. When it comes to justice, in time, I think the justice system will naturally develop. It's a big step to devolve the justice system. It does carry a cost, particularly with the prison system as well, but that should not hold back the devolution of a jurisdiction. I think that is something that would help immensely in terms of the drafting of this Bill.

O ran rhai o'r materion sydd wedi cael eu crybwyl gan bobl eraill, megis plísmona, nid oes rheswm pam na all plísmona gael ei ddatganoli. Mae ynglwm wrth y syniad o gomisiynwyr heddlu a throseddu a'r syniad y gallem gael gwared arnynt. Dyw hynny ddim yn rheswm da pam na ddylai'r penderfyniad hwnnw gael ei ddatganoli i bobl Cymru, ond dyna beth y mae yngllwm wrtho. O ran cyflawnder, ymhene amser, rwy'n credu y bydd y system cyflawnder yn datblygu'n naturiol. Cam mawr yw datganoli'r system gyflawnder. Mae'n gostus, yn enwedig gyda'r system carchardai hefyd, ond ni ddylai hynny ddal yn ôl datganoli awdurdodaeth. Credaf fod hynny'n rhywbeth a fyddai o gymorth mawr iawn yn nhermau drafftio'r Bil hwn.

I listened to the leader of Plaid Cymru, and I saw what Jonathan Edwards MP said yesterday that this is in some way the fault of both parties. I don't think anybody could accuse me of being unclear in terms of devolution. I noticed, last week, a member of her own party described me as sounding like Owain Glyndŵr when it comes to the Wales Bill, which, 10 years ago, would have seen me strung up by some members of my own party, but there we are; thank you for that. But, the point is—and the leader of Plaid Cymru has said it again—that we cannot be seen to be second-class citizens as a nation within the UK and to be treated in a way that is seen as inferior by our own people. The fundamental problem with the model as it stands is that whilst it claims to a reserved-powers model, for example, it reserves the law in its entirety. So, in other words, when it comes to the law, it's a conferred-powers model. We are not allowed to—. There are great restrictions on what we can do in terms of altering the law of contract; the law of civil wrongs; the criminal law—restrictions that are not even there now. So, what is the problem that is trying to be resolved here? There seems to be an issue as to whether we would try and change court procedure; that's not what we would try to do, I'd suggest. There seems to be an issue as to whether we'd try to change from a common law jurisdiction to something resembling Scots law. That's not the intention here, but that is what the restrictions seem to imply. So, as I say, we get to a position where we have a parliament that is unable to enforce its own laws. That can't possibly be right for the people of Wales, for the people of Britain and for this institution as it looks to the future.

So, we need a proper reserved-powers model. I listened carefully to what Gwenda Thomas said. She picked on a particular issue, which we had noticed in the Bill, and something, I think, that we can work on in the future. I listened to what the Member for Pontypridd said. The agricultural sector wages Bill is specifically devolved in the Bill, but nevertheless the fundamental point that he makes is right. There are restrictions in the Bill that are not required and would impinge on this Assembly's ability to legislate. If the Member of Parliament for Cardiff North said that, it betrays a fundamental misunderstanding of devolution. The Government at Westminster would have no right to intervene in any laws passed in this place. What would happen is what happens now: they go to the Supreme Court. So, Members end up going through a Bill, taking it through the process of scrutiny, many amendments, and then the Supreme Court strikes it down at the end of the process. That, again, can't possibly be right.

My message to the Secretary of State is this: this has been a debate that has been based on, I think, sense, and based on looking forward; let's reboot this process, and, for goodness' sake, let's get it right for the people of Wales.

Gwrandewais ar arweinydd Plaid Cymru, a gwelais yr hyn a ddywedodd Jonathan Edwards AS ddoe bod bai ar y ddwy blaidd am hyn mewn rhyw ffordd. Nid wyf yn credu y gallai neb fy nghyhuoddu i o fod yn aneglur o ran datganoli. Sylwais, yr wythnos diwethaf, fod aelod o'i phlaid hi ei hun wedi fy nisgrifio i fel rhywun sy'n swnio fel Owain Glyndŵr pan ddaw at fater Bil Cymru. Ddeng mlynedd yn ôl byddai hynny wedi fy ngweld i yn cael fy nghrogi gan rai aelodau o'm plaid fy hun, ond dyna ni; diolch i chi am hynny. Ond y pwyt yw—ac mae arweinydd Plaid Cymru wedi ei ddweud e eto—na allwn gael ein gweld i fod yn ddinas-yddion eilradd fel cenedl o fewn y DU ac i gael ein trin mewn ffordd sy'n cael ei hystyried yn israddol gan ein pobl ein hunain. Y broblem sylfaenol gyda'r model fel y mae yw er ei fod yn honni bod yn fodel cadw pwerau, er enghraifft, mae'n cadw'r gyfraith yn ei chyfarwydd. Felly, mewn geiriau eraill, o ran y gyfraith, mae'n fodel rhoi pwerau. Ni chaniateir i ni—. Mae cyfyngiadau mawr ar yr hyn y gallwn ei wneud o ran newid y gyfraith contract; y gyfraith camweddau sifil; y gyfraith droseddol—cyfyngiadau nad ydynt hyd yn oed yno erbyn hyn. Felly, beth yw'r broblem sy'n ceisio cael ei datrys yma? Ymddengys ei bod yn broblem yngylch a fyddem yn ceisio newid trefn y llys; nid dyna fyddem yn ceisio ei wneud, byddwn i'n awgrymu. Ymddengys ei bod yn broblem yngylch a fyddem yn ceisio newid o awdurdodaeth cyfraith gwlaid i rywbeth tebyg i gyfraith yr Alban. Nid dyna'r bwriad yma, ond ymddengys fod y cyfyngiadau yn awgrymu hynny. Felly, fel y dywedais, rydym yn dod i sefyllfa lle mae gennym senedd nad yw'n gallu gorfodi ei deddfau ei hun. Ni all hynny fod yn iawn i bobl Cymru, i bobl Prydain ac i'r sefydliad hwn wrth iddo edrych i'r dyfodol.

Felly, mae angen model cadw pwerau priodol arnom ni. Gwrandewais yn ofalus ar yr hyn a ddywedodd Gwenda Thomas. Soniodd am fater penodol, yr oeddwn wedi sylwi arno yn y Bil, ac sy'n rhywbeth, rwy'n meddwl, y gallwn weithio arno yn y dyfodol. Gwrandewais ar yr hyn a ddywedodd yr Aelod dros Bontypridd. Mae'r Bil cyflogau sector amaethyddol wedi'i ddatganoli yn benodol yn y Bil, ond serch hynny mae'r pwyt ylfaenol y mae'n ei wneud yn iawn. Mae cyfyngiadau yn y Bil nad ydynt yn ofynnol ac a fyddai'n amharu ar allu'r Cynulliad hwn i ddeddfu. Os dywedodd yr Aelod Seneddol dros Ogledd Caerdydd hynny, mae'n bradychu camdealltwriaeth sylfaenol o ddatganoli. Ni fyddai gan y Llywodraeth yn San Steffan unrhyw hawl i ymyrryd mewn unrhyw ddeddfau a basiwyd yn y lle hwn. Beth fyddai'n digwydd yw'r hyn sy'n digwydd yn awr: maent yn mynd i'r Goruchaf Lys. Felly, mae Aelodau yn y pen draw yn mynd drwy Fil, gan ei gymryd drwy'r broses graffu, llawer o welliannau, ac yna mae'r Goruchaf Lys yn ei daro i lawr ar ddiwedd y broses. Unwaith eto, does bosib y gall hynny fod iawn.

Fy neges i'r Ysgrifennydd Gwladol yw hyn: mae hon wedi bod yn ddadl sydd yn fy marn i wedi'i seilio ar synnwyr, ac yn seiliedig ar edrych ymlaen; gadewch i ni ailgychwyn y broses hon ac, er mwyn popeth, gadewch i ni ei chael yn iawn ar gyfer pobl Cymru.

15:35

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? [Objection.] I will defer voting under this item until voting time.

Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Voting deferred until voting time.

Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Byddaf yn gohirio pleidleisio dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

Daeth Angela Burns i'r Gadair.

Angela Burns took the Chair.

15:35

4. Datganiad: Cyflawni ar gyfer Ein Lluoedd Arfog a'u Teuluoedd

Angela Burns [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Item 4 is a statement by the Minister for Public Services on delivering for our armed forces and their families. I call on the Minister for Public Services, Leighton Andrews.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

4. Statement: Delivering for Our Armed Forces and their Families

Mae Eitem 4 yn ddatganiad gan y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus ar ddarparu ar gyfer ein lluoedd arfog a'u teuluoedd. Galwaf ar y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus, Leighton Andrews.

15:36

Leighton Andrews [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus / The Minister for Public Services

Acting Deputy Presiding Officer, next Sunday Members will, I'm sure, be taking part in remembrance events across Wales to commemorate the contribution of our veterans and our serving armed forces. At the weekend, I attended the Royal British Legion festival of remembrance in Cardiff, along with the leader of the opposition and the leader of the Liberal Democrats, followed by the annual Rhondda remembrance concert on Sunday evening.

This has, of course, also been a year of significant anniversaries. For example, in September, I was privileged to attend the Battle of Britain memorial service in Westminster Abbey. Earlier this year, we had the seventieth anniversary of Victory in Europe Day. And next year, of course, will see the centenary anniversary of the battle of Mametz Wood, and the Welsh Government has been a contributor to the funding of the memorial there. Events such as these remind us that, without the sacrifices made by our armed services, we would not be living in the free society we enjoy today.

We are currently reviewing the Welsh Government's package of support for armed forces personnel and veterans. This sets out the support we are making available across ministerial portfolios, such as education, housing, health and social services, but also through support organisations, such as the Wales probation service and the Royal British Legion. Eligible serving members of the armed forces and ex-service personnel, and their families, of course, benefit from our council tax reduction scheme. The package of support also provides information to armed forces personnel and veterans on services funded through other Government departments. The Welsh Government works closely with these departments on the implementation of such schemes in Wales.

Ddirprwy Lywydd dros dro, ddydd Sul nesaf rwy'n siŵr y bydd yr Aelodau yn cymryd rhan mewn digwyddiadau coffa ledled Cymru i gofio am gyfraniad ein cyn-filwyr a'n lluoedd arfog sy'n gwasanaethu. Ar y penwythnos, bûm yng ngŵyl goffa'r Lleng Brydeinig Frenhinol yng Nghaerdydd, yng nghwmni arweinydd yr wrthblaid ac arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol, ac yn dilyn hynny i gyngerdd coffa Rhondda blynnyddol ar y nos Sul.

Mae eleni, wrth gwrs, hefyd wedi bod yn flwyddyn o ddyddiadau arwyddocaol. Er enghraift, ym mis Medi, cefais y faint o fod yn bresennol yng ngwasanaeth coffa Brwydr Prydain yn Abaty Westminster. Yn gynharach eleni, cafwyd dathliad o ben-blwydd deg a thrigain y Diwrnod Buddugoliaeth yn Ewrop. A bydd y flwyddyn nesaf, wrth gwrs, yn gweld canmlwyddiant brwydr Mametz Wood, ac mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gyfrannwr at gyllido'r gofeb yno. Mae digwyddiadau fel y rhain yn ein hatgoffa na fyddem yn byw yn y gymdeithas rydd yr ydym yn ei mwynhau heddiw heb yr aberth a wnaed gan ein gwasanaethau arfog.

Ar hyn o bryd rydym yn adolygu pecyn cymorth Llywodraeth Cymru ar gyfer personel y lluoedd arfog a chyn-filwyr. Mae hyn yn pennu'r gefnogaeth yr ydym yn sicrhau sydd ar gael ar draws portffolios y Gweinidogion, fel addysg, tai, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, ond hefyd drwy sefydliadau cymorth, megis gwasanaeth prawf Cymru a'r Lleng Brydeinig Frenhinol. Mae aelodau sy'n gwasanaethu yn y lluoedd arfog a chyn-filwyr cymwys, a'u teuluoedd, wrth gwrs, yn elwa ar ein cynllun lleihau'r dreth gyngor. Mae'r pecyn cymorth hefyd yn rhoi gwybodaeth i bersonel a chyn-filwyr y lluoedd arfog ar wasanaethau a ariennir drwy adrannau eraill y Llywodraeth. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda'r adrannau hyn ar roi cynlluniau o'r fath ar waith yng Nghymru.

We know that, for some serving members of the armed forces and veterans, support with health needs is crucial. That is why the Welsh Government has invested £650,000 in improving access to psychological therapies during the current year. We have also commissioned a national action plan that will enable health boards to ensure a consistent provision of talking therapies for everyone, including veterans. Our Veterans' NHS Wales service is, of course, the only one of its kind in the UK. Well over 1,000 veterans have been referred to the service. We supported the Homebuy scheme to cover widows and widowers of personnel killed in action.

The veterans hearing fund will be launched later this month by the Ministry of Defence, providing £10 million, over five years, to enable veterans to access support with hearing loss. The Welsh Government is fully involved with the development of the fund, and will ensure veterans living in Wales have the opportunity to access the fund. We have worked with key partners to develop a referral pathway for serving personnel requiring secondary healthcare. This is an all-Wales service, which prioritises access to treatment for armed service personnel who are actively serving, but unable to undertake duties due to medical needs. Since its start in August last year, 87 people have been referred to the service.

One of the advantages of working in a small country is that we are able to bring together the relevant people into a single room. So, we have been able to hold meetings of community covenant champions twice yearly, attended by all the community covenant champions in local authorities and health boards, along with partners such as the Royal British Legion. In Wales, we were highly successful in promoting the defence privilege card, with an increase of 61 per cent in the numbers using the card as a result of our advertising campaign here in Wales, run jointly with the MOD. This compares to an increase of 24 per cent in the rest of the UK, and means that there are 15,647 members using the card here in Wales.

Our armed forces are entitled to be safe, to live alongside other residents, with mutual understanding and respect. I was privileged to hear about Wales Homes for Veterans during a visit to one of Alabare's homes in July. Alabare is an organisation that offers housing and support to ex-service personnel who are either homeless or at risk of becoming homeless. Speaking with some of the residents was a reminder that we have a duty to support our ex-service personnel, especially those who find difficulty in the transition to civilian life.

I rai aelodau sy'n gwasanaethu yn y lluoedd arfog a chyn-filwyr, rydym yn gwylod bod rhoi cymorth i rai anghenion iechyd yn hanfodol. Dyna pam mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi £650,000 i wella mynediad at therapiâu seicolegol yn ystod y flwyddyn gyfredol. Rydym hefyd wedi comisiynu cynllun gweithredu cenedlaethol a fydd yn galluogi byrddau iechyd i sicrhau darpariaeth gyson o therapiâu siarad i bawb, gan gynnwys cyn-filwyr. Ein gwasanaeth GIG Cymru i gyn-filwyr, wrth gwrs, yw'r unig un o'i fath yn y DU. Mae ymhell dros 1,000 o gyn-filwyr wedi cael eu cyfeirio at y gwasanaeth hwn. Rydym yn cefnogi'r cynllun Cymorth Prynu i gynnwys gwragedd a gwyr gweddwl personol a laddwyd wrth eu gwaith.

Bydd y gronfa clyw i gyn-filwyr yn cael ei lansio yn ddiweddarach y mis hwn gan y Weinyddiaeth Amddiffyn, gan ddarparu £10 miliwn, dros bum mlynedd, er mwyn galluogi cyn-filwyr i fanteisio ar gymorth gyda nam ar y clyw. Mae gan Lywodraeth Cymru ran lawn yn natblygiad y gronfa, a bydd yn sicrhau bod cyn-filwyr sy'n byw yng Nghymru yn cael cyfle i ddefnyddio'r gronfa. Rydym wedi gweithio gyda phartneriaid allweddol i ddatblygu llwybr atgyfeirio ar gyfer gwasanaethu personol sydd angen gofal iechyd eilaidd. Mae hwn yn wasanaeth i Gymru gyfan, sy'n rhoi blaenoriaeth mynediad i driniaeth i bersonol y lluoedd arfog sydd wrthi'n gwasanaethu, ond yn methu ag ymgymryd â dyletswyddau oherwydd anghenion meddygol. Ers dechrau'r gwasanaeth ym mis Awst y llynedd, mae 87 o bobl wedi cael eu hatgyfeirio ato.

Un o fanteision gweithio mewn gwlad fechan yw ein bod yn gallu dod â'r bobl berthnasol ynghyd i un ystafell. Felly, rydym wedi gallu cynnal cyfarfodydd o hyrwyddwyr cyfamod cymunedol ddywywaith y flwyddyn, gyda'r holl hyrwyddwyr cyfamod cymunedol mewn awdurdodau lleol a byrddau iechyd yn bresennol, ynghyd â phartneriaid megis y Lleng Brydeinig Frenhinol. Yng Nghymru, buom yn llwyddiannus iawn yn hyrwyddo'r cerdyn braint amddiffyn, gyda chynnydd o 61 y cant yn y niferoedd sy'n defnyddio'r cerdyn o ganlyniad i'n hymgyrch hysbysebu yma yng Nghymru, a redir ar y cyd â'r Weinyddiaeth Amddiffyn. Mae hyn yn cymharu â chynnydd o 24 y cant yng ngweddill y Deyrnas Unedig, ac mae'n golygu bod 15,647 o aelodau yn defnyddio'r cerdyn yma yng Nghymru.

Mae gan ein lluoedd arfog yr hawl i fod yn ddiogel, i fyw ochr yn ochr â thrigolion eraill, gyda chyd-ddealltwriaeth a pharch. Cefais y faint o glywed am Gartrefi Cymru ar gyfer Cyn-filwyr yn ystod ymweliad ag un o gartrefi Alabaré ym mis Gorffennaf. Mae Alabaré yn sefydliad sy'n cynnig tai a chymorth i gyn-filwyr sydd naill ai'n ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref. Roedd siarad gyda rhai o'r trigolion yn ein hatgoffa bod gennym ddyletswydd i gefnogi ein cyn-filwyr, yn enwedig y rhai sy'n ei chael yn anodd yn y cyfnod pontio i fywyd sifil.

In May, I told the Chamber that the Minister for Education and Skills and I would be jointly sponsoring the launch of Supporting Service Children in Education Cymru. This took place on 23 June. This is an initiative that provides guidance, advice and signposting to service children in education in Wales. This initiative has helped the Nepalese community, settling in Brecon as part of the Gurkha regiment, increase community cohesion. Mount Street Nursery and Infant School has appointed Nepali-speaking learning support assistants to support pupils in their learning and hold events to integrate parents and pupils into the community.

We are also providing support for those people leaving the armed forces who want to start in business. For example, support from our business start-up programme has enabled Neil Jones, an ex-member of the services, to set up a textile bank business that provides employment opportunities for local people, but also raises funds for the Soldiers, Sailors, Airmen and Families Association. It is enabling them to provide lifelong support for the armed forces and their families. Others have been supported through our further and higher education commitment scheme.

We know that reservists bring a wealth of transferrable skills to the workplace. Leadership, decision-making and communication skills are assets any employer would be proud to have. The Welsh Government currently employs reservists and benefits from their varied qualities and skills as we deliver our programme for government. We received a silver award from the MOD's employer recognition scheme for our reservist policy. We will continue to promote and support reservists within the Welsh Government.

A minority of personnel leaving the armed forces find life challenging and have difficulty adjusting to civilian life. Unfortunately, in some circumstances, this can lead to involvement with the police or the criminal justice system. Welsh Government officials, in partnership with the Integrated Offender Management Cymru team, are developing a whole-system approach to service provision for veterans in the criminal justice system in Wales. The aim of this approach is to reduce reoffending and to maximise the deployment of combined public resources for the best effect.

During these challenging times, working together is the key platform on which to base more effective service delivery for those from our armed services community who need support. The Welsh Government will continue to work with other organisations to help meet their needs.

When we launch our refreshed support package, it will represent a commitment across ministerial portfolios and through our partnerships to support our armed forces and veterans. We want them to access and receive the support they rightly deserve.

Ym mis Mai, dywedais wrth y Siambwr y byddai'r Gweinidog Addysg a Sgiliau a minnau yn cyd-noddi lansiad Cefnogi Plant Gwasanaeth mewn Addysg Cymru. Digwyddodd hyn ar 23 Mehefin. Mae hon yn fenter sy'n darparu arweiniad, cyngor a chyfeiriad i blant gwasanaeth mewn addysg yng Nghymru. Mae'r fenter hon wedi helpu'r gymuned Nepalaid, sy'n setlo yn Aberhonddu fel rhan o'r gatrawd Gurkha, i gynyddu cydlyniant cymunedol. Mae Meithrinfa ac Ysgol Fabanod Stryd Mount wedi penodi cynorthwywyr cymorth dysgu sy'n siarad Nepali i gefnogi disgylion yn eu dysgu ac yn cynnal digwyddiadau i integreiddio rhieni a disgylion i mewn i'r gymuned.

Rydym hefyd yn darparu cymorth i'r bobl hynny sy'n gadael y lluoedd arfog ac sydd am ddechrau mewn busnes. Er enghraift, mae cefnogaeth gan ein rhaglen dechrau busnes wedi galluogi Neil Jones, cynaelod o'r gwasanaethau, i sefydlu busnes banc tecstilau sy'n darparu cyfleoedd cyflogaeth i bobl leol, ond sydd hefyd yn codi arian ar gyfer y Gymdeithas Milwyr, Morwyr, Awyrenwyr a Theuluoedd. Mae'n eu galluogi i ddarparu cymorth gydol oes ar gyfer y lluoedd arfog a'u teuluoedd. Mae eraill wedi cael eu cefnogi drwy ein cynllun ymrwymiad addysg bellach ac uwch.

Rydym yn gwybod bod milwyr wrth gefn yn dod â chyfoeth o sgiliau trosglwyddadwy i'r gweithle. Mae arweinyddiaeth, sgiliau gwneud penderfyniadau a chyfathrebu yn asedau y byddai unrhyw gyflogwr yn falch o'u cael. Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn cyflogi milwyr wrth gefn ac yn elwa o'u nodweddion a'u sgiliau amrywiol wrth i ni gyflawni ein rhaglen lywodraethu. Cawsom wobr arian o gynllun cydnabod cyflogwyr y Weinyddiaeth Amddiffyn ar gyfer ein polisi milwyr wrth gefn. Byddwn yn parhau i hyrwyddo a chefnogi milwyr wrth gefn o fewn Llywodraeth Cymru.

Mae lleiafrif o bersonél sy'n gadael y lluoedd arfog yn cael bywyd yn heriol ac yn cael anhawster addasu i fywyd sifil. Yn anffodus, mewn rhai amgylchiadau, gall hyn arwain at ymwneud â'r heddlu neu'r system cyflawnder troseddol. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth â thîm Integredig Rheoli Troseddwyr Cymru, yn datblygu dull system gyfan o ddarparu gwasanaeth ar gyfer cyn-filwyr yn y system cyflawnder troseddol yng Nghymru. Nod y dull hwn yw lleihau aildroseddu a gwneud y mwyaf o'r defnydd o adnoddau cyhoeddus cyfunol i gael yr effaith orau.

Yn ystod y cyfnod heriol hwn, cydweithio yw'r llwyfan allweddol i seilio darparu gwasanaeth mwy effeithiol ar gyfer y rhai o'n cymuned lluoedd arfog sydd angen cefnogaeth. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda sefydliadau eraill er mwyn helpu i ddiwallu eu hanghenion.

Pan fyddwn yn lansio ein pecyn cymorth ar ei newydd wedd, bydd yn cynrychioli ymrwymiad ar draws portffolios y Gweinidogion a thrwy ein partneriaethau i gefnogi ein lluoedd arfog a chyn-filwyr. Rydym am iddynt gael mynediad a derbyn y gefnogaeth y maent yn ei haeddu.

Diolch. Thank you very much indeed, and thank you for your statement. I fully endorse your comment that, without the sacrifices made by our armed services, we would not be living in the free society we enjoy today.

You are currently reviewing the Welsh Government's package of support for armed forces personnel and veterans. What assessment of need are you carrying out, or have you carried out, both in terms of physical and mental injuries sustained in consequence of military service, housing need and wider support and transition? Clearly, to provide and assess the need for support, you have to know what that need to meet is.

You refer to, in this context, talking therapies, psychological therapies and the Veterans' NHS Wales service. How many people have completed the NHS Wales service treatment? You referred to 1,000 referrals, but not how many have actually completed. How are outcomes being monitored, because it's not just the treatment, it's what results and the improvement in people's lives in consequence? We know that, of an estimated 200,000 armed forces veterans living in Wales, some 10,000 suffer from complex post-traumatic stress disorder, with attempted symptom suppression by alcohol or drug abuse, the downward spiral of employment difficulties, relationship problems, confrontation with the law and even suicide.

Earlier this year, I welcomed your announcement—in fact, no, the announcement by your colleague the Deputy Minister for Health of £100,000 recurrent funding for Veterans' NHS Wales. It was a shame we'd had to fight for months alongside the Royal British Legion, SSAFA and Veterans' NHS Wales themselves to secure that. But, how do you respond to the concern raised by clinicians at the cross-party group on armed forces and reserves that funding for the service is still well below equivalent funding for Scotland and England, and they actually needed £0.5 million to start doing outreach work in Welsh prisons with female veterans, families of veterans, and serving personnel sick at home or going to be medically discharged to the NHS? This was a key concern and, clearly, it touches on many of the matters that you referred to also in your statement today.

Diolch. Diolch yn fawr iawn yn wir, a diolch i chi am eich datganiad. Rwyf yn llwyr gymeradwyo'r sylwadau na fyddem, heb yr aberth a wnaed gan ein gwasanaethau arfog, yn byw yn y gymdeithas rydd yr ydym yn ei mwynhau heddiw.

Ar hyn o bryd rydych yn adolygu pecyn cymorth Llywodraeth Cymru ar gyfer personel y lluoedd arfog a chyn-filwyr. Pa asesiad o angen ydych chi'n ei gynnal, neu yr ydych wedi'i gynnal, o ran anafiaidau corfforol a meddyliol a gafwyd o ganlyniad i wasanaeth milwrol, yr angen am dai a chefnogaeth ehangach a phontio? Yn amlwg, i ddarparu ac asesu'r angen am gefnogaeth, rhaid i chi wybod beth yw'r angen er mwyn ei fodloni.

You made reference to the community covenants that are in place amongst local authorities in Wales, and I think it's fantastic that Wales has been the first nation in the UK to have all of our local authorities subscribing to an armed forces community covenant. But, I think it's really important that those community covenants aren't just documents which are sat on the shelf, but that actually there are changes in the way that local authorities operate as a result of them. We've got some excellent practice—some local authorities have engaged really well with their covenants and have put them to good use—but there are others that haven't perhaps implemented significant change in the way they operate. I know that the Welsh Government is seeking to ensure that best practice is rolled out amongst them. Perhaps you could just comment on the precise actions that you're taking so that the learning of those good local authorities in that respect can be shared.

Gwnaethoch gyfeirio at y cyfamodau cymunedol sydd ar waith ymhliith awdurdodau lleol yng Nghymru, ac rwy'n meddwl ei fod yn wych mai Cymru oedd y genedl gyntaf yn y DU i gael pob un o'n hawdurdodau lleol yn tanysgrifio i gyfamodau cymunedol lluoedd arfog. Ond rwy'n credu ei bod hi'n bwysig nad yw'r cyfamodau cymunedol hynny yn ddim ond dogfennau sy'n cael eu gosod ar y silff yn unig, a bod newidiadau mewn gwirionedd yn y ffordd y mae awdurdodau lleol yn gweithredu o ganlyniad iddynt. Mae gennym rai arferion ardderchog—mae rhai awdurdodau lleol wedi ymgysylltu'n dda iawn gyda'u cyfamodau ac wedi gwneud defnydd da ohonynt—ond mae eraill nad ydnt o bosibl wedi gweithredu newid sylweddol yn y ffordd y maent yn gweithredu. Gwn fod Llywodraeth Cymru yn ceisio sicrhau bod yr arferion gorau yn cael eu cyflwyno yn eu plith. Efallai y gallech roi sylwadau ar yr union gamau yr ydych yn eu cymryd fel y gellir rhannu dysgu'r awdurdodau lleol da hynny yn hynny o beth.

You've made reference to Veterans' NHS Wales—an incredible innovation, something which I wholeheartedly support. But, there are capacity problems in that service. The extra money was indeed most welcome that the Welsh Government committed earlier this year, and I was pleased to note that the Welsh Government has said that that is recurrent funding. But, there is still a gap in capacity, and as more people become aware of that service it's important that the resources available to it are kept under constant review. I wonder whether you could confirm that those resources are being kept under review, and that more might be available in the future should it be necessary.

In addition to that, there are some issues with some local health boards not perhaps engaging as well as they could with the support organisations such as the Royal British Legion, SSAFA and the Defence Medical Welfare Service when people who are members of the armed forces family are in hospital—particularly those who are in-patients. Very often, those organisations can offer support with home adaptations, welfare advice et cetera which is tailored specifically to those individuals in those circumstances. I wonder, Minister, whether you would look at armed forces champions in local health boards, perhaps, being more engaged at gaining and sharing the expertise that those organisations have and embracing it when it's offered to them in order to support their patients.

Just finally, I noted the reference to Alabaré's homes and, of course, these are being developed in other parts of Wales beyond Pontypridd. But, they have come up against some opposition sometimes from local communities because of misunderstanding, really, about what those homes have to offer to those people who are going to be staying in them receiving support. I wonder, Minister, what support you're giving to organisations like Alabaré that are seeking to develop these services, which are innovative, but come up against that sort of community opposition in order that they can break down those barriers, sometimes, which can exist through misunderstanding.

Rydych chi wedi cyfeirio at GIG Cymru i Gyn-filwyr—arloesi anhygoel, rhywbeth yr wyf yn ei gefnogi'n llwyr. Ond mae problemau capaciti yn y gwasanaeth hwnnw. Roedd gwir groeso i'r arian ychwanegol y gwaeth Llywodraeth Cymru ei ymrwymo yn gynharach eleni, ac roeddwn yn falch o nodi bod Llywodraeth Cymru wedi dweud bod hwnnw'n gyllid rheolaidd. Ond mae bwlc'h o ran capaciti, ac wrth i fwy o bobl ddod yn ymwybodol o'r gwasanaeth hwnnw, mae'n bwysig bod yr adnoddau sydd ar gael iddo yn cael eu hadolygu'n gyson. Tybed a allech gadarnhau bod yr adnoddau hynny'n cael eu hadolygu'n gyson, ac y gallai mwya fod ar gael yn y dyfodol pe bai angen.

Yn ogystal â hynny, mae rhai materion gyda rhai byrddau iechyd lleol efallai nad ydynt yn ymgysylltu cystal ag y gallent gyda'r sefydliadau cefnogi megis y Lleng Brydeinig Frenhinol, SSAFA a'r Gwasanaeth Lles Amddiffyn Meddygol pan fydd pobl sy'n aelodau o'r teulu lluoedd arfog yn yr ysbyty—yn enwedig y rhai sy'n gleifion mewnol. Yn aml iawn, gall y sefydliadau hynny gynnig cymorth gydag addasiadau i'r cartref, cyngor lles ac ati, sydd wedi ei deilwra'n benodol i'r unigolion hynny yn yr amgylchiadau hynny. Tybed, Weinidog, a fyddch yn ceisio annog hyrwyddwyr lluoedd arfog mewn byrddau iechyd lleol, o bosibl, i ymgysylltu mwy o ran ennill a rhannu'r arbenigedd sydd gan y sefydliadau hynny a'i gofleidio pan gaiff ei gynnig iddynt, er mwyn cefnogi eu cleifion.

Yn olaf, nodais y cyfeiriad at gartrefi Alabaré ac, wrth gwrs, mae'r rhain yn cael eu datblygu mewn rhannau eraill o Gymru y tu hwnt i Bontypridd. Ond maent wedi dod ar draws rhywfaint o wrthwnebiad weithiau gan gymunedau lleol oherwydd camddealltwriaeth, mewn gwirionedd, am yr hyn sydd gan y cartrefi hynny i'w gynnig i'r bobl hynny sydd yn mynd i fod yn aros yn ynddynt yn derbyn cymorth. Tybed, Weinidog, pa gymorth ydych chi'n ei roi i sefydliadau fel Alabaré sy'n ceisio datblygu'r gwasanaethau hyn, sy'n arloesol, ond sy'n wynebu'r math hwnnw o wrthwnebiad cymunedol, fel y gallant chwalu'r rhwystrau hynny weithiau sy'n gallu yn bodoli drwy gamddealltwriaeth.

16:11

Leighton Andrews [Bywgraffiad Biography](#)

Can I again thank the Member for Clwyd West for his support for our programme? Let me start by saying that yes, of course, we will be publishing our review of the package of support. I think it is probably wise for us to wait until we have seen the outcome of the comprehensive spending review—I referred to it earlier as a minimum package of support and I would certainly want to do what we can to ensure it is a platform on which we build.

I welcome very much what he said about the support of local authorities in respect of the community covenant and the armed forces champions that we have in Wales. I think it's been very good to be able to host twice yearly those events with armed forces community champions within local authorities, where there has been the opportunity for those individuals to learn from one another. Best practice is exchanged at those events, and there's nothing like, I think, getting people together, rather than circulating materials online or in other forums. So, I think they have played a very important and valuable role.

A gaf i unwaith eto ddiolch i'r Aelod dros Orllewin Clwyd am ei gefnogaeth i'n rhaglen? Gadewch i mi ddechrau drwy ddweud y byddwn, wrth gwrs, yn cyhoeddi ein hadolygiad o'r pecyn cymorth. Credaf ei bod fwy na thebyg yn ddoeth i ni aros nes ein bod wedi gweld canlyniad yr adolygiad cynhwysfawr o wariant—cyfeiriai ato yn gynharach fel pecyn cymorth isafswm a byddwn yn sicr yn awyddus i wneud yr hyn a allwn i sicrhau ei fod yn llwyfan y gallwn adeiladu arno.

Croesawaf yn fawr yr hyn a ddywedodd am gymorth yr awdurdodau lleol o ran y cyfamod cymunedol a'r hyrwyddwyr lluoedd arfog sydd gennym yng Nghymru. Rwy'n credu ei fod wedi bod yn dda iawn i allu cynnal ddwywaith y flwyddyn y digwyddiadau hynny gyda hyrwyddwyr cymunedol lluoedd arfog o fewn awdurdodau lleol, lle bu cyfle i'r unigolion hynny ddysgu gan ei gilydd. Mae arfer gorau yn cael ei gyfnewid yn y digwyddiadau hynny, a does dim byd tebyg, yn fy marn i, i gael pobl at ei gilydd, yn hytrach na dosbarthu deunyddiau ar-lein neu mewn fforymau eraill. Felly, rwyf yn meddwl eu bod wedi chwarae rhan bwysig a gwerthfawr iawn.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

In respect of spending on the NHS Wales veterans scheme, he is aware—as he said, to be fair—that the additional investment of £100,000 is recurrent from this year. We think that that has enabled the service to enter a steady state, and it has been able to manage capacity within existing resources. Waiting lists, of course, have been reduced as a result of the investment that we've made. So, I think, at this stage, we are satisfied with the performance of that service and we've not had any recent reason to question whether or not the capacity needs to be reviewed.

In respect of the engagement of local health boards, certainly this is a matter for the champions within local health boards. I am not aware myself—I've not had raised with me any specific examples, I think, that I can recall in the last few months of problems in particular health board areas. If the Member is aware of any, no doubt he will bring them to my attention, or to the attention of the health Minister in due course.

In respect of the challenges faced by organisations like Alabaré, at a local level, when they are seeking to establish new facilities, I do think that, at the end of the day, is a matter for that organisation and the relationships it builds within the local community and with the relevant local authority. I don't think it's for the Welsh Government to get involved in those issues, which could, in some cases, involve planning matters which we'd rightly not be getting involved in except through a formal process.

Daeth y Dirprwy Lywydd i'r Gadair.

O ran gwariant ar y cynllun GIG Cymru i gyn-filwyr, mae'n ymwybodol—fel y dywedodd, i fod yn deg—bod y buddsoddiad ychwanegol o £100,000 yn rheolaidd o eleni ymlaen. Rydym yn credu bod hynny wedi galluogi'r gwasanaeth i fynd i gyflwr sefydlog, ac mae wedi gallu rheoli capaciti o fewn adnoddau presennol. Mae rhestrau aros, wrth gwrs, wedi cael eu lleihau o ganlyniad i'r buddsoddiad yr ydym wedi'i wneud. Felly, rwy'n meddwl, ar hyn o bryd, ein bod yn fodlon gyda pherfformiad y gwasanaeth hwnnw ac nid ydym wedi cael unrhyw reswm yn ddiweddar i gwestiynu a oes angen adolygu'r capaciti.

O ran ymgysylltu â byrddau iechyd lleol, yn sicr mae hwn yn fater i'r hyrwyddwyr o fewn byrddau iechyd lleol. Nid wyf yn ymwybodol fy hun—ni chodwyd unrhyw enghreifftiau penodol gyda mi, rwy'n meddwl, y gallaf gofio amdanynt yn yr ychydig fisoeedd diwethaf o broblemau mewn ardal oedd byrddau iechyd penodol. Os yw'r Aelod yn ymwybodol o unrhyw un, yn ddiau bydd yn eu dwyn at fy sylw, neu at sylw'r Gweinidog iechyd yn y man.

O ran yr heriau a wynebir gan sefydliadau fel Alabaré, ar lefel leol, pan fyddant yn ceisio sefydlu cyfleusterau newydd, rwy'n meddwl, ar ddiwedd y dydd, ei fod yn fater i'r sefydliad hwnnw a'r berthynas y mae'n adeiladu o fewn y gymuned leol ac â'r awdurdod lleol perthnasol. Nid wyf yn credu y dylai Llywodraeth Cymru gymryd rhan yn y materion hynny, a allai, mewn rhai achosion, gynnwys materion cyllunio y byddem yn iawn i beidio â chymryd rhan ynddynt ac eithrio drwy broses ffurfiol.

The Deputy Presiding Officer took the Chair.

16:13

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:14

5. Datganiad: Adroddiad ar Gyflwr yr Ystâd

Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Item 5 is a statement by the Minister for Finance and Government Business on the 'State of the Estate' report. I call on the Minister, Jane Hutt.

5. Statement: State of the Estate **Y Report**

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:14

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business

Deputy Presiding Officer, today I am pleased to announce publication of the seventh annual Welsh Government 'State of the Estate' report, which details the efficiency and environmental performance of the Welsh Government's administrative estate.

Eitem 5 yw datganiad gan Weinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth ar adroddiad 'Cyflwr yr Ystad'. Galwaf ar y Gweinidog, Jane Hutt.

With the Welsh Government's budget 8 per cent lower in real terms in 2015-16 than it was in 2010-11, this report sets out our progress against three key priorities over the last financial year and also over the whole 2010-15 location strategy period.

Gan fod cyllideb Llywodraeth Cymru 8 y cant yn is mewn termau real yn 2015-16 nag yr oedd yn 2010-11, mae'r adroddiad hwn yn nodi ein cynydd yn erbyn tair blaenoriaeth allweddol dros y flwyddyn ariannol ddiwethaf, a hefyd dros gyfnod cyfan strategaeth leoli 2010-15.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Those priorities are, firstly, to rationalise the overall size of the administrative estate, secondly, to increase the efficiency of the offices within the estate, and thirdly, to improve the environmental performance of the remaining buildings.

Our approach has been underpinned by the development and implementation of a five-year location strategy aimed at optimising the efficiency of our administrative estate and reducing operating costs. This approach has meant that we can redirect resource where it is most needed—to the delivery of front-line services. Over the last five years, our effective and proactive management of the core administrative estate has ensured that we make best use of our buildings. By vacating and disposing of surplus property and making carefully targeted capital investment, we've reduced expenditure and improved the efficiency, performance and environmental impact of our core buildings.

Over the 2014-15 period, our achievements have included a reduction of 2.7 per cent in the overall size of the Welsh Government estate, which equates to 2,277 sq m and a reduction in the number of Welsh Government office locations across Wales from 29 to 25. Space efficiency: the amount of space occupied per employee has improved across the estate by 8.13 per cent. There's been a reduction in carbon emissions of nearly 8 per cent, or 772 tonnes of carbon dioxide, compared with last year.

This March marked the successful delivery of our 2010 to 2015 location strategy. Our strategy sought to improve the efficiency and effectiveness of our properties, sustaining Welsh Government jobs and offices in key locations in support of local economies. This approach has delivered against all three of our core priorities. We have reduced the overall size of the administrative estate from 75 to 33 properties, comprising 25 office locations and eight specialist properties. We've achieved this whilst retaining a presence across many parts of Wales. We've improved the efficiency of our buildings, reducing occupied floor space by almost 19,000 sq m in five years. This has resulted in gross savings amounting to £19 million over the period, together with recurrent annual running cost savings of £6.8 million. And we have improved the environmental performance of the estate over the five-year period by achieving a 32.4 per cent reduction in carbon emissions. This is a significant contribution to the delivery of the Government's climate change objectives.

We anticipate further reductions to the Welsh budget and, looking to the future, it is crucial to prepare for the ongoing impact of austerity whilst also seeking to invest in the long term. Given the financial context and building on what we have achieved, we have designed the next phase of the Welsh Government location strategy to cover the period 2015 to 2020. The challenge for the strategy is to provide the right property infrastructure that delivers efficiencies now and in the future, whilst ensuring the sustainable delivery of Government business and services to the people of Wales.

Y blaenoriaethau hynny yw, yn gyntaf, rhesymoli maint yr ystad weinyddol yn ei chyfarwydd, yn ail, cynyddu effeithlonrwydd y swyddfeydd sydd yn yr ystad, ac yn drydydd, gwella perfformiad amgylcheddol yr adeiladau sydd ar ôl.

Sail ein hymagwedd yw datblygu a gweithredu strategaeth leoli pum mlynedd sydd â'r nod o sicrhau bod ein hystad weinyddol mor effeithlon â phosibl a lleihau costau gweithredu. Golyga'r dull hwn ein bod ni'n gallu ailgyfeirio adnoddau i'r lle y mae fwyaf ei angen—ar gyfer cyflwyno gwasanaethau rheng flaen. Dros y pum mlynedd diwethaf, mae ein rheolaeth effeithiol a rhagweithiol o'r ystad weinyddol graidd wedi sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o'n hadeiladau. Drwy wacáu a chael gwared ar eiddo nad yw'n cael ei ddefnyddio a gwneud buddsoddiadau cyfalaif sydd wedi'u targedu'n ofalus, rydym ni wedi lleihau gwariant a gwella effeithlonrwydd, perfformiad ac effeithiau amgylcheddol ein hadeiladau craidd.

Dros y cyfnod 2014-15, mae ein llwyddiannau wedi cynnwys gostyngiad 2.7 y cant ym maint cyffredinol ystad Llywodraeth Cymru, sy'n cyfateb i 2,277 metr sgwâr a gostyngiad yn nifer swyddfeydd Llywodraeth Cymru ledled Cymru o 29 i 25. Mae effeithlonrwydd lle: y maint o le a ddefnyddir fesul gweithiwr, wedi gwella gan 8.13 y cant ar draws yr ystad. Bu gostyngiad mewn allyriadau carbon o bron i 8 y cant, neu 772 tunnell o carbon deuocsiad, o gymharu â'r llynedd.

Gwelodd mis Mawrth gyflawniad ein strategaeth leoli 2010-2015. Roedd ein strategaeth yn ceisio gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ein heiddo, cynnal swyddi a swyddfeydd Llywodraeth Cymru mewn lleoliadau allweddol i gefnogi economiau lleol. Mae'r dull hwn wedi llwyddo yn erbyn pob un o'n tair blaenoriaeth graidd. Rydym ni wedi lleihau maint cyffredinol yr ystad weinyddol o 75 i 33 eiddo, sy'n cynnwys 25 o lleoliadau swyddfa ac wyth eiddo arbenigol. Rydym ni wedi cyflawni hyn gan gadw presenoldeb mewn sawl rhan o Gymru. Rydym ni wedi gwella effeithlonrwydd ein hadeiladau, gan leihau'r arwynebedd llawr a ddefnyddir gan bron i 19,000 metr sgwâr mewn pum mlynedd. Mae hyn wedi arwain at arbedion gros o £19 miliwn dros y cyfnod, yn ogystal â'r arbedion o ran y gost rhedeg blynyddol rheolaidd o £6.8 miliwn. Ac rydym ni wedi gwella perfformiad amgylcheddol yr ystad dros y cyfnod pum mlynedd drwy gyflawni gostyngiad o 32.4 y cant mewn allyriadau carbon. Mae hwn yn gyfraniad sylwedol tuag at gyflawni amcanion newid yn yr hinsawdd y Llywodraeth.

Rydym ni'n rhagweld gostyngiadau pellach i gyllideb Cymru ac, wrth edrych i'r dyfodol, mae'n hanfodol i baratoi ar gyfer effaith barhaus cyni gan geisio buddsoddi yn y tymor hir yn ogystal. O ystyried y cyd-destun ariannol a gan adeiladu ar yr hyn yr ydym ni wedi'i gyflawni, rydym ni wedi cynllunio cam nesaf strategaeth leoli Llywodraeth Cymru ar gyfer y cyfnod 2015-2020. Yr her ar gyfer y strategaeth yw darparu'r seilwaith eiddo cywir a fydd yn cyflawni arbedion ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, gan sicrhau'r ddarpariaeth gynaliadwy o fusnes a gwasanaethau'r Llywodraeth i bobl Cymru.

Our core priorities remain the same. We will continue to provide a dispersed estate in the right locations to support Government business, maximising savings through continued estate rationalisation and the transformation and modernisation of our workplaces. These aims align with our vision of not only making the best use of Welsh Government resources, but also ensuring that our buildings are safe and managed sustainably, efficiently and are fit for purpose.

The location strategy is an integral part of our focused business change and improvement programme, 'Preparing for the Future'. This programme is taking a more innovative look at how we define our priorities, how we do our work and what we need to improve to help us deliver more effectively for the people of Wales.

Finally, our overseas estate is included in this report for the first time. These offices are vital to our efforts to increase international trade and investment, promote tourism and culture, and enhance the profile of Wales across the world. The inclusion of this information further demonstrates how the office estate activity supports the business of Government and the delivery of positive outcomes for the people of Wales.

Mae ein blaenoriaethau craidd yn aros yr un fath. Byddwn yn parhau i ddarparu ystad wasgaredig yn y lleoliadau cywir i gefnogi busnes y Llywodraeth, gan wneud cymaint â phosib o arbedion drwy barhau i resymoli'r ystad a gweithleoedd. Mae'r nodau hyn yn cyd-fynd â'n gweledigaeth o nid yn unig gwneud y defnydd gorau o adnoddau Llywodraeth Cymru, ond hefyd sicrhau bod ein hadeiladau yn ddiogel ac yn cael eu rheoli mewn ffورد sy'n gynaliadwy, a'u bod yn effeithlon ac yn addas i'w diben.

Mae'r strategaeth leoli yn rhan annatod o'n rhaglen â phwyslais newid a gwella busnes, 'Paratoi ar gyfer y Dyfodol'. Mae'r rhaglen hon yn cymryd golwg fwy arloesol ar sut yr ydym yn diffinio ein blaenoriaethau, sut yr ydym yn gwneud ein gwaith a'r hyn y mae angen i ni ei wella i'n helpu i gyflawni'n fwy effeithiol ar ran pobl Cymru.

Yn olaf, mae ein hystad dramor wedi ei chynnwys yn yr adroddiad hwn am y tro cyntaf. Mae'r swyddfeydd hyn yn hanfodol i'n hymdrehchion i gynyddu masnach a buddsoddiad rhyngwladol, hyrwyddo twristiaeth a diwylliant, a gwella proffil Cymru ar draws y byd. Mae'r ffaith bod y wybodaeth hon yn cael ei chynnwys yn dangos ymhellach sut mae gweithgaredd yr ystad swyddfeydd yn cefnogi busnes y Llywodraeth ac yn cyflawni canlyniadau cadarnhaol i bobl Cymru.

16:19

Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Can I welcome the Minister's statement today on the state of the estate? I do notice that the opening line of the report laments an 8 per cent real-terms cut to the Assembly's budget since 2010. Once again, I am rather bemused that the Welsh Government doesn't apply the same real-terms methodology to Welsh Government NHS cuts, which are always in cash terms. But I'm sure, Minister, that you have your reasons for that.

Turning to the statement, we on the Welsh Conservative benches welcome any increases in the efficiency of Welsh Government offices and the estate in general. I'm sure that the same can be said for the public who often lament the cost of all of us here and, indeed, Government in general and also want to see greater efficiencies, which are absolutely necessary. Your statement lists your achievements. Turning to these, how do these reductions that you've outlined tally with your targets? Are we on target? Are we behind or ahead of schedule? Perhaps more importantly, are these permanent reductions that you've outlined? Specifically, the reduction of office space, offices, from 29 to 25—again, are these permanent office reductions, or are they the product of temporary or transient reorganisations?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

A gaf i groesawu datganiad y Gweinidog heddiw ar gyflwr yr ystad? Rwyf yn sylwi bod llinell agoriadol yr adroddiad yn gresynu toriad o 8 y cant mewn termau real i gyllideb y Cynulliad ers 2010. Unwaith eto, rwyf yn ei chael hi'n anodd deall nad yw Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r un fethodeleg termau real i ddisgrifio toriadau GIG Llywodraeth Cymru, sydd bob amser mewn termau arian parod. Ond rwy'n siŵr, Weinidog, bod gennych chi eich rhesymau dros wneud hynni.

Gan droi at y datganiad, rydym ni ar feinciau'r Ceidwadwyr Cymreig yn croesawu unrhyw gynnydd mewn effeithlonrwydd swyddfeydd Llywodraeth Cymru a'r ystad yn gyffredinol. Rwyf yn siŵr bod hynny'n wir am y cyhoedd hefyd, sy'n aml yn gresynu cost pob un ohonom ni yma ac, yn wir, y Llywodraeth yn gyffredinol. Maen nhw hefyd eisiau gweld mwy o effeithlonrwydd, sy'n gwbl angenrheidiol. Mae eich datganiad yn rhestru eich llwyddiannau. Gan droi at y rhain, sut mae'r gostyngiadau yr ydych chi wedi'u hamlinellu yn cyfateb i'ch targedau? A ydym ni ar y trywydd iawn? A ydym ni y tu ôl i'r amserlen neu ar y blaen iddi? Yn bwysicach efallai, a yw'r gostyngiadau hyn a amlinellwyd gennych yn barhaol? Yn benodol, y gostyngiad o le swyddfa, swyddfeydd, o 29 i 25—unwaith eto, a yw'r rhain yn ostyngiadau parhaol o ran swyddfeydd, neu a ydynt yn ganlyniad i ad-drefnu dros dro neu fyrhoedlog?

Secondly, the next few years, as you and I know very well, will see the devolution of a number of tax powers leading up to 2018 when the tax powers kick in in April of that year. The Finance Committee is in the middle of scrutinising the proposals for a Welsh revenue authority and there will, of course, be a cost to that, although those costs do remain unclear. Do you expect that we will see an increase in future costs of the Welsh Government associated with that devolution of tax powers and the associated staffing and office costs? What I'm trying to say is: are we basically seeing a tightening of the Government belt at this point, now, in advance of what could be an unprecedented slackening of the Welsh Government estate budget and all that that will involve? Can you assure us that you were including all associated Government functions funded by the Government in your figures, including the effect on arm's-length organisations? Because if we see bodies like the Welsh revenue authority being set up, then, yes, they might not be technically Government departments in the traditional sense, but they will be receiving their funding and their guidance from yourself and from the Government in general.

Turning to your comments on the overseas estate, which I welcome, there have been a number of concerns about this in the past. I'm pleased that these figures have made it into this annual report; that's not before time. Of course, an overseas presence is vital, as you say; no-one in this Chamber would disagree with that. I think, probably, the real question, of course, is: are we getting value for money? Is the taxpayer getting value for money? I have to say that that is not entirely clear from this report and it needs to be. There are some very expensive locations outlined in this report and mentioned in your statement today. How are you demonstrating that the taxpayer is getting the return that they would expect and that value for money is being received?

Finally, Deputy Presiding Officer, I note that, tucked away in the figures, the average cost per square metre of Welsh Government estate space has risen from around £212 to £220—a 3.88 per cent increase to be exact. Do you expect this rise to continue in future?

Yn ail, yn yr ychydig flynyddoedd nesaf, fel y gwyddoch chi a minnau'n dda iawn, byddwn yn gweld nifer o bwerau treth yn cael eu datganoli yn y cyfnod sy'n arwain tuag at 2018 pan fydd y pwerau trethu yn dod i rym ym mis Ebrill y flwyddyn honno. Mae'r Pwyllgor Cyllid yng nghanol craffu ar y cynigion ar gyfer awdurdod refeniw Cymru a bydd cost, wrth gwrs, i hynny, er bod y costau hynny yn dal i fod yn aneglur. A ydych chi'n disgwl y byddwn ni yn gweld cynnydd o ran y costau i Llywodraeth Cymru yn y dyfodol sy'n gysylltiedig â datganoli'r pwerau trethi hynny a'r costau staffio a swyddfa sy'n gysylltiedig? Yr hyn yr wyf i'n ceisio ei ddweud yw: a ydym ni yn y bôn yn gweld y Llywodraeth yn ceisio gwneud ar lai yn y fan yma, nawr, cyn yr hyn a allai fod yn llacio digynsail ar gyllideb ystad Llywodraeth Cymru a phopeth y bydd hynny yn ei olygu? A allwch chi ein sicrhau ni eich bod yn cynnwys yr holl swyddogaethau'r Llywodraeth cysylltiedig a ariennir gan y Llywodraeth yn eich ffigurau, gan gynnwys yr effaith ar sefydliadau hyd braich? Oherwydd os ydym yn gweld cyrff fel awdurdod refeniw Cymru yn cael eu sefydlu, ac yna, ie, efallai nad ydynt yn adrannau'r Llywodraeth mewn gwirionedd, yn yr ystyr draddodiadol, ond byddant yn derbyn eu cyllid a'u harweiniad gennych chi a gan y Llywodraeth yn gyffredinol.

Gan droi at eich sylwadau ar yr ystad dramor, a chroesawaf hynny, bu nifer o bryderon am hyn yn y gorffennol. Rwyf yn falch bod y ffigurau hyn wedi eu cynnwys yn rhan o'r adroddiad blynnyddol hwn; mae'n hen bryd i hynny ddigwydd. Wrth gwrs, mae cael presenoldeb dramor yn hanfodol, fel y dywedwch; ni fyddai unrhyw un yn y Siambraon yn anghytuno â hynny. Rwyf yn meddwl, yn ôl pob tebyg, mai'r cwestiwn mewn gwirionedd, wrth gwrs, yw: a ydym ni'n cael gwerth am arian? A yw'r trethdalwr yn cael gwerth am arian? Mae'n rhaid i mi ddweud nad yw hynny'n gwbl glir o'r adroddiad hwn ac mae angen iddo fod yn glir. Mae rhai lleoliadau drud iawn yn cael eu hamlinellu yn yr adroddiad hwn ac yn cael eu crybwyl yn eich datganiad chi heddiw. Sut ydych chi'n dangos bod y trethdalwr yn cael yr adenillion y mae'n ei disgwl a bod gwerth am arian yn cael ei dderbyn?

Yn olaf, Ddirprwy Lywydd, rwyf yn nodi, yn cuddio yn y ffigurau, bod y gost gyfartalog fesul metr sgwâr o le yn ystad Llywodraeth Cymru wedi codi o tua £212 i £220—cynnydd o 3.88 y cant i fod yn fanwl gywir. A ydych chi'n disgwl y bydd y cynnydd hwn yn parhau yn y dyfodol?

Diolch yn fawr iawn, Nick Ramsay. Wrth gwrs, mae'r duedd mewn gwariant cyhoeddus yn mynd i barhau yn ôl ein rhagolygon ariannol heriol parhaus. Gwn y byddwch yn cydnabod ein bod wedi cyflawni llawer iawn o ran effeithlonrwydd. Y tair blaenoriaeth a nodwyd gennyl fi o ran fy natganiad oedd: rhesymoli maint cyffredinol yr ystad weinyddol; cynyddu effeithlonrwydd y swyddfeydd o fewn yr ystad; ac yn bwysig, rhywbeth nas gwnaethoch chi sylwadau amdano yn eich ymateb, pwysigrwydd gwella perfformiad amgylcheddol yr ystad.

16:23

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you very much, Nick Ramsay. Of course, the trend in public spending is set to continue with our continually challenging financial outlook. I know that you will recognise that we have achieved a great deal in terms of the efficiency. The three priorities that I laid out in terms of my statement were: rationalising the overall size of the administrative estate; increasing efficiency of the offices within the estate; and importantly, which you did not comment on in your response, the importance of improving the environmental performance of the estate.

Senedd.tv
[Video](#) [Video](#)

I think it is important to recognise—I won't repeat my statement—the achievements, but in relation to the targets, if you look at the location strategy from 2010 to 2015, we have achieved our target to reduce the estate to just 33 properties—26 offices and seven specialist sites—compared with 75 properties—65 offices and 10 specialist sites in 2010. They are real changes; they are permanent changes. We've decreased the size of the estate substantially whilst continuing—and I think this is an important point to make to the whole Assembly—to manage the estate on a regional basis. We're sustaining Welsh Government jobs and offices in key locations in support of local economies. And given the importance of the environmental targets, we have achieved a 32.4 per cent reduction in carbon emissions for the estate.

In terms of future targets for 2020, they've been included, as you can see, in the report this year and these targets are just initial figures at this stage based upon potential proposals of the location strategy 2015-20, and we will refine these figures over the course of the year to establish key performance indicators. They're reliant on best practice standards and public sector guidelines. It is important that we recognise that, as we take on new responsibilities—and I'm reporting back and being scrutinised, rightly and properly, about our new powers and responsibilities, which, of course, will include the prospects of further administrative estate in terms of the Welsh revenue authority as a non-Government department. Clearly, we have to take that into account as we move forward, but the targets that I've set us in terms of the location strategy are also very stringent and transparent in terms of moving forward with those key performance indicators.

I welcome the fact that you make the point about the overseas estate. It has, as you say, been included for the first time this year. Those properties are, of course, held to generate economic benefit and advantage for Wales and that is, principally, through their activities in the fields of business, tourism and education. If we look at the 14 representations that we have in seven countries—Belgium, China, Ireland, Japan, United Arab Emirates and the US, and also nine representations that are co-located—I think that's an important point—we're co-locating within Foreign and Commonwealth Office embassies, where possible, high commissions or consulates. That's often alongside Scottish representation, for example, as well. You know, the co-location is important to ensure value for money and reduce running costs, but if you look at running costs for 2014-15 for our overseas estate, it represented a 32 per cent reduction from 2010-11.

Rwy'n credu ei bod yn bwysig cydnabod—ni fyddaf yn ailadrodd fy natganiad—y llwyddiannau, ond o ran y targedau, os edrychwr chi ar strategaeth leoli 2010-2015, rydym ni wedi cyflawni ein targed i ostwng yr ystad i ddim ond 33 o adeiladau—26 o swyddfeydd a saith safle arbenigol—o'i gymharu â 75 o adeiladau—65 o swyddfeydd a 10 safle arbenigol yn 2010. Mae'r rhain yn newidiadau gwirioneddol; maen nhw'n newidiadau parhaol. Rydym ni wedi lleihau maint yr ystad yn sylweddol gan barhau—ac rwy'n credu bod hyn yn bwynt pwysig i'w wneud i'r Cynulliad cyfan—i reoli'r ystad ar sail ranbarthol. Rydym yn cynnal swyddi a swyddfeydd Llywodraeth Cymru mewn lleoliadau allweddol i gefnogi economiau lleol. Ac o ystyried pwysigrwydd y targedau amgylcheddol, rydym ni wedi cyflawni 32.4 y cant o ostyngiad mewn allyriadau carbon ar gyfer yr ystad.

O ran targedau'r dyfodol ar gyfer 2020, maen nhw wedi eu cynnwys, fel y gwelwch, yn adroddiad eleni, ond dim ond ffigurau cychwynnol yw'r targedau hyn ar hyn o bryd sydd yn seiliedig ar y cynigion posibl yn strategaeth leoli 2015-20, a byddwn yn mireinio'r ffigurau hyn yn ystod y flwyddyn i sefydlu dangosyddion perfformiad allweddol. Maent yn ddibynnol ar safonau arfer gorau a chanllawiau'r sector cyhoeddus. Mae'n bwysig ein bod yn cydnabod, wrth inni ymgymryd â chyfrifoldebau newydd—ac rwyf i'n adrodd yn ôl ac yn cael fy nghraffu, yn gywir ac yn briodol, am ein pwerau a'n cyfrifoldebau newydd, sydd, wrth gwrs, yn cynnwys y rhagolygon o ystad weinyddol ychwanegol o ran sefydlu awdurdod refeniw Cymru fel adran ar wahân i'r Llywodraeth. Yn amlwg, mae'n rhaid i ni ystyried hynny wrth inni symud ymlaen, ond mae'r targedau yr wyf wedi eu gosod o ran y strategaeth leoli hefyd yn llym iawn ac yn dryloyw o ran symud ymlaen â'r dangosyddion perfformiad allweddol hynny.

Croesawf y ffaith eich bod yn codi'r pwynt am yr ystad dramor. Mae hi wedi, fel y dywedwch, ei chynnwys am y tro cyntaf eleni. Mae'r eiddo hwnnw, wrth gwrs, yn fanteisiol o ran cynhyrchu budd economaidd a mantais i Gymru, ac mae hynny, yn bennaf, drwy ei weithgareddau ym meysydd busnes, twristiaeth ac addysg. Os edrychwn ar y 14 cynrychiolaeth sydd gennym mewn saith gwlad—Gwlad Belg, Tsieina, Iwerddon, Japan, yr Emiraethau Arabaidd Unedig a'r Unol Daleithiau, a hefyd y naw cynrychiolaeth sydd wedi eu cyd-leoli—. Credaf fod hynny'n bwynt pwysig —ein bod ni'n cyd-leoli o fewn llysgenadaethau'r Swyddfa Dramor a Swyddfa'r Gymanaiol, lle bo modd, ac uchel gomisiynau neu swyddfeydd is-genhadon. Mae hynny'n aml ochr yn ochr â chynrychiolaeth yr Alban, er enghraift, hefyd. Wyddoch chi, mae'r cydleoli yn bwysig er mwyn sicrhau gwerth am arian a lleihau costau rhedeg, ond os edrychwr chi ar y costau ar gyfer 2014-15 am ein hystad dramor, roedd yn cynrychioli gostyngiad o 32 y cant o'i gymharu â 2010-11.

Mike Hedges [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I very much welcome the statement, the annual report and the great progress made in both efficiency and environmental performance. With the substantial and continuing cuts by the Westminster Conservative Government, driven by ideological dislike of the public sector, there is a need to make as many cost reductions as possible that minimise the reduction of services to the public. I welcome the development and implementation of a five-year location strategy reducing operating costs. I further welcome the proactive management of the cost of the administrative estate and ensuring the best use of Government buildings, thus improving efficiency—again, a Labour Government committed to efficiency. Two questions: will the Government look at finding improved accommodation in London and is there a final optimum size of the estate the Government is working towards?

Rwyf yn croesawu'r datganiad yr adroddiad blynnyddol a'r cynnydd mawr a wnaed o ran effeithlonrwydd a pherfformiad amgylcheddol yn fawr iawn. Oherwydd y toriadau sylweddol a pharhaus gan y Llywodraeth Geidwadol yn San Steffan, sy'n cael ei sbarduno gan anhoffter ideolegol o'r sector cyhoeddus, mae angen gwneud cymaint o ostyngiadau mewn costau ag y bo modd gan leihau cyn lleied â phosibl ar y gwasanaethau i'r cyhoedd. Rwyf yn croesawu'r gwaith o ddatblygu a gweithredu strategaeth leoli pum mlynedd sy'n lleihau costau gweithredu. Rwyf yn croesawu ymhellach y rheolaeth ragweithiol o gost yr ystad weinyddol a sicrhau'r defnydd gorau o adeiladau'r Llywodraeth, a fydd o ganlyniad yn gwella effeithlonrwydd—unwaith eto, Llywodraeth Lafur sydd wedi ymrwymo i effeithlonrwydd. Dau gwestiwn: A fydd y Llywodraeth yn edrych ar sicrhau lleoliad gwell yn Llundain ac a oes maint delfrydol terfynol i'r ystad y mae'r Llywodraeth yn gweithio tuag ato?

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Mike Hedges, for your very measured and constructive response, and recognition of—which, of course, I did also receive from Nick Ramsay as well. But, importantly, we have taken and made every effort, not only to improve the efficiency and management of the Welsh Government estate, but also, of course, to ensure we do that in the context of shrinking public finances, but also recognising that it is vital that we do have that presence throughout Wales to meet not only the needs in terms of delivering on our services and budgets, but also the outward-facing delivery of the estate, which, of course, is so crucial in terms of the businesses and economy of Wales.

Diolch i chi, Mike Hedges, am eich ymateb pwyllog ac adeiladol iawn, a'ch cydnabyddiaeth—a dderbynias hefyd, wrth gwrs, gan Nick Ramsay. Ond, yn bwysig, rydym ni wedi gwneud pob ymdrech, nid yn unig i wella effeithlonrwydd a rheolaeth ystad Lywodraeth Cymru, ond hefyd, wrth gwrs, i sicrhau ein bod ni yn gwneud hynny yng nghyd-destun cyliid cyhoeddus sy'n lleihau, gan gydnabod hefyd ei bod yn hanfodol i ni gael presenoldeb ledled Cymru i fodloni nid yn unig yr angen o ran cyflawni yn ein gwasanaethau a chyllidebau, ond hefyd y cyflawni o ran wyneb allanol yr ystad, sydd, wrth gwrs, mor hanfodol o ran busnesau ac economi Cymru.

Alun Ffred Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mae hwn yn adroddiad cynhwysfawr. Mae yna gyfeiriad at arbedion yma a lleihad mewn allyriadau carbon, sydd i'w groesawu. Mae o hefyd yn dangos unwaith eto, wrth gwrs, mai'r ardal sydd yn elwa o ran swyddi yn bennaf ydy Caerdydd, fel y buasech chi'n disgwyl, a'r de-ddwyrain. Felly, un cwestiwn sydd gen i: a fu, yn ystod pum mlynedd diwethaf o'r strategaeth yma, unrhyw ddatganoli o swyddi allan o Gaerdydd i'r gorllewin, y canolbarth neu'r gogledd?

Felly, rwyf yn meddwl bod eich cwestiwn o ran y swyddfa yn Llundain, sydd, mewn gwirionedd, yn un o wyth eiddo y tu allan i gwmpas yr adroddiad o'r ystad—. Mae'r swyddfa yn Llundain yn un o'r rheini, a saith o eiddo a gedwir at ddefnydd arbenigol. Mae'r swyddfa yn Llundain wedi bod yn effeithiol iawn, mae'n hygyrch ac mewn lleoliad da. Yn wir, yn ddiddorol, mewn cyfarfod pwylgor gweinidogol ar y cyd yn ddiweddar gyda chydweithwyr o'r Alban a Gogledd Iwerddon-rodden nhw wedi ymweld â'n swyddfeydd, gan eu bod yn teimlo bod arnyn nhw angen yr un math o lleoliad yng nghanol Llundain, yng nghalon y brifddinas, er mwyn eu galluogi i sicrhau eu bod yn gallu cyflawni eu busnes.

Wrth edrych ymlaen, rydych chi'n cyfeirio at y ffaith y bydd yna resymoli pellach, ac y bydd yna naw swyddfa yn cau, ac felly 16 fydd y nifer ymhen pum mlynedd. Mae hyn yn golygu bydd yna ganoli swyddi pellach, wrth gwrs. Ryw'n gwybod o brofiad fod yna nifer fawr o swyddi wedi diflannu o Gaernarfon er mwyn cael eu lleoli yn Llandudno. Mae hyn yn gofyn cwestiwn wedyn ynglŷn â'r hyn rydym ni'n sôn amdano yn aml yn y lle yma, sef cymunedau cynaliadwy. Mae swyddi yn bwysig, ac os ydych chi'n symud, er enghraift, i Landudno—mi allai fod yn unrhyw ran o Gymru, wrth gwrs—bydd hynny'n golygu bod yna fwy o deithio, ac y bydd yn cau pobl allan o swyddi os ydyn nhw'n byw mewn ardaloedd ymylol, gwledig. Felly, y cwestiwn sydd gen i ynglŷn â hynny ydy: wrth edrych ymlaen at ran nesaf y strategaeth, a wnewch chi gadarnhau na fydd colled o ran canran y swyddi sydd ar hyn o bryd yn y gwahanol ranbarthau o Gymru?

Rydych chi'n cyfeirio hefyd at gost yr ystâd ac mae ffigurau yma. Mae'r tablau yma yn rhai dadlennol iawn ac yn gynhwysfawr iawn. Rydych yn sôn am gost cynnal yr ystâd a'r lleihad a fu yn y costau hynny. A yd'y costau hynny yn cynnwys unrhyw fuddsoddiad rydych wedi ei wneud yn yr ystâd er mwyn, efallai, gwella effeithlonrwydd ynni yr adeiladau yma? Os nad ydy o'n cynnwys costau'r buddsoddiad hwnnw, a allwch chi roi cost y buddsoddiad hwnnw i ni un ai heddiw neu mewn ysgrifenn yn nes ymlaen?

Rydych chi'n cyfeirio hefyd at y ffaith bod yna 38 o safleoedd sydd wedi eu cau. Faint o'r rheini sydd wedi eu gwerthu, a beth oedd y derbyniant yn ystod y pum mlynedd diwethaf yma?

Yn olaf, jest o ran gwybodaeth, gan fy mod i'n ymwneud ag ymchwiliad arall ynglŷn ag eiddo sydd yn berchen y Llywodraeth, neu a oedd yn berchen y Llywodraeth: pwy sydd yn rheoli'r ystâd yma? A oes gennych uned benodol gyda sgiliau arbenigol sydd yn gyfrifol am weithredu'r strategaeth rydych yn ei gweithredu ar hyn o bryd? Diolch yn fawr.

In looking forward, you refer to further rationalisation and that nine offices are to close so that the total number will be 16 in five years' time. This means that there will be a further decentralisation of posts, of course. I know from experience that many jobs disappeared from Caernarfon, to be relocated to Llandudno. This then begs the question on what we regularly discuss in this place, namely sustainable communities. Jobs are important, and, if you move, for example, to Llandudno—although it could be anywhere else in Wales, of course—that does mean longer travel times and it does exclude people from posts if they live in rural and peripheral areas. Therefore, the question that I have on that issue is: in looking forward to the next part of the strategy, will you confirm that there will be no losses in terms of the percentage of posts that are currently in the various regions of Wales?

You also refer to the cost of the estate and the figures are set out. The tables are very revealing indeed and are very comprehensive. You mention the cost of the estate maintenance and the reduction in those costs. Do those costs include any investments that you've made in the estate, perhaps to enhance energy efficiency within those properties? If they don't include those investment costs, can you give us those figures either today or in writing at a later date?

You also refer to the fact that 38 sites have been closed. How many of these have been sold, and what were the receipts during the past five years?

Finally, just as a point of information, because I am involved in another inquiry on Government-owned property, or property that was once owned by Government: who actually manages this estate? Do you have a specific unit with expertise that is responsible for implementing the strategy that you are currently putting in place? Thank you.

16:32

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch yn fawr, Alun Ffred Jones. I think it is very important that—. Again, I won't repeat the key principles and priorities of the location strategy, but as I said, it is very important that this is an all-Wales location strategy. Challenging in terms of not only the willingness, but the state of the estate, which requires investment, perhaps via particular investment; for example, the investment in Cardiff in terms of Cathays park. The ongoing investment of course is inevitable, but something that we have to undertake. You asked about investment. For example, we also have investment in Picton Terrace in Carmarthen, which is ongoing as well as Cathays. That's incremental investment, and it is about modernising these work spaces to improve efficiency, to reduce operating costs and to create modern, properly designed, supportive workplaces for staff.

Senedd.tv
[Video](#) [Video](#)

Diolch yn fawr, Alun Ffred Jones. Credaf ei bod yn bwysig iawn bod—. Unwaith eto, nid wyf am ailadrodd egwyddorion a blaenorïaethau allweddol y strategaeth leoli, ond fel y dywedais, mae'n bwysig iawn bod hon yn strategaeth leoli ledled Cymru gyfan. Strategaeth sy'n herio nid yn unig o ran parodrwydd, ond hefyd cyflwr yr ystad, sydd angen buddsoddiad, efallai drwy fuddsoddiad penodol; er enghraift, y buddsoddiad yng Nghaerdydd o ran Parc Cathays. Mae'r buddsoddiad parhaus wrth gwrs yn anochel, ond yn rhywbeth y mae'n rhaid inni ei wneud. Gofynasoch am fuddsoddiad. Er enghraift, rydym ni hefyd wedi buddsoddi yn Heol Picton yng Nghaerfyrddin, sydd yn parhau, yn ogystal ag yn Cathays. Buddsoddiad fesul cam yw hwnnw, ac mae'n ymwneud â moderneiddio'r lleoedd gwaith hyn i wella effeithlonrwydd, i leihau costau gweithredu a chreu gweithleoedd modern, sydd wedi eu cynllunio yn briodol, ac sy'n cefnogi staff.

I'm sure Members will agree this is a vital tool in tackling bad practices. Information, education and persuasion are always the preferred options for securing improvement, but, of course, legislation has teeth. For the first time, we'll be able to prevent rogue landlords from having any involvement with their tenants. It will also be possible, if necessary, to shut down those letting agencies that thrive on taking advantage of some of the most vulnerable in society.

Rwy'n siŵr y bydd yr Aelodau'n cytuno bod hwn yn offeryn hanfodol i fynd i'r afael ag arferion drwg. Gwybodaeth, addysg a pherswâd yw'r dewisiadau a ffefrir bob tro ar gyfer sicrhau gwelliant, ond, wrth gwrs, mae gan ddeddfwriaeth ddannedd. Am y tro cyntaf, byddwn yn gallu atal landlordiniaid twyllodrus rhag cael unrhyw gysylltiad â'u tenantiaid. Bydd hefyd yn bosib, os oes angen, cau'r asiantaethau gosod hynny sy'n ffynnu ar gymryd mantais ar rai o'r bobl fwyaf agored i nived mewn cymdeithas.

Turning to the specific points raised by Members, I'm very disappointed but not surprised the Welsh Conservatives won't be supporting this debate. The code has been completely revamped since the original one, and it's following comments from committee members and Assembly Members in general, so it's a very, very different document to the one that was taken forward by my predecessor.

I droi at y pwyntiau penodol a gododd yr Aelodau, rwy'n siomedig iawn, ond nid wedi fy synnu, na fydd Ceidwadwyr Cymru yn cefnogi'r ddadl hon. Mae'r cod wedi ei ailwampio'n llwyr ers yr un gweiddiol, gan ddilyn sylwadau gan aelodau'r pwylgor ac Aelodau'r Cynulliad yn gyffredinol, felly mae'n ddogfen wahanol iawn, iawn i'r un a gafodd ei chyflwyno gan fy rhagflaenydd.

Jocelyn Davies raised the point that some of it will become obsolete. Well, I can't pre-empt that the renting homes Bill will pass—I very much hope it will, and, certainly, we've got Stage 3 next week—but, clearly, you're right, we will have to revisit. But it is very much—and this is what Peter Black was asking about—an organic document; it's very much a living document, and we will have to revisit it throughout its lifetime.

Cododd Jocelyn Davies y pwynt y bydd rhywfaint ohono'n dyddio. Wel, ni allaf achub y blaen ar basio'r Bil rhentu cartrefi—rwy'n mawr obeithio y bydd yn pasio, ac, yn sicr, mae gennym Gyfnod 3 yr wythnos nesaf—ond, yn amlwg, rydych yn iawn, bydd rhaid inni ailedrych ar hyn. Ond mae'n bendant—a dyma beth oedd Peter Black yn gofyn amdano—yn ddogfen organig; mae'n bendant yn ddogfen fyw, a bydd rhaid inni ailedrych arni drwy gydol ei hoes.

There will be a tenants guide, which will enable tenants to know, again, what their rights and obligations are, and I would urge all Members to support this. Thank you.

Bydd canllaw i denantiaid, a fydd yn galluogi tenantiaid i wybod, unwaith eto, beth yw eu hawliau a'u rhwymedigaethau, a byddwn yn annog pob Aelod i gefnogi hyn. Diolch.

16:59 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? [Objection.] I defer voting until voting time.

Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Gohiraf y bleidlais tan y cyfnod pleidleisio.

Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

Voting deferred until voting time.

16:59 **8. Trefn Ystyried y Gwelliannau ar gyfer y Bil Rhentu Cartrefi (Cymru)**

Y [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Item 8 is the order of consideration of amendments for the Renting Homes (Wales) Bill. I call on the Minister for Communities and Tackling Poverty to move the motion—Lesley Griffiths.

8. Order of Consideration of Amendments for the Renting Homes (Wales) Bill

Cynnig NDM5859 Jane Hutt

Motion NDM5859 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â Rheol Sefydlog 26.36:

To propose that the National Assembly for Wales in accordance with Standing Order 26.36:

Yn cytuno i waredu'r adrannau a'r atodlenni i'r Bil Rhentu Cartrefi (Cymru) yng Nghyfnod 3 yn y drefn a ganlyn:

Agrees to dispose of sections and schedules to the Renting Homes (Wales) Bill at Stage 3 in the following order:

a) adrannau 7 i 29

a) sections 7 to 29,

b) adrannau 31 i 88

b) sections 31 to 88,

c) adrannau 90 i 101

c) sections 90 to 101,

d) adrannau 103 i 119

d) sections 103 to 119,

e) adrannau 121 i 131

e) sections 121 to 131,

f) adrannau 133 i 146

f) sections 133 to 146,

g) adrannau 148 i 257

g) sections 148 to 257,

h) Atodlenni 2 i 11

h) Schedules 2 to 11,

i) adran 30

i) section 30,

j) adran 89

j) section 89,

k) adran 102

k) section 102,

l) adran 120

l) section 120,

m) adran 132

m) section 132,

n) adran 147	n) section 147,	
o) adrannau 1 i 4	o) sections 1 to 4,	
p) Atodlen 1	p) Schedule 1,	
q) adrannau 5 i 6	q) sections 5 to 6,	
r) teitl hir.	r) long title.	
<i>Cynigiwyd y cynnig.</i>	<i>Motion moved.</i>	
16:59 Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography	<i>Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty</i>	Senedd.tv Fideo Video
Formally.	Yn ffurfiol.	
16:59 Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography	<i>Nid oes gennyl unrhyw siaradwyr.</i>	Senedd.tv Fideo Video
I have no speakers.		
The proposal is to agree the motion. Does any Member object? The motion is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.	Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly, mae'r cynnig wedi ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.	
<i>Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36</i>	<i>Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36</i>	
16:59 9. Dadl ar Benderfyniad Ariannol y Bil Lefelau Diogel Staff Nrysio (Cymru)	9. Debate on the Financial Resolution of the Safe Nurse Staffing Levels (Wales) Bill	Y Senedd.tv Fideo Video
Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography		
Item 9 is a debate on the financial resolution of the Safe Nurse Staffing Levels (Wales) Bill. I call on the Minister for Health and Social Services to move the motion—Mark Drakeford.	Eitem 9 yw dadl am benderfyniad ariannol y Bil Lefelau Diogel Staff Nrysio (Cymru). Galwaf ar y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i gynnig y cynnig—Mark Drakeford.	
Cynnig NDM5858 Jane Hutt	Motion NDM5858 Jane Hutt	
Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, at ddibenion unrhyw ddarpariaethau sy'n deillio o'r Bil Lefelau Diogel Staff Nrysio (Cymru), yn cytuno i unrhyw gynnydd mewn gwariant o'r math y cyfeiriwyd ato yn Rheol Sefydlog 26.69, sy'n codi o ganlyniad i'r Bil.	To propose that the National Assembly for Wales, for the purposes of any provisions resulting from the Safe Nurse Staffing Levels (Wales) Bill, agrees to any increase in expenditure of a kind referred to in Standing Order 26.69, arising in consequence of the Bill.	
<i>Cynigiwyd y cynnig.</i>	<i>Motion moved.</i>	
16:59 Mark Drakeford Bywgraffiad Biography	<i>Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services</i>	Senedd.tv Fideo Video
Formally.	Yn ffurfiol.	
16:59 Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography	<i>Nid oes gennyl unrhyw siaradwyr.</i>	Senedd.tv Fideo Video
I have no speakers.		
The proposal is to agree the motion. Does any Member object? The motion is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.	Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae'r cynnig wedi ei dderbyn felly yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.	

10. Dadl ar Adolygiad Blynnyddol y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ar gyfer 2014-2015

Detholwyd y gwelliant canlynol: gwelliant 1 yn enw Aled Roberts.

16:59

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Item 10 is a debate on the Equality and Human Rights Commission Wales annual report—or annual review, rather. I call on the Minister for Communities and Tackling Poverty to move the motion—Lesley Griffiths.

Cynnig NDM5856 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi Arolygiad Blynnyddol y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 'Llunio dyfodol cydraddoldeb a hawliau dynol'

Cynigiwyd y cynnig.

17:00

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty

Thank you, Presiding Officer. I'm delighted we are holding this debate today allowing us to recognise the work of the Equality and Human Rights Commission in 2014-15. The commission's annual review, 'Shaping the future of equality and human rights', highlights the work they've undertaken to maintain the momentum towards a fairer and more inclusive Wales.

The commission in Wales has a unique role as the regulator of the public sector equality duty. Its regulatory function ensures the public sector, as service providers and employers, are accountable for their actions under the Equality Act 2010 and the Welsh-specific equality duties.

In July 2014, the EHRC published their review of the public sector equality duty in Wales. The evidence in the review complemented the feedback Welsh Government received from public sector organisations on the effectiveness of the duty. The review also greatly assisted us in drafting the very first Welsh Ministers report on equality, which was published in December 2014. Both the EHRC review and our report were clear that a substantial amount of progress had already been realised across the public sector.

10. Debate on the Equality and Human Rights Commission Wales Annual Review 2014-2015

The following amendment has been selected: amendment 1 in the name of Aled Roberts.

Motion NDM5856 Jane Hutt

To propose the National Assembly of Wales:

Notes the Equality and Human Rights Commission Wales Annual Review 'Shaping the future of equality and human rights'.

Motion moved.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Diolch, Lywydd. Rwyf wrth fy modd ein bod yn cynnal y ddadl hon heddiw i'n galluogi i gydnabod gwaith y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn 2014-15. Mae adolygiad blynnyddol y comisiwn, 'Llunio dyfodol cydraddoldeb a hawliau dynol', yn tynnu sylw at y gwaith y mae wedi'i wneud i gynnal y momentwm tuag at Gymru decach a mwy cynhwysol.

Mae'r comisiwn yng Nghymru yn chwarae rhan unigryw fel rheoleiddiwr dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus. Mae ei swyddogaeth reoleiddio'n sicrhau bod y sector cyhoeddus, fel darparwyr gwasanaethau a chyflwynwyr, yn atebol am ei weithredoedd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a'r dyletswyddau cydraddoldeb sy'n benodol i Gymru.

Ym mis Gorffennaf 2014, cyhoeddodd y Comisiwn ei arolwg o ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus yng Nghymru. Roedd y dystiolaeth yn yr adolygiad yn ategu'r adborth a gafodd Llywodraeth Cymru gan sefydliadau sector cyhoeddus ynglŷn ag effeithiolwydd y dyletswydd. Roedd yr adolygiad hefyd o gymorth mawr inni wrth ddrafftio adroddiad cyntaf Gweinidogion Cymru ar gydraddoldeb, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2014. Roedd adolygiad y Comisiwn, a'n hadroddiad ni, yn glir bod cynnydd sylweddol eisoes wedi'i wneud ar draws y sector cyhoeddus.

The public sector equality duty has been, and is, a catalyst for change. It has unquestionably driven public sector improvement across Wales. Having jurisdiction and control over equality would help us create a fairer society. This would ensure that, as well as safeguarding existing protections for equality, we could continue to advance equality across many walks of life. Therefore, Welsh Government, along with the EHRC, has publicly called for greater devolution of equality legislation, particularly the public sector equality duty. We've requested both a strengthening and improved clarity of devolved legislative competence in respect of equality in our submissions as part of the Silk commission review and, more recently, through the Wales Bill scrutiny process. We've made clear the Assembly should have legislative competence to give functions to the EHRC. This will enable changes to be made to their accountability structure to ensure these complement the devolved legislative competence on equality being sought for this Assembly. We want to work closely with the UK Government in this regard. We are doing all we can to ensure the requests of the Welsh Government in this respect are being taken forward.

The First Minister has reiterated the Wales Bill should not row back on our existing competence. What it should do is drive the devolution settlement further forward. We all recognise and welcome the commission's unwavering commitment to encourage, guide and monitor the public sector, examples of which can be seen throughout their annual review. For example, the commission published guidance on Gypsy and Traveller sites, recognising the inequalities experienced by this community regarding their accommodation preferences. The guidance outlines the responsibilities of councillors and county councils in meeting their statutory obligations. Welsh Government has also taken a proactive approach. The Housing (Wales) Act 2014 reintroduced a duty upon local authorities to provide Gypsy and Traveller sites where there is unmet need in Gypsy and Traveller accommodation assessments.

To support the new duty, we've allocated an additional £2 million for 2015-16 via the Gypsy and Traveller sites capital grant, bringing the total fund to £3.5 million. We have fully allocated this funding to significant site extensions across Wales.

The EHRC's review also recognises the discrimination and hate crime affecting Muslim communities in recent times. The focal point of the EHRC's annual lecture, 'Challenging Islamophobia', was topical and highlighted the negative impact of hate crime, which not only harms the victim but also the community they live in. It is therefore even more important today to build stronger, safer and inclusive communities in Wales. This can only be achieved through public service collaboration and partnership working across all agencies. Partnership working across all sectors underpins the work of the EHRC and is vital to making progress on the equality and human rights agenda.

Mae dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus wedi bod, ac mae'n dal i fod, yn gatalydd ar gyfer newid. Yn ddihamheol, mae wedi sbarduno gwariant yn y sector cyhoeddus ledled Cymru. Byddai cael awdurdodaeth a rheolaeth dros gydraddoldeb yn ein helpu i greu cymdeithas decach. Byddai hyn yn sicrhau, yn ogystal â diogelu amddiffyniadau presennol ar gyfer cydraddoldeb, y gallem barhau i hyrwyddo cydraddoldeb mewn llawer o feysydd bywyd. Felly, mae Llywodraeth Cymru, ynghyd â'r Comisiwn, wedi galw'n gyhoeddus am fwy o ddatganoli deddfwriaeth cydraddoldeb, yn enwedig dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus. Rydym wedi gofyn am i gymhwysedd deddfwriaethol datganoledig gael ei gryfhau a'i wneud yn fwy eglur o ran cydraddoldeb yn ein cyflwyniadau yn rhan o adolygiad comisiwn Silk ac, yn fwy diweddar, drwy broses graffu Bil Cymru. Rydym wedi ei gwneud yn glir y dylai fod gan y Cynulliad gymhwysedd deddfwriaethol i roi swyddogaethau i'r Comisiwn. Bydd hyn yn galluogi newidiadau i'w strwythur atebolwyd i sicrhau bod y rhain yn ategu'r cymhwysedd deddfwriaethol datganoledig ar gydraddoldeb sy'n cael ei geisio ar gyfer y Cynulliad hwn. Hoffem weithio'n agos â Llywodraeth y DU yn hyn o beth. Rydym yn gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau bod ceisiadau Llywodraeth Cymru yn hyn o beth yn cael sylw.

Mae'r Prif Weinidog wedi ailadrodd na ddylai Bil Cymru leihau ein cymhwysedd presennol. Yr hyn y dylai ei wneud yw sbarduno'r setliad datganoli yn bellach yn ei flaen. Rydym i gyd yn cydnabod ac yn croesawu ymrwymiad diysgog y comisiwn i annog, arwain a monitro'r sector cyhoeddus, ac mae engrairefftiau o hynny i'w gweld ym mhob rhan o'i adolygiad blynnyddol. Er engrairefft, cyhoeddodd y comisiwn ganllawiau ar safleoedd Sipsiwn a Theithwyr, gan gydnabod yr anghydraddoldebau a brofir gan y gymuned hon o ran eu dewisiadau llety. Mae'r canllawiau'n amlinellu cyfrifoldebau cynghorwyr a chynghorau sir i gyflawni eu rhwymedigaethau statudol. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi mabwysiadu dull rhagweithiol. Roedd Deddf Tai (Cymru) 2014 yn ailgyflwyno dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu safleoedd Sipsiwn a Theithwyr os yw asesiadau llety Sipsiwn a Theithwyr yn canfod angen heb ei ddiwallu.

I gefnogi'r ddyletswydd newydd, rydym wedi dyrannu £2 filiwn ychwanegol ar gyfer 2015-16 drwy'r grant cyfalaf i safleoedd Sipsiwn a Theithwyr, gan ddod â chyfanswm y gronfa i £3.5 miliwn. Rydym wedi dyrannu'r cyllid hwn yn llawn i ymestyn safleoedd yn sylweddol ledled Cymru.

Mae adolygiad y Comisiwn yn cydnabod hefyd bod gwahaniaethu a throseddau chasineb wedi effeithio ar gymunedau Mwslimaidd yn ddiweddar. Roedd canolbwyt darlith flynyddol y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 'Herio Islamophobia', yn amserol ac yn tynnu sylw at effaith negyddol troseddau casineb, sydd nid yn unig yn niweidio'r dioddefwr ond hefyd y gymuned lle mae'n byw. Felly, mae'n bwysicach fyth heddiw ein bod yn adeiladu cymunedau cryfach, mwy diogel a chynhwysol yng Nghymru. Yr unig ffodd o gyflawni hyn yw drwy i'r gwasanaethau cyhoeddus gydweithio a gweithio mewn partneriaeth ar draws pob asiantaeth. Mae gweithio mewn partneriaeth ar draws pob sector yn tanategu gwaith y Comisiwn ac mae'n hanfodol er mwyn gwneud cynnydd ar yr agenda cydraddoldeb a hawliau dynol.

As their annual review demonstrates, the EHRC already has a strong partnership ethos across the public sector. This year, they've strengthened links with the private business sector, working on increasing the introduction of workplace policies on domestic abuse and mental health. Welsh Government itself has a very positive relationship with the EHRC, which was strengthened in 2014 when we signed a concordat with them. The concordat provides a robust framework for an effective working relationship between us. Year on year, the commission continues to deliver a distinct work programme focusing on areas that are in accordance with Wales's unique political, legal and social landscape. This is highlighted by their priorities for 2015-16. The commission's priorities for the coming year include providing advice and guidance to public bodies by sharing effective practice on equality and human rights; supporting decision and policy making across the Welsh public sector by sharing evidence, such as 'Is Wales Fairer?'; and increasing understanding of how human rights can improve services across all sectors.

The commission's report provides a snapshot of the breadth and depth of the work they've undertaken over the last year. It demonstrates that equality and human rights, far from being a luxury, are essential to the financial and social prosperity of Wales. I wholly value the work that the commission has already undertaken in 2014-15. It demonstrates their continuing commitment to embed and drive a culture of fairness across all sectors and I very much look forward to the debate.

Fel y mae ei adolygiad blynnyddol yn ei ddangos, mae gan y Comisiwn ethos partneriaeth cryf eisoes ar draws y sector cyhoeddus. Eleni, mae wedi cryfhau cysylltiadau â'r sector busnes preifat, gan weithio ar gyflwyno mwy o bolisiau cam-drin domestig ac iechyd meddwl yn y gweithle. Mae gan Lywodraeth Cymru ei hun berthynas gadarnhaol iawn â'r Comisiwn, a gafodd ei chryfhau yn 2014 wedi inni lofnodi concordat gydag ef. Mae'r concordat yn darparu fframwaith cadarn ar gyfer perthynas waith effeithiol rhymgom. O flwyddyn i flwyddyn, mae'r comisiwn yn parhau i gyflwyno rhaglen waith neilltuol sy'n canolbwytio ar feysydd sy'n berthnasol i dirlun gwleidyddol, cyfreithiol a chymdeithasol unigryw Cymru. Mae ei flaenoriaethau ar gyfer 2015-16 yn amlyu hyn. Mae blaenoriaethau'r comisiwn ar gyfer y flwyddyn i ddod yn cynnwys darparu cyngor ac arweiniad i gyrrf cyhoeddus drwy rannu arferion effeithiol o ran cydraddoldeb a hawliau dynol; cefnogi'r gwaith o lunio penderfyniadau a pholisiau ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru drwy rannu tystiolaeth, fel 'A yw Cymru'n Decach?'; a chynyddu dealltwriaeth o sut y gall hawliau dynol wella gwasanaethau ar draws pob sector.

Mae adroddiad y comisiwn yn rhoi cipolwg ar ehangder a dyfnder y gwaith y mae wedi'i wneud dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'n dangos bod cydraddoldeb a hawliau dynol, ymhell o fod yn foeth, yn hanfodol i ffyniant ariannol a chymdeithasol Cymru. Rwy'n gwerthfawrogi'n llwyr y gwaith y mae'r comisiwn eisoes wedi ymgymryd ag ef yn 2014-15. Mae'n dangos ei ymrwymiad parhaus i ymgorffori a sbarduno diwylliant o degwch ar draws pob sector ac rwy'n edrych ymlaen yn fawr at y drafodaeth.

17:06

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have selected the amendment to the motion. I call on Peter Black to move amendment 1, tabled in the name of Aled Roberts.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Gwelliant 1—Aled Roberts

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda Chomisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru i anfon neges gref i Lywodraeth y DU ein bod yn gwrthwynebu unrhyw ymgais i ddiddymu Deddf Hawliau Dynol 1998.

Cynigiwyd gwelliant 1.

Amendment 1—Aled Roberts

Add as new point at end of motion:

Calls on the Welsh Government to work with the Equality and Human Rights Commission Wales to send a strong message to the UK Government that we oppose any attempt to repeal the Human Rights Act 1998.

Amendment 1 moved.

17:06

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Deputy Presiding Officer. Can I move amendment 1 in the name of Aled Roberts? In doing so, I very much welcome this report, which sets out the work of the EHRC for the year 2014-15. I think it's a very good and comprehensive report. Certainly, it stresses how important and fundamental our human rights are, and also how we can deal with equality issues in Wales.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Diolch, Ddirprwy Lywydd. A gaf i gynnig gwelliant 1 yn enw Aled Roberts? Wrth wneud hynny, rwy'n croesawu'r adroddiad hwn yn fawr, sy'n nodi gwaith y Comisiwn yn y flwyddyn 2014-15. Rwy'n credu ei fod yn adroddiad da a chynhwysfawr iawn. Yn sicr, mae'n pwysleisio pa mor bwysig a sylfaenol yw ein hawliau dynol, a hefyd sut y gallwn ymdrin â materion cydraddoldeb yng Nghymru.

Human rights are absolutely essential in promoting a fair and equal Wales. The last time, I voiced my concern about a potential Conservative-majority Government, which would remove the Human Rights Act and might force us out of Europe as well, and that is precisely where we are today. In Government, the Liberal Democrats were proud to defend these fundamental civil liberties and stop the Conservatives from scrapping the Human Rights Act, and we now oppose any attempt by the Conservative UK Government to repeal the Human Rights Act, which, we believe, would also undermine our Welsh devolution settlement. I think we had quite a comprehensive debate earlier today about how other legislation is doing that too.

I think, in any reform of the Human Rights Act, there is a clear need to have regard to the impact of the proposals on the devolved nations, which have convention rights firmly embedded within our founding statutes. Of course, it is a bit ironic that the proposals to scrap the Human Rights Act, in order to break the formal link between the British courts and the European Court of Human Rights, would scrap the very legislation that is enacted to bring those rights home and to ensure they're dealt with in British courts. I think that is an issue that the current Government has not fully understood or appreciated.

The Human Rights Act makes the rights enshrined in the European Court of Human Rights directly enforceable in the British courts, so that people no longer have to take their cases to Strasbourg to seek justice. As a result, among the cases brought as a direct result of that Act is that of Private Cheryl James of Llangollen whose death at Deepcut barracks left her father Des and mother Doreen fighting for nearly 20 years to gain the justice they believed their daughter deserved, with the support of both their previous and current MPs to try to do that. I think it's difficult to believe that, without the protection afforded to them by the Human Rights Act, they would have had any prospects of justice in this or in many other cases. These are British rights drafted by British lawyers. Europe's human rights laws reflect British values of justice, tolerance and decency, and as Shami Chakrabarti neatly puts it,

'The Human Rights Act was a beautifully simple piece of legislation that has repeatedly let ordinary people—soldiers, journalists, bereaved families, victims of domestic violence, slavery and rape—hold the state to account.'

That is why we need to make sure that we have a future with a human rights Act within the UK that Wales and the rest of the UK can benefit from.

Mae hawliau dynol yn gwbl hanfodol i hyrwyddo Cymru deg a chyfartal. Y tro diwethaf, fe wnes i leisio fy mhryder am Lywodraeth Geidwadol fwyafriw bosibl, a fyddai'n cael gwared ar y Ddeddf Hawliau Dynol ac a allai ein gorfodi allan o Ewrop hefyd, a dyna'n union lle'r ydym ni heddiw. Yn y Llywodraeth, roedd y Democratiaid Rhyddfrydol yn falch o amddiffyn rhyddid sifil sylfaenol ac atal y Ceidwadwyr rhag cael gwared ar y Ddeddf Hawliau Dynol, ac rydym ni nawr yn gwrthwynebu unrhyw ymgais gan Lywodraeth Geidwadol y DU i ddiddymu'r Ddeddf Hawliau Dynol, a fyddai, yn ein barn ni, hefyd yn tanseilio setliad datganoli Cymru. Ryw'n credu ein bod wedi cael dadl eithaf cynhwysfawr yn gynharach heddiw ynglŷn â sut y mae deddfwriaeth arall yn gwneud hynny hefyd.

Rwy'n meddwl, mewn unrhyw broses o ddiwygio'r Ddeddf Hawliau Dynol, bod angen clir i roi sylw i effaith y cynigion ar y gwledydd datganoledig, lle mae hawliau confensiwn wedi'u sefydlu'n gadarn o fewn ein statudau sefydlol. Wrth gwrs, mae braidd yn eironig y byddai'r cynigion i gael gwared ar y Ddeddf Hawliau Dynol, er mwyn torri'r cysylltiad ffurfiol rhwng llysoedd Prydain a Llys Hawliau Dynol Ewrop, yn cael gwared ar yr union ddeddfwriaeth a ddefnyddir i ddod â'r hawliau hynny adref ac i sicrhau eu bod yn cael sylw yn llysoedd Prydain. Nid wyf yn meddwl bod y Llywodraeth bresennol wedi deall na gwerthfawrogi'r mater hwnnw yn llawn.

Mae'r Ddeddf Hawliau Dynol yn dweud bod yr hawliau sydd wedi'u hymgorffori yn Llys Hawliau Dynol Ewrop yn uniongyrchol orfadwy yn llysoedd Prydain, fel nad oes rhaid i bobl fynd â'u hachosion i Strasbourg i geisio cyflawnder mwyach. O ganlyniad, ymhlið yr achosion a ddygwyd o ganlyniad uniongyrchol i'r Ddeddf honno mae achos y Preifat Cheryl James o Langollen; ers ei marwolaeth ym marics Deepcut mae ei thad Des a'i mam Doreen wedi bod yn ymladd ers bron i 20 mlynedd i gael y cyflawnder yr oeddent yn credu bod eu merch yn ei haeddu, gyda chefnogaeth eu Haelodau Seneddol blaenorol a phresennol i geisio gwneud hynny. Rwy'n credu ei bod yn anodd credu, heb y warchodaeth a roddir iddynt gan y Ddeddf Hawliau Dynol, y byddai ganddynt unrhyw siawns o gael cyflawnder yn yr achos hwn, na mewn llawer o achosion eraill. Hawliau Prydeinig wedi'u drafftio gan gyfreithwyr Prydain yw'r rhain. Mae cyfreithiau hawliau dynol Ewrop yn adlewyrchu gwerthoedd Prydeinig sef cyflawnder, goddefgarwch a gwedduster, ac fel mae Shami Chakrabarti yn ei gyfleo'n daclus,

'Roedd y Ddeddf Hawliau Dynol yn ddarn o ddeddfwriaeth hyfryd o syml sydd dro ar ôl tro wedi caniatáu i bobl gyffredin—milwyr, newyddiadurwyr, teuluoedd mewn profedigaeth, dioddefwyr traïs yn y cartref, caethwasiaeth a thrais rhywiol—ddwyn y wladwriaeth i gyfrif.'

Dyna pam mae angen inni wneud yn siŵr bod gennym ddyfodol gyda Deddf hawliau dynol yn y DU y gall Cymru a gweddill y DU elwa arni.

To walk away from the Human Rights Act and the European convention would remove, at a stroke, the moral authority we have when we engage with other countries. What sort of message would this Government be saying to brutal dictators across the world if we abandoned our human rights obligations? Labour and Plaid Cymru joined the Welsh Liberal Democrats last June to oppose the Conservative Government's proposals to repeal the Human Rights Act. My colleague, William Powell, at that time, voiced his concern that the British Bill of rights is to be fast-tracked through the House of Commons and queried how the Welsh Government were moving forward on the plan to oppose the Conservative Government's proposals. Unfortunately, the leader of the house could only tell us that we need to take stock of what is happening in terms of our commitment to human rights.

This review tells us what the commission is doing as part of its commitment, but we need to know what the Welsh Labour Government is doing, and their colleagues in Westminster are doing, to oppose these plans. Liberal Democrats are forcing to stop the Tories undermining our human rights laws. I hope that we can support this amendment and work with the Equality and Human Rights Commission in Wales to make sure that we can stop them here as well.

Now, in terms of the rest of the report, mental health needs to be treated equally to physical health, and I'm pleased to see the progress being made on mental health and detention through the adult death in detention inquiry. However, not enough is being done fast enough. We believe that the Welsh Government needs to ensure that there is sufficient capacity in mental health intensive care and forensic units to divert people in need of treatment away from prison and to assist those already in prison. I'm pleased that my Liberal Democrat colleague, the then UK care Minister, Norman Lamb, was able to secure an agreement between 20 national organisations that set standards in mental health crisis care for the first time under the mental health crisis concordat. It's already started having an effect in England, with the use of police cells down by a quarter in 2014 alone, and I think it needs to be implemented as swiftly in Wales as possible to ensure that we have a similar impact here.

The commission in Wales needs to keep up and increase the good work on that, and we're pleased to see progress being made with other groups such as transgender people. However, this is small progress against very large needs. I would refer, as I'm running out of time, very briefly to the debate that we had previously on this particular issue in terms of trying to improve rights for the transgender community. I think, Deputy Presiding Officer, this is a very important report. The work that the commission is doing is very important, but I think that we need to underpin that by having a Human Rights Act that is going to support all of us.

Byddai troi ein cefnau ar y Ddeddf Hawliau Dynol a'r confensiwn Ewropeaidd yn cael gwared, ar amrantiad, ar yr awdurdod moesol sydd gennym wrth i ni ymgysylltu â gwledydd eraill. Pa fath o neges fyddai'r Llywodraeth hon yn ei rhoi i unbeniaid creulon ledled y byd pe byddem yn cefnu ar ein rhwymedigaethau hawliau dynol? Ymunodd Llafur a Phlaid Cymru â Democratiaid Rhyddfrydol Cymru fis Mehefin diwethaf i wrthwynebu cynigion y Llywodraeth Geidwadol i ddiddymu'r Ddeddf Hawliau Dynol. Ar y pryd, lleisiodd fy nghyd-Aelod, William Powell, ei bryder bod Bil hawliau Prydain am gael ei roi ar Iwybr cyflym drwy Dŷ'r Cyffredin a holodd sut yr oedd Llywodraeth Cymru yn symud ymlaen â'r cynllun i wrthwynebu cynigion y Llywodraeth Geidwadol. Yn anffodus, yr oll y gallai arweinydd y tŷ ei ddweud wrthym oedd bod angen inni bwysio a mesur yr hyn sy'n digwydd o ran ein hymrwymiad i hawliau dynol.

Mae'r adolygiad hwn yn dweud wrthym beth mae'r comisiwn yn ei wneud yn rhan o'i ymrwymiad, ond mae angen inni wybod beth mae Llywodraeth Lafur Cymru yn ei wneud, a beth mae eu cydweithwyr yn San Steffan yn ei wneud, i wrthwynebu'r cynlluniau hyn. Mae'r Democratiaid Rhyddfrydol yn gwthio i atal y Torïaid rhag tanseilio ein cyfreithiau hawliau dynol. Rwy'n gofeithio y gallwn gefnogi'r gwelliant hwn a gweithio gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru i wneud yn siŵr y gallwn eu hatal yma hefyd.

Nawr, o ran gweddill yr adroddiad, mae angen trin iechyd meddwl yn gyfartal ag iechyd corfforol, ac rwy'n falch o weld y cynnydd sy'n cael ei wneud ar iechyd meddwl a'r ddalfa drwy'r ymchwiliad i farwolaeth oedolion yn y ddalfa. Fodd bynnag, nid oes digon yn cael ei wneud yn ddigon cyflym. Credwn fod angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod gan unedau gofal dwys iechyd meddwl ac unedau fforensig ddigon o gapasiti i ddargyfeirio pobl sydd ag angen triniaeth i ffwrdd o'r carchar ac i gynorthwyo'r rhai sydd eisoes yn y carchar. Rwy'n falch bod fy nghyd-Aelod o'r Democratiaid Rhyddfrydol, Gweinidog gofal y DU ar y pryd, Norman Lamb, wedi gallu sicrhau cytundeb rhwng 20 o fudiadau cenedlaethol i bennu safonau ym maes gofal argyfwng iechyd meddwl am y tro cyntaf o dan y concordat argyfwng iechyd meddwl. Mae eisoes wedi dechrau cael effaith yn Lloegr; mae'r defnydd o gelloedd yr heddlu i lawr gan chwarter yn 2014 yn unig, ac rwy'n meddwl bod angen ei roi ar waith cyn gynted â phosibl yng Nghymru i sicrhau ein bod yn cael effaith debyg yma.

Mae angen i'r comisiwn yng Nghymru ddal ati a gwneud mwys o waith da ar hynny, ac rydym yn falch o weld cynnydd yn cael ei wneud gyda grwpiau eraill megis pobl drawsrywiol. Fodd bynnag, mae'r cynnydd hwn yn fach ac mae'r anghenion yn fawr iawn. Rwyf am gyfeirio, gan fod fy amser yn mynd yn brin, yn fyr iawn at y ddadl a gawsom yn flaenorol am y mater penodol hwn o ran ceisio gwella hawliau i'r gymuned drawsrywedol. Rwy'n credu, Ddirprwy Lywydd, bod hwn yn adroddiad pwysig iawn. Mae'r gwaith y mae'r comisiwn yn ei wneud yn bwysig iawn, ond rwy'n meddwl bod angen inni danategu hynny drwy gael Deddf Hawliau Dynol a fydd yn gefnogi pob un ohonom.

I'm grateful to the Equality and Human Rights Commission Wales for this review of progress made towards creating a fairer Wales. In my response, I would like to say a few words on some of the challenges identified by the commission as the most serious inequalities we face in Wales. The Welsh Government has, rightly, made tackling poverty one of its key priorities. The tackling poverty action plan states that

'the best route out of poverty is through employment'.

It is encouraging, therefore, that unemployment in Wales is currently falling faster than in any other region of the United Kingdom. There are some 30,000 fewer people unemployed in Wales today than there were in 2010, but we cannot be complacent, Deputy Presiding Officer. More needs to be done to improve the skills of the Welsh people to boost employment and to tackle exclusion, particularly digital exclusion.

A recent report by the charity Go ON UK revealed that over a third of the Welsh population do not have the five basic digital skills to prosper in the digital era. Wales has the lowest level of internet access, and places like Merthyr Tydfil are amongst the poorest in the United Kingdom. There is a clear link between the lack of skill and the poverty and exclusion that need to be addressed.

On domestic abuse, I welcome the work done to increase the number of workplace policies in the public and private sectors. Recognising the signs is vital if we are to tackle the scourge of domestic abuse in Wales. The College of Policing has issued new guidance and specialist advice on how to spot patterns of domestic abuse. It advises senior officers about the need for specialist staff to deal with cases of abuse and ensure victims receive the best possible support. It is a huge step forward in helping the police to recognise and understand the complex nature of domestic abuse and coercive control.

The police are also training more officers to deal with slavery in Wales. The number of slavery victims in Wales has doubled in the last two years. This could be due to the increased publicity and awareness of slavery, which may have resulted in more victims coming forward. I applaud the four Welsh police forces on holding Wales's first anti-slavery week to highlight this problem—its aim: to raise awareness about modern slavery and encourage members of the public to be vigilant in case it is happening in their communities and their surroundings. We must do all we can to stamp out the evil of modern slavery in Wales.

Rwy'n ddiolchgar i Gomisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru am yr adolygiad hwn c'r cynnydd a wnaethpwyd tuag at greu Cymru decach. Yn fy ymateb, hoffwn ddweud ychydig o eiriau am rai o'r heriau a nododd y comisiwn fel yr anghydraddoldebau mwyaf difrifol sy'n ein hwynebu yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru, yn gwbl briodol, wedi gwneud trechu tlodi yn un o'i blaenoriaethau allweddol. Mae'r cynllun gweithredu ar drechu tlodi yn datgan

'y llwybr gorau allan o dlodi yw drwy gyflogaeth'.

Mae'n galonogol, felly, bod diweithdra yng Nghymru ar hyn o bryd yn gostwng yn gyflymach nag mewn unrhyw ranbarth arall yn y Deyrnas Unedig. Mae tua 30,000 yn llai o bobl yn ddi-waith yng Nghymru heddiw nag oedd yn 2010, ond ni allwn fod yn hunanfodlon, Ddirprwy Lywydd. Mae angen gwneud mwy i wella sgiliau pobl Cymru i hybu cyflogaeth a mynd i'r afael ag allgáu, yn enwedig allgáu digidol.

Dangosodd adroddiad diweddar gan yr elusen Go ON UK fod dros draean o boblogaeth Cymru heb y pum sgil digidol sylfaenol i ffynnu yn yr oes ddigidol. Cymru sydd â'r lefel isaf o fynediad i'r rhyngrwyd, ac mae lleoedd fel Merthyr Tudful ymhlieth y tlodaf yn y Deyrnas Unedig. Mae cysylltiad clir rhwng y diffyg sgiliau a'r tlodi a'r allgáu y mae angen rhoi sylw iddynt.

O ran cam-drin domestig, rwy'n croesawu'r gwaith a wnaethpwyd i gynyddu nifer y polisiau gweithlyn yn y sectorau cyhoeddus a phreifat. Mae adnabod yr arwyddion yn hanfodol os ydym am fynd i'r afael â melltith cam-drin domestig yng Nghymru. Mae'r Coleg Plismona wedi cyhoeddi canllawiau newydd a chyngor arbenigol ar sut i adnabod patrymau cam-drin domestig. Mae'n cynhor i uwch swyddogion am y ffaith bod angen staff arbenigol i ymdrin ag achosion o gam-drin a bod angen sicrhau bod dioddefwyr yn cael y gefnogaeth orau bosibl. Mae'n gam mawr ymlaen o ran helpu'r heddlu i adnabod a deall natur gymhleth cam-drin domestig a rheolaeth gymhellol.

Mae'r heddlu hefyd yn hyfforddi mwy o swyddogion i ymdrin â chaethwasiaeth yng Nghymru. Mae nifer y dioddefwyr caethwasiaeth yng Nghymru wedi dyblu yn y ddwy flynedd ddiwethaf. Gallai hyn fod o ganlyniad i fwy o gyhoeddus rwydd ac ymwybyddiaeth o gaethwasiaeth, a allai fod wedi annog mwy o ddioddefwyr i ddod ymlaen. Rwy'n canmol pedwar heddlu Cymru am gynnal wythnos wrth-gaethwasiaeth gyntaf Cymru i dynnu sylw at y broblem hon—ei nod: codi ymwybyddiaeth am gaethwasiaeth fodern ac annog aelodau o'r cyhoedd i fod yn wyliadwrus rhag ofn ei fod yn digwydd yn eu cymunedau a'u hamgylchoedd hwy. Mae'n rhaid inni wneud popeth o fewn ein gallu i gael gwared ar ddrygioni caethwasiaeth fodern yng Nghymru.

The same is true of hate crime. Hate crime in England and Wales has risen by 18 per cent in the last year. Of these crimes, more than 80 per cent were classed as race hate crimes. According to the Home Office, the likely factors for this increase include improved recording of crime, greater awareness and an improved willingness of victims to come forward. I very much welcome the news that the UK Government is to make it a legal requirement for all police forces to record Islamophobia as a separate category of crime. This move brings Islamophobia in line with anti-Semitic attacks, which have been recorded separately for some time. The benefit of this move could be crucial in reducing Islamophobia and in providing victims with the support that they deserve. Deputy Presiding Officer, once again I welcome this review and thank the commission for all it is doing to promote equality in Wales. Thank you.

Mae'r un peth yn wir am droseddau casineb. Mae troseddau casineb yng Nghymru a Lloegr wedi cynyddu 18 y cant yn y flwyddyn ddiwethaf. O'r troseddau hyn, cafodd dros 80 y cant eu dosbarthu'n droseddau casineb hiliol. Yn ôl y Swyddfa Gartref, mae'r ffactorau tebygol am y cynnydd hwn yn cynnwys cofnodi troseddau'n well, mwy o ymwybyddiaeth a gwell parodrwydd ymmsg dioddefwyr i ddod ymlaen. Croesawaf yn fawr iawn y newyddion y bydd Llywodraeth y DU yn ei gwneud yn ofyniad cyfreithiol i bob heddlu gofnodi Islamophobia fel categori ar wahân o drosedd. Mae'r symudiad hwn yn dod ag Islamophobia yn unol ag ymosodiadau gwrth-Semitaidd, sydd wedi cael eu cofnodi ar wahân ers cryn amser. Gallai'r newid hwn fod o fudd hanfodol wrth leihau Islamophobia ac wrth ddarparu'r cymorth y maent yn ei haeddu i ddioddefwyr. Ddirprwy Lywydd, unwaith eto rwy'n croesawu'r adolygiad hwn ac yn diolch i'r comisiwn am bopeth y mae'n ei wneud i hyrwyddo cydraddoldeb yng Nghymru. Diolch.

17:16

Jeff Cuthbert [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'm grateful for the opportunity to speak in this important debate today. The Equality and Human Rights Commission Wales review for 2014-15 is a timely and important document, and I have read through its key points with interest. As a former Welsh Government Minister whose remit at the time included the equalities portfolio, it is an area to which I pay close attention. I'm very grateful to the commissioner for Wales, Ann Beynon OBE, and the national director, Kate Bennett, for issuing this report. In particular, I was pleased to read that the commission was committed to the continued development of a strong and distinct equality and human rights agenda in Wales, and that this builds on the work done by the Welsh Government in introducing the wellbeing of future generations Act. I'm confident that the long-term benefits of this approach will bear fruit over time to help ensure that a commitment to equality and sustainability is now embedded across Welsh public services, with a growing pull on the private and voluntary sectors, too. The commission's strong and constructive working relationship with the Welsh Government helps in this regard.

On the related matters of education and employment, I was pleased to read that the commission has worked with Wales's higher education institutions to ensure that disabled students have better access to services and that their learning experience is not put at any disadvantage because of their disability. Each HEI in Wales now has at least one initiative in place to widen access and increase student diversity, and this is to be welcomed. Further to this, the commission says that HEIs are now making more concerted efforts to attract students from more deprived areas, such as Communities First areas, into further and higher education.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Rwy'n ddiolchgar am y cyfle i siarad yn y ddadl bwysig hon heddiw. Mae adolygiad Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru ar gyfer 2014-15 yn ddogfen amserol a phwysig, ac rwyf wedi darllen drwy ei phwyntiau allweddol gyda diddordeb. Fel cyn Weinidog Llywodraeth Cymru a oedd â chylch gwaith ar y pryd yn cynnwys y portffolio cydraddoldeb, mae'n faes yr wyf yn talu sylw agos iddo. Rwy'n ddiolchgar iawn i gomisiynydd Cymru, Ann Beynon OBE, a'r cyfarwyddwr cenedlaethol, Kate Bennett, am gyhoeddi'r adroddiad hwn. Yn benodol, roeddwn yn falch o ddarllen bod y comisiwn wedi ymrwymo i barhau i ddatblygu agenda cydraddoldeb a hawliau dynol gref ac unigryw yng Nghymru, a bod hyn yn adeiladu ar y gwaith a wnaeth Llywodraeth Cymru wrth gyflwyno Deddf llesiant cenedlaethau'r dyfodol. Rwy'n hyderus y bydd buddiannau hirdymor y dulliau hyn yn dwyn ffrwyth dros amser ac yn helpu i sicrhau bod ymrwymiad i gydraddoldeb a chynaliadwyedd nawr wedi'i ymgorffori ar draws gwasanaethau cyhoeddus Cymru, a bod tynfa fwy ar y sectorau preifat a gwirfoddol hefyd. Mae perthynas waith gref ac adeiladol y comisiwn gyda Llywodraeth Cymru o gymorth yn hyn o beth.

